

Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru

The Young Foundation, June 2025

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
I. Cyflwyniad a throsolwg.....	5
Crynodeb.....	5
Cefndir y Bil	5
Trosolwg o'r astudiaeth.....	7
II. Dull a methodoleg	9
Cwmpasu.....	9
Modelu	11
Asesiad	14
Costau a manteision y ddeddfwriaeth	14
III. Adolygiad o lenyddiaeth a deddfwriaeth berthnasol	16
Adolygiad o fylchau mewn polisïau presennol yng Nghymru	17
Manteision, costau a risgiau disgwyliedig deddfwriaeth amgylcheddol	20
Enghreifftiau o egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth.....	24
(1) Egwyddorion amgylcheddol	24
(2) Llywodraethu amgylcheddol.....	28
(3) Targedau a deddfwriaeth bioamrywiaeth.....	32
IV. Canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, modelu polisi ac asesu	36
Barn gyffredinol rhanddeiliaid ar y ddeddfwriaeth	36
1) Egwyddorion amgylcheddol	38
1A) Busnes fel arfer	38
1B) Egwyddorion yn unig.....	40
1C) Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion.....	42
1D) Dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Gweinidogion ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol.....	46
Dadansoddiad cost o egwyddorion amgylcheddol.....	47
2) Corff llywodraethu	54
Barn rhanddeiliaid	54

2A) Busnes fel arfer	55
2B) Darparu swyddogaethau i gyrff presennol.....	55
2C) Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol pwrpasol.....	56
2D) Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ymestyn swyddogaethau'r OEP i Gymru	59
Dadansoddiad costau corff llywodraethu.....	60
3) Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth.....	65
3A) Busnes fel arfer	66
3B) Mesurau anstatudol: diweddaru Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	66
3C) Pwerau i greu targedau bioamrywiaeth statudol	67
Dadansoddiad costau o dargedau bioamrywiaeth	73
V. Casgliadau.....	77
Myfyrdodau ar fesur a moneteiddio manteision ac anfanteision.....	77
Manteision esboniadol o dargedau bioamrywiaeth.....	80
Manteision fel y'u disgrifir yn Neddf Amgylchedd Lloegr 2021 IA.....	80
Manteision wedi'u haddasu i fod yn berthnasol i Gymru.....	82
Casgliadau o ddadansoddiad cost-budd	85
Casgliadau o safbwyntiau rhanddeiliaid	88

Crynodeb gweithredol

Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach, yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd a fydd yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, gan gryfhau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Gan fod diogelu'r amgylchedd yn faes polisi datganoledig, mae rheidrwydd a chyfle i Gymru gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad o bob un o'r tri maes allweddol a gynigiwyd ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru:

1. ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru
2. llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru
3. fframwaith targedau statudol i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru

Er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn wedi'i wneud yn effeithiol, rydym wedi:

- casglu tystiolaeth o wahanol sectorau (gan gynnwys o fannau eraill yn y DU) ar gynigion tebyg neu gynigion blaenorol
- nodi risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phob un o'r senarios
- adolygu'r manteision a fwriadwyd ar gyfer y cynigion ac awgrymu unrhyw fanteision y gellid eu gwireddu yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd uchod
- cynnal dadansoddiad cost-budd a, chyn belled ag y bo modd, rhoi gwerth ariannol ar y manteision a'r costau disgwylidig
- darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi disgrifiad naratif o fanteision mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl mesur y manteision disgwylidig

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu i'r pum adran ganlynol:

- Cyflwyniad a throsolwg

- Dull a methodoleg
- Adolygiad o lenyddiaeth ynghylch cyflwyno biliau amgylcheddol a fframweithiau bioamrywiaeth
- Canfyddiadau, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid a dadansoddiad o opsiynau ym mhob un o'r tri maes allweddol gan gynnwys risgiau, costau a manteision na ellir eu mesur
- Casgliadau

I. Cyflwyniad a throsolwg

Crynodeb

Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach, yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd a fydd yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, gan gryfhau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Gan fod diogelu'r amgylchedd yn faes polisi datganoledig, mae angen a chyfle i Gymru gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun.

Yn dilyn asesiad effaith rheoleiddiol drafft Llywodraeth Cymru, comisiynwyd yr astudiaeth allanol annibynnol hon gan Sefydliad Young, mewn partneriaeth â WPI Economics, yn Hydref 2024 i helpu i werthuso'r tri maes allweddol a gynigiwyd ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru:

1. ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru
2. llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru.
3. fframwaith targedau statudol i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r astudiaeth annibynnol. Mae'n gwasanaethu i lywio'r asesiad effaith rheoleiddiol terfynol drwy alluogi mwy o ymgysylltiad â blaenoriaethau rhanddeiliaid a darparu dadansoddiad cost-budd annibynnol.

Mae gweddill yr adran hon yn rhoi cefndir i'r Bil a mwy o fanylion am yr hyn y mae'r astudiaeth annibynnol wedi'i olygu.

Cefndir y Bil

Mae diogelu'r amgylchedd wedi bod yn flaenoriaeth yng Nghymru ers tro byd, ond mae ei bwysigrwydd mewn deddfwriaeth wedi dod i ffocws arbennig ers penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, a'r gofynion dilynol i fonitro diogelu'r amgylchedd a gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol. Mae deddfwriaeth amgylcheddol yn faes datganoledig o lunio polisiau yn y DU, gan roi'r cyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru sefydlu ei dull ei hun o ran deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a llywodraethu diogelu'r amgylchedd, adfer natur, a'r ymateb i newid hinsawdd.

Argymhellodd ymgynghoriad ar Ddeddf yr Amgylchedd 2016 a Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd yn 2019-2020, Fil Amgylcheddol i Gymru a fyddai'n amddiffyn y cynnydd a wnaed ar ddiogelu'r amgylchedd o dan yr UE, ac yn cryfhau gallu Cymru i symud ymlaen ymhellach â newid amgylcheddol cadarnhaol ac adfer bioamrywiaeth unigryw Cymru.

Mae Papur Gwyn 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach' yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd a fydd yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, yn cryfhau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru drwy sefydlu corff newydd i oruchwyllo cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol, ac yn cyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol i frwydro yn erbyn yr argyfwng natur parhaus. Mae'r cynigion yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at "Gymru wyrddach i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur," fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu. Ymrwymodd y Prif Weinidog i gyflwyno Bil ar y materion hyn yn ystod tymor y Senedd hwn yn eu datganiad deddfwriaethol yn 2024.

Mae'r cynigion wedi'u llywio gan ymgynghoriadau ac ymgysylltu blaenorol, gan gynnwys ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn 2019, adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2020, yn ogystal â sefydlu Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (IEPAW) ac ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid. Nododd y Papur Gwyn gynigion ar gyfer Bil i gwmpasu tri maes allweddol a gwahodd barn gan bartion â diddordeb:

1. ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
2. llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru;
3. fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Adeiladodd y Papur Gwyn ar hyn, gan fynegi cynigion clir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus i ben ym mis Ebrill 2024 a derbyniodd 1171 o ymatebion. Croesawodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad a darparodd

ymateb yn fuan wedi hynny.¹ Croesawodd hwn y gymeradwyaeth eang i'r cynigion ac ymatebodd i bwyntiau adborth unigol.

Cynhyrchwyd asesiad effaith rheoleiddiol drafft yn 2024 yn cyflwyno'r opsiwn i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i egwyddorion amgylcheddol (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisiau a'u deddfwriaeth. Byddai hyn yn golygu ymgorffori'r pum egwyddor yn llyfr statud Cymru a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r egwyddorion hyn. Byddai'n mynd ymhellach na gofynion blaenorol deddfwriaeth yr UE drwy roi egwyddorion amgylcheddol wrth wraidd llunio polisiau a gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Trosolwg o'r astudiaeth

Mae'r astudiaeth annibynnol hon yn adeiladu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft² a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r Papur Gwyn. Fe'i comisiynwyd i werthuso pob un o'r tri maes allweddol a gynigiwyd ym Mil Llywodraeth Cymru ac i roi gwybodaeth i Weinidogion, y Swyddog Cyfrifyddu, y Senedd a rhanddeiliaid am effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth, sydd wedi cynnwys:

- casglu a chyflwyno tystiolaeth o wahanol sectorau (gan gynnwys o fannau eraill yn y DU) ar gynigion tebyg neu gynigion blaenorol
- cynnal asesiad llenyddiaeth a thystiolaeth annibynnol o'r hyn a wyddys am y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r tri maes allweddol a gynigir ar gyfer Bil
- cynnal cyfweiliadau rhanddeiliaid annibynnol gyda chyrrff cyhoeddus, llywodraeth, llywodraeth leol, y sector cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru a chymheiriaid yn yr Alban a San Steffan ynghylch pob un o'r opsiynau
- adolygu'r manteision a fwriadwyd o'r cynigion ac awgrymu unrhyw fanteision y gellid eu gwireddu yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd uchod
- cynnal dadansoddiad cost-budd, a, chyn belled ag y bo modd, moneteiddio'r manteision a'r costau disgwylidig. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r

¹ Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn>

² Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-01/aer-papur-gwyn-egwyddorion-amgylcheddol-llywodraethiant-a-thargedau-bioamrywiaeth.pdf>

opsiwn 'gwneud dim/busnes fel arfer', a ddefnyddir fel llinell sylfaen i asesu costau a manteision cymharol yr opsiynau amgen yn ei herbyn

- darparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi disgrifiad naratif o fanteision lle nad yw'n bosibl mesur y manteision disgwylidig (e.e. manteision cymdeithasol ac amgylcheddol) y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i nodi yn y Papur Gwyn

Mae'r adroddiad wedi'i rannu i'r pum adran ganlynol:

- Yr adran hon - Cyflwyniad a throsolwg
- Dull a methodoleg
- Adolygiad o lenyddiaeth ynghylch cyflwyno biliau amgylcheddol a Fframweithiau Bioamrywiaeth
- Canfyddiadau, gan gynnwys adborth gan randdeiliaid a dadansoddiad o opsiynau ym mhob un o'r tri maes allweddol gan gynnwys risgiau, costau a manteision na ellir eu mesur
- Casgliadau

II. Dull a methodoleg

Er mwyn rhoi'r ystod eang o fewnbwn sydd ei angen i'r adroddiad hwn, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod eu barn ar y Bil a'r opsiynau sydd ar gael yn cael eu casglu. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae'r tîm wedi cynnal sawl gweithgaredd ymgysylltu, gan gynnwys cyfweiliadau a sesiynau panel, gyda'r nod o greu manau lle mae rhanddeiliaid yn teimlo'n gyfforddus i ymgysylltu a rhannu eu barn, eu hymchwil a'u profiadau. Mae'r dull hwn wedi cynnwys ymgysylltu ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru, sefydliadau anllywodraethol, academyddion, llywodraeth leol, adrannau perthnasol llywodraeth y DU a llywodraeth ddatganoledig ac undebau llafur.

Roedd y dull a ddilynwyd gennym ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys tri cham:

- cwmpasu
- modelu
- asesiad

Cynlluniwyd pob cam i fwydo i'r nesaf, gyda chanfyddiadau'r cam cwmpasu yn llywio sut oeddem yn cynnal modelu, a'r modelau ailadroddus a ddaeth i'r amlwg yn llywio'r asesiad. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at yr adroddiad terfynol hwn.

Cwmpasu

Dechreuodd y prosiect gyda cham cwmpasu, gan gasglu tystiolaeth o ymchwil sylfaenol ac eilaidd ar y manteision, y costau a'r risgiau disgwylidig sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys nodi'r cyd-fanteision ar draws ystod o fodelau, gan gynnwys rhagamcanion economaidd, cymdeithasol ac ansoddol o effaith gymdeithasol a chyd-fanteision ehangach o strategaethau adfer ac adfywio natur.

Dechreuodd y prosiect gydag adolygiad desg o waith Llywodraeth Cymru hyd yma, gan gynnwys:

- Papur Gwyn egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth
- yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol (RIA)

- adroddiad blynyddol (2023-2024) Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru (2019)
- yr adroddiad gan y Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol (2020), ochr yn ochr ag unrhyw ddogfennau perthnasol eraill

Yna cynhaliodd y tîm prosiect adolygiad llenyddiaeth cyflym ar y manteision, y costau a'r risgiau disgwyledig o ddeddfwriaeth amgylcheddol, a oedd yn cynnwys:

- yr egwyddorion a gwahanol ffyrdd o'u rhoi ar waith
- gwahanol gyrff llywodraethu amgylcheddol
- ymateb technegol i Lywodraeth Cymru

Nododd yr adolygiad llenyddiaeth ddetholiad o enghreifftiau arfer gorau gan ddefnyddio gwyredd cadarnhaol; dull sy'n canolbwyntio ar enghreifftiau o lwyddiant ac yn ceisio dysgu oddi wrthynt. Mae'r arferion byd-eang hyn wedi'u hehangu yn yr adroddiad, i lywio dulliau posibl y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd.

Gweithiodd y tîm prosiect gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu sgript cyfweiliad manwl a nodi rhanddeiliaid i'w cyfweld. Yna cynhaliodd gyfres o gyfweiliadau a gasglodd ystod o ddata, adborth a dadansoddiad ar ganlyniadau disgwyledig, ac ar fanteision y ddeddfwriaeth arfaethedig. Lle bo'n berthnasol, holodd y cyfweiliadau hefyd am yr egwyddorion allweddol y dylai'r ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg eu hymgorffori ac y gellid eu hasesu yn eu herbyn.

Wedi hynny, fe wnaethom gynnull panel tystiolaeth o leisiau arbenigol a rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru a'r DU ehangach, gydag arbenigedd mewn effaith amgylcheddol, adfer natur, cymdeithasol, iechyd, economaidd a seiliedig ar le. Cydnabu'r panel ffocws y gwahoddiad i dendro ar asesu manteision cymdeithasol, yn ogystal â thargedau bioamrywiaeth ac amgylcheddol. Adolygodd aelodau'r panel y dystiolaeth a gasglwyd, cefnogodd y tîm prosiect gyda ble i gasglu tystiolaeth bellach, cynghori ar osod targedau, ac asesu ar y cyd y canlyniadau a'r manteision disgwyledig o'r ddeddfwriaeth bioamrywiaeth arfaethedig.

Roedd y paneli yn hanfodol wrth alluogi tîm y prosiect i benderfynu ar enghreifftiau arfer gorau, a chynnal archwiliadau dwfn arnynt, a nodwyd drwy ymchwil desg a/neu drwy gyfweiliadau â'r prif hysbyswyr. Fe wnaethant hefyd gynnig amser ychwanegol ar wahan i'r panel i ni i helpu'r tîm i ddylunio a chyflwyno'r enghreifftiau ac ymateb i fylchau yn yr adolygiad tystiolaeth.

Modelu

Y cam nesaf oedd modelu effaith y Bil, drwy adeiladu ar y dulliau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cam cwmpasu.

Mae'r modelu'n amcangyfrif costau'r ddeddfwriaeth dros gyfnod o 10 mlynedd, gan ddechrau yn 2025 a dod i ben yn 2034. Roedd y costau a gyfrifwyd yn canolbwyntio ar sefydlu a gweithredu'r strwythurau a grëwyd gan y ddeddfwriaeth.

Mae modelu'r manteision yn ddarluniadol i raddau helaeth. Mae hyn oherwydd y nifer fawr o ffactorau anhysbys ynghylch y gweithgaredd y byddai'r ddeddfwriaeth yn arwain ato, a graddfa'r manteision y gellir eu gwireddu.

Mae rhagdybiaethau o fewn y modelu wedi'u nodi ar gyfer pob un o dair rhan y ddeddfwriaeth, gyda manteision wedi'u nodi mewn adran ar wahân yn y casgliad.

Y modelau a gynhwyswyd gennym ar gyfer asesu yn y broses hon oedd:

1) Egwyddorion amgylcheddol

1A) Busnes fel arfer (gwaelodlin)

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cyflwyno i lyfr statud Cymru, sy'n cynrychioli'r llinell sylfaen ar gyfer cymharu.

1B) Egwyddorion yn unig (heb ddyletswydd ar Weinidogion Cymru na chyrrff cyhoeddus)

Mae'r opsiwn hwn yn gweld ailgyflwyno egwyddorion amgylcheddol i lyfr statudau Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n rhagweld unrhyw ddyletswydd ar Weinidogion Cymru na chyrrff cyhoeddus i roi "sylw dyledus" i'r egwyddorion.

1C) Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion

Mae'r opsiwn hwn yn gweld ailgyflwyno egwyddorion amgylcheddol i lyfr statud Cymru, gan osod dyletswydd ar weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) i bolisïau a deddfwriaeth.

1D) Dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus Cymru

Mae'r opsiwn hwn yn ehangu ar opsiwn 1c (dyletswydd ar weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion), gan ymestyn y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r egwyddorion a'r canllawiau cysylltiedig i awdurdodau cyhoeddus perthnasol.

Mae'r opsiwn hwn yn ystyried tri senario lle rhoddir sylw dyledus i'r egwyddorion amgylcheddol: i) dim ond wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth, ii) wrth weithredu fel awdurdod cyfrifol a chynnal asesiadau amgylcheddol, neu iii) wrth weithredu fel awdurdod cymwys yn ystod Asesiadau Effaith Amgylcheddol a phenderfyniadau dilynol.

2) Llywodraethu amgylcheddol

2A) Busnes fel arfer (gwaelodlin)

Mae'r opsiwn hwn yn ystyried cyflwr presennol llywodraethu amgylcheddol o dan yr Asesydd Diogelu Amgylcheddol Dros Dro ar gyfer Cymru (IEPAW).

2B) Darparu swyddogaethau i gyrff presennol

Mae'r opsiwn hwn yn ystyried y potensial a/neu'r cyfyngiadau o ymestyn pwerau cyrff presennol i chwarae rhan mewn Llywodraethu Amgylcheddol.

2C) Sefydlu corff Llywodraethu Amgylcheddol pwrpasol.

Mae'r opsiwn hwn yn rhagweld ffurfio corff Llywodraethu Amgylcheddol pwrpasol, o dan ystod o fodelau, a chyda gwahanol swyddogaethau a phwerau.

2D) Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ymestyn swyddogaethau'r OEP i Gymru

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) a'r mecanwaith adolygu amgylcheddol i Gymru.

3) Fframwaith bioamrywiaeth

3A) Busnes fel arfer (gwaelodlin)

Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y dull presennol o warchod ac adfer bioamrywiaeth. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus gynnal Nodau Rheoli Adnoddau Naturiol Cynaliadwy (SMNR) anstatudol, a'r dyletswyddau a nodir yn Adrannau 6 a 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Darperir yr opsiwn hwn fel llinell sylfaen ar gyfer cymharu, heb unrhyw gamau ychwanegol i amddiffyn ac adfer bioamrywiaeth y tu hwnt i ail darged y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i adfer 30% o'r holl ecosystemau sydd wedi diraddio erbyn 2030.

3B) Mesurau an-ddeddfwriaethol, gan gynnwys diweddarau'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur presennol

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ymgorffori Strategaeth Adfer Natur Cymru yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) ochr yn ochr â chydannau eraill o'r NNRP presennol.

3C) Sefydlu fframwaith targedau bioamrywiaeth statudol

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys sefydlu fframwaith targedau statudol a allai olygu:

- Pŵer newydd i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth mewn rheoliadau, ar yr amod eu bod yn fodlon y byddai cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn benodol drwy gynyddu nifer y rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau, neu gynyddu amrywiaeth genetig.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth, ac i gyflwyno drafft o'r rheoliadau targed hynny gerbron y Senedd o fewn tair blynedd i Gydsyniad Brenhinol.
- Gwella swyddogaethau cynllunio ac adrodd Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd, i gynnwys y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni targedau bioamrywiaeth, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau (gan gynnwys gosod dangosyddion), yn ogystal ag adroddiad gwerthuso newydd sy'n asesu effaith ac effeithiolrwydd y polisiau a'r camau gweithredu hynny.
- Pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ddynodi awdurdodau cyhoeddus, gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny gymryd camau i gyfrannu at y targed bioamrywiaeth y maent wedi'u dynodi ar ei gyfer.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi.

Roedd yr asesiad o'r opsiynau yn cynnwys disgrifiad o'r modelau posibl neu bresennol, gan gynnwys strwythur, pwerau a chyfyngiadau pob model, yn ogystal â'r costau a'r manteision disgwylidig, y rhai y gellid rhoi gwerth ariannol arnynt a'r rhai na ellid eu mesur.

Yn ogystal, mae'r gwaith hwn yn llunio'r costau, yr heriau a'r risgiau disgwylidig sy'n gysylltiedig â phob un o'r modelau, gyda chyfeiriad clir at dystiolaeth ategol, gan arwain at un ar ddeg o fodelau ailadroddus a ddefnyddir ar gyfer meintioli, moneteiddio ac asesu yn y cam nesaf.

Asesiad

Canolbwyntiodd y cam olaf ar fesur a moneteiddio'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob un o'r un ar ddeg o fodelau opsiwn a nodir uchod.

Dechreuodd y broses hon drwy nodi costau a manteision o dan bob opsiwn. Roedd hyn yn cynnwys disgrifiad o ble y gallai costau disgwylidig godi, yn enwedig yn achos modelau llywodraethu (e.e. staff, hyfforddiant a newid sefydliadol). Rydym hefyd wedi cynnwys esboniadau o'r llwybrau y mae manteision yn codi drwyddynt, boed yn gymdeithasol (e.e. lles uwch o amgylchedd glanach), yn amgylcheddol (e.e. gostyngiad mewn allyriadau carbon) neu'n economaidd (e.e. gwella economi sero net).

Yna cynhaliodd y tîm prosiect fesuriad o gostau a manteision o dan bob opsiwn. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o raddfa'r costau a'r manteision sy'n debygol o godi, ac mae'n cynnwys manylion dulliau mesur lle bo'n berthnasol.

Yng ngham nesaf yr asesiad, fe wnaeth y tîm foneteiddio'r costau a'r manteision o dan bob opsiwn. Roedd hyn yn cynnwys priodoli gwerth ariannol i bob cost a budd, gan ddefnyddio methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi (HMT)³ fel rhan allweddol o'r modelu, bodloni gofynion y tendr o ran prisiau cyson o fewn blwyddyn sylfaen benodol a chyfrifo gwerth presennol net costau a manteision pob model.

Yng ngham olaf yr asesiad, tynnwyd sylw at y costau a'r manteision na ellir eu mesur a'r rhai na ellir eu hariannu, gan arddangos rhestr o ganlyniadau sy'n deillio o bob model na ellir eu mesur yn gredadwy ac na ellir eu cysylltu â gwerth ariannol. Mae disgrifiad ansoddol o'r effaith debygol a'r raddfa ddisgwylidig yn cyd-fynd â'r costau a'r manteision na ellir eu mesur. Daw canlyniad pob asesiad ynghyd o dan un cyflwyniad o'r canlyniadau dadansoddol.

Costau a manteision y ddeddfwriaeth

³ Trysorlys Ei Fawrhydi, *The Green Book* (2024): <https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government/the-green-book-2020>

Mae gan gynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru amcan clir o sicrhau manteision amgylcheddol i'r economi a chymdeithas. Mae costau'n cael eu hysgwyo i sicrhau'r manteision hyn. Mae'r dadansoddiad cost-budd (CBA) yn nodi:

- disgrifiad o'r costau y bydd y ddeddfwriaeth yn eu hachosi
- cyfrifiadau o'r costau y mae'n bosibl eu mesur
- disgrifiad o'r manteision y gallai'r ddeddfwriaeth eu creu
- darlun o sut y gallai'r ddeddfwriaeth gyfrannu at fuddion yn y dyfodol, fel rhan o raglen ehangach o ymyrraeth amgylcheddol
- y berthynas rhwng costau a manteision

Asesodd Papur Gwyn 2024 ar y ddeddfwriaeth gostau a manteision hefyd⁴, ac mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma yn adeiladu ar y canfyddiadau a wnaed yn yr adroddiad hwnnw gyda'r ymchwil canlynol:

- canfyddiadau o gyfweiliadau â rhanddeiliaid
- ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, a chyrrff cyhoeddus eraill, i ddeall yr effeithiau deddfwriaethol
- ymchwil desg
- ymarfer i fesur costau a manteision

Yn debyg i'r adeg y cynhaliwyd y math hwn o ddadansoddiad ar gyfer Deddf Amgylchedd Lloegr, mae cymhlethdodau o ran deall yn union sut mae manteision yn gysylltiedig â chostau.

Lle nad oedd modd mesur costau neu fanteision y ddeddfwriaeth, aseswyd y tebygolrwydd y cânt eu cyflawni drwy'r Bil gan ddefnyddio astudiaethau achos wedi'u cyhoeddi, gwerthusiadau ac adroddiadau ar gyflwyno deddfwriaeth.

Mae'r broses hon wedi bod yn destun safonau Llyfr Gwyrdd HMT ar gyfer gwerthuso tystiolaeth, a rhoddwyd ystyriaeth briodol i ddichonoldeb y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

⁴ Llywodraeth Cymru, *Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn* (2024)

III. Adolygiad o lenyddiaeth a deddfwriaeth berthnasol

Mae'r adran hon yn cyflwyno canlyniadau Cam 1: Cwmpasu, lle cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth gyda ffocws ar dri maes thematig:

1. trosolwg o bolisiau cyfredol Cymru a dadansoddiad o fylchau
2. tystiolaeth o fanteision, costau a risgiau disgwylidig deddfwriaeth amgylcheddol
3. enghreifftiau astudiaethau achos cenedlaethol a rhyngwladol o ddeddfwriaeth debyg neu gymaradwy

Defnyddiodd yr adolygiad beiriannau chwilio safonol i nodi ffynonellau perthnasol yn ymwneud â deddfwriaeth, a Google Scholar i nodi ffynonellau academiaidd yn ymwneud â'r tri maes thematig uchod. Yna cafodd y dogfennau a'r ffynonellau canlyniadol eu cyfiosod a'u dadansoddi, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn yr adran ganlynol. Ar gyfer yr adolygiad o bolisiau Cymru, cyhoeddiadau oedd ffynonellau o'r Gwahoddiad i Dendro (ITT), gydag ymchwil ategol ar ddeddfwriaeth Cymru a oedd yn tynnu'n bennaf ar wefan Llywodraeth Cymru. Llywiodd dadansoddiad o'r polisiau hyn ddatblygiad yr opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Tynnodd y broses o nodi manteision, costau a risgiau disgwylidig deddfwriaeth amgylcheddol ar lenyddiaeth academiaidd a llwyd, gan lywio cydrannau dadansoddi cost yr adroddiad. Yn olaf, defnyddiodd yr adolygiad o enghreifftiau astudiaethau achos cenedlaethol a rhyngwladol ddull gwriad cadarnhaol i nodi enghreifftiau o arfer gorau gyda chyd-destunau neu gynnwys tebyg i'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Canfu'r ymchwil hwn, er bod amrywiaeth eang o ysgolheictod ar fanteision deddfwriaeth amgylcheddol, fod yr ymchwil yn aml yn seiliedig ar le yn hytrach nag edrych ar ddeddfwriaeth amgylcheddol genedlaethol yn ehangach. Ar ben hynny, wrth chwilio am fanteision cyfreithiau a deddfwriaeth amgylcheddol, roedd llawer o'r llenyddiaeth yn cymryd safbwynt dadansoddi cost-budd economaidd. O'r herwydd, mae'r canfyddiadau ar gyfer manteision anfesuradwy deddfwriaeth amgylcheddol wedi'u cyfyngu i astudiaethau achos neu leoliadau penodol.

Mae tystiolaeth bod gwledydd ledled y byd wedi nodi'r angen am ddeddfwriaeth amgylcheddol ac wedi cymryd camau tuag at weithredu ar yr angen hwn. Yn dilyn COP10, mae 184 o wledydd wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu

bioamrywiaeth genedlaethol⁵. Eu nod yw mabwysiadu neu ddefnyddio'r offeryn polisi hwn i weithredu strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth genedlaethol effeithiol, cyfranogol a chyfoes. Fodd bynnag, wrth lunio'r adolygiad llenyddiaeth hwn, gwelsom nad oedd llawer o fanylion ynglŷn â'r strategaethau hyn, ac nid ydynt wedi'u cymharu, eu cyferbynnu na'u gwerthuso, gan ein gadael â deunyddiau dadansoddadwy cyfyngedig.

Adolygiad o fylchau mewn polisïau presennol yng Nghymru

Mae Cymru wedi pasio polisïau a deddfwriaeth flaenorol sy'n ymdrin â diogelu'r amgylchedd. Crynhoir nifer o'r polisïau hyn isod ac maent yn ymdrin â newid rheoli gwastraff, cynyddu'r ffocws ar les cenedlaethau'r dyfodol, a gwella ansawdd aer.

Roedd Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn canolbwyntio ar leihau swm y gwastraff a'r sbwriel yng Nghymru, ac yn cyfrannu at ddulliau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy. Ers ei basio, mae sawl darn is-ddeddfwriaeth wedi'u creu o dan y mesur. Daeth cyfraith ailgylchu newydd i rym ym mis Ebrill 2024 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithleoedd wahanu eitemau ailgylchadwy, yn yr un modd ag y mae aelwydydd yn ei wneud. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gorfodi'r gyfraith newydd a gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwy⁶.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddiben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol o saith nod lles sy'n berthnasol i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Ffocws y Ddeddf yw annog cyrff cyhoeddus i ystyried effeithiau hirdymor eu gwaith. Er mwyn asesu'r cynnydd tuag at y nodau lles, mae rhestr hir o ddangosyddion mesuradwy wedi'u cynnwys. Mae nifer o'r dangosyddion hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â materion amgylcheddol: ynni adnewyddadwy, priddoedd iach, gwastraff nad yw'n cael ei ailgylchu, ansawdd aer, ac effeithlonrwydd ynni cartrefi⁷.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod fframwaith i sicrhau bod rheoli adnoddau'n gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau⁸. Mae'r

⁵ Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Post-COP10 NBSAPs: <https://www.cbd.int/nbsap/about/latest>

⁶ Llywodraeth Cymru, *Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle: canllawiau ar gyfer gweithleoedd* (2023) <https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-ailgylchu-yn-y-gweithle-canllawiau-ar-gyfer-gweithleoedd>.

⁷ Llywodraeth Cymru, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion* (2015): <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/1/2/1736242852/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf>

⁸ Llywodraeth Cymru, *Taflen Ffeithiau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* (2016): <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-trosolwg.pdf>

Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac yn mynd i'r afael â sawl mater arall megis trwyddedu morol, gwastraff, taliadau am fagiau siopa, bioamrywiaeth, a newid hinsawdd.

Cyflwynwyd Cynllun Aer Glân Cymru yn 2020 ac ers hynny mae wedi cael ei adolygu o ran cynnydd ac effeithiolrwydd y polisi⁹. Gall y broses o adolygu ac asesu'r cynnydd yn glir mewn ffordd mor gynhwysfawr wasanaethu fel fframwaith ar gyfer adolygu polisiau eraill yn dryloyw, a gall gynyddu atebolrwydd i bolisiau a basiwyd.

Adlewyrchwyd y bylchau yn y dystiolaeth ynghylch bioamrywiaeth yn y Gwahoddiad i Dendro a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith hwn, a gyfeiriodd at dri adolygiad y dylem eu hystyried fel man cychwyn wrth asesu'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol:

- Adroddiad Tystiolaeth Cadarnhaol o ran Natur 2030 ar gyfer Cymru¹⁰
- Adolygiad Cyswllt Amgylchedd Cymru o botensial adfer natur (2021)¹¹
- Adolygiad Cymdeithas Ecologol Prydain (2022) o Ardaloedd Gwarchodedig ac Adfer Natur¹²

Mae bylchau yn argaeledd ymchwil a gwybodaeth am bolisiau bioamrywiaeth yn effeithio ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, yn ogystal ag ar alluoedd llunwyr polisi i ddefnyddio data cyfredol i wneud penderfyniadau. Drwy adolygu'r adroddiadau a restrir uchod, rydym wedi crynhoi'r bylchau allweddol y cyfeirir atynt ym mhob dogfen. Rhaid ystyried y bylchau hyn yn ystod unrhyw broses gwneud penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â sut y gellid cau'r bylchau hyn i alluogi gwell gwneud penderfyniadau.

⁹ Llywodraeth Cymru, *Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach* (2020):

<https://www.llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach>

¹⁰ Joint Nature Conservation Committee, *Nature Positive 2030 Evidence Report* (2022):

<https://data.jncc.gov.uk/data/6de7bf27-055e-4407-ad29-4814e1613d90/nature-positive-2030-evidence-report.pdf>

¹¹ Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru* (2020):

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cynllun-gweithredu-adfer-natur-cymru-2020-2021.pdf>

¹² British Ecological Society, *Protected Areas and Nature Recovery* (2022):

https://www.britishecologicalsociety.org/wp-content/uploads/2022/04/BES_Protected_Areas_Report.pdf

Bylchau a nodwyd

Rhoi Cymru ar lwybr i adfer natur	Ardaloedd gwarchodedig ac adferiad natur	Natur Bositif 2030
- Diffyg amlinelliad o'r bensaernïaeth sydd ei hangen i atal ac yna gwrthdroi colli bioamrywiaeth a'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r amcan hwn - Creu fframwaith/proses/fformiwla, sy'n defnyddio data cyfredol i greu targedau bioamrywiaeth	- Dadansoddiad o'r ffordd orau o ddefnyddio, cefnogi a gwella ardaloedd gwarchodedig presennol wrth gyrraedd y targed 30x30 - Dadansoddiad o ba fetrigau bioamrywiaeth y gellir eu gweithredu i sicrhau y gellir gosod ac asesu targedau cadwraeth - Diffyg gwybodaeth am gyflwr yr ardaloedd gwarchodedig a dim cynllun ar gyfer asesu cyson ar draws safleoedd - Ychydig o astudiaethau empirig yn canolbwyntio ar ardaloedd gwarchodedig trwy lens y cymunedau sydd ag effaith uniongyrchol ar yr ardaloedd	- Gwybodaeth am amgylcheddau morol - Gwybodaeth am rywogaethau llai carismatig (e.e. ffyngau) - Data ar ansawdd cynefinoedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig

I gloi, mae'n hanfodol cydnabod bod y canfyddiadau uchod yn yr adroddiadau hyn yn debygol o adlewyrchu rhai o'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bioamrywiaeth yn unig. Adlewyrchir hyn mewn gwaith arall sydd ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n anelu at lenwi'r bylchau hyn. Un enghraifft o'r ymchwil hwn yw'r Tasglu Adfer Natur sydd wedi'i gynnwys yn Adolygiad Bwlch ACCESS 2024. Yn ddiweddar, mae'r tasglu wedi dewis astudiaethau achos o ddatblygiadau polisi perthnasol, y byddant yn eu hadolygu i sefydlu i ba raddau y cawsant eu llywio gan wyddoniaeth gymdeithasol, ac a ellir nodi bylchau a chyfleoedd heb eu gwireddu ar gyfer mwy o fewnbynnau gwyddor gymdeithasol.

Manteision, costau a risgiau disgwyliedig deddfwriaeth amgylcheddol

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn caniatáu inni gymhwyso'r canfyddiadau i lywio'r Bil Amgylcheddol arfaethedig, gan gynyddu ei allu i ddarparu manteision ehangach i'r amgylchedd, cymdeithas, yr economi a lles dynol. Mae manylion am bolisi bioamrywiaeth ar waith wedi'u rhestru yn adran 3 o'r adolygiad hwn, fodd bynnag mae llawer o'r ddeddfwriaeth hon yn newydd ac felly heb ei gwerthuso na hyd yn oed ei gweithredu eto. Yn ogystal, mae'r mecanweithiau ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar y manteision, y costau a'r risgiau sy'n ymwneud â deddfwriaeth amgylcheddol benodol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd - gyda mynediad cyfyngedig at wybodaeth gredadwy.

Enghraifft o'r her uchod yw egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', sef "arfer cyffredin y dylai'r rhai sy'n cynhyrchu llygredd ysgwyddo costau ei reoli er mwyn atal niwed i ieuchyd pobl neu'r amgylchedd"¹³. Mae'n rhan o set o egwyddorion yn Natganiad RIO 1992¹⁴, a gynlluniwyd i arwain datblygu cynaliadwy ledled y byd. Canfu ein canfyddiadau ar egwyddor y llygrwr sy'n talu (PPP) ei bod yn cael ei derbyn yn eang fel cysyniad, yn enwedig yn yr UE. Fodd bynnag, mae ymdrechion i'w weithredu yn dameidiog ac yn gul o ran cwmipas, gyda'i ddefnydd mewn cyfraith amgylcheddol gyfoes yn dangos "ansicrwydd ac amwysedd sylweddol"¹⁵. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond diwydiant penodol sy'n cael ei dargedu. Yn nhermau ehangach, gallai hyn fod oherwydd nad yw darnau o ddeddfwriaeth mewn gwledydd eraill sy'n dilyn targedau

¹³ Y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, *How to Enforce the Polluter-Pays Principle* (2022): <https://www.iisd.org/articles/polluter-pays-principle>

¹⁴ Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, *Report of the United Nations conference on environment and development* (1992): https://www.un.org/en/development/desa/population/migration/generalassembly/docs/globalcomp/act/A_CONF.151_26_Vol.I_Declaration.pdf

¹⁵ Fitzmaurice, Malgosia. *International Environmental Law*. (2013): https://www.researchgate.net/publication/270786485_International_Environmental_Law_By_ULRICH_BEYERLIN_and_THILO_MARAUHN

bioamrywiaeth wedi'u cysylltu'n benodol, neu nad yw strategaethau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynhyrchu.

Mae dangosyddion bioamrywiaeth yn cynnwys data sy'n darparu "ffynhonnell hanfodol o dystiolaeth ar gyfer adrodd ar newid bioamrywiaeth ac effaith polisiau a champau gweithredu i warchod bioamrywiaeth"¹⁶. Mae hyn yn gwneud dangosyddion yn hanfodol, os yw Llywodraeth Cymru am olrhain cynnydd yn erbyn eu hymrwymadau polisi bioamrywiaeth. Canfu'r adolygiad llenyddiaeth fod diffyg dangosyddion clir mewn deddfwriaeth bioamrywiaeth benodol i fesur y targedau a osodwyd ganddynt. Yn aml, arweiniodd chwilio am ddangosyddion bioamrywiaeth at y Confensiwn Rhyngwladol ar Amrywiaeth Fiolegol¹⁷ yn hytrach na'r dangosyddion penodol a ddefnyddir gan wledydd i gyflawni'r targedau hyn. Ar ben hynny, mae cyrff anllywodraethol fel WWF wedi datblygu eu rhai eu hunain¹⁸. Er bod y rhain yn bwysig, nid ydynt o reidrwydd yn dylanwadu ar sut mae gwledydd eu hunain yn mesur ac yn cyflawni eu targedau bioamrywiaeth.

Dylid gweithredu camau i gyrraedd y targedau hyn yn gyson ac mewn cytgord â'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'i Brotoolau¹⁹, a rhwymedigaethau rhyngwladol perthnasol eraill, gan ystyried amgylchiadau cenedlaethol, blaenoriaethau ac amodau economaidd-gymdeithasol hefyd.

Manteision

Wrth archwilio manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a lles na ellir eu mesur o ddeddfwriaeth amgylcheddol, canfuwyd naw budd allweddol.

1. Mae manteision cymdeithasol di-rif yn cael eu cynhyrchu o ddiogelu'r amgylchedd, gan fod pob poblogaeth a chymdeithas ddynol yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n gwbl ddibynnol ar yr amgylchedd²⁰ o safbwyntiau damcaniaethol ac empirig.

¹⁶ Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, *UK Biodiversity Indicators* (2024): <https://jncc.gov.uk/our-work/uk-biodiversity-indicators-2024/>

¹⁷ Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, <https://www.cbd.int/>

¹⁸ Cronfa Fyd-eang ar gyfer Natur, *Biodiversity risk filter*, (2023): <https://riskfilter.org/biodiversity/home>

¹⁹ Y Cenhedloedd Unedig, *Convention on Biological Diversity and its protocols*: <https://www.un.org/ldcportal/content/convention-biological-diversity-and-its-protocols>

²⁰ Klaar, M. J., Carver, S. a Kay, P. *Land management in a post-Brexit UK: An opportunity for integrated catchment management to deliver multiple benefits?* (2020): <https://eprints.whiterose.ac.uk/163543/>

2. Mae gan amgylcheddau naturiol effaith gadarnhaol ar les dynol. Cefnogir hyn gan astudiaethau achos empirig o Loegr, yr Alban a'r UE²¹ yn ogystal ag archwiliadau damcaniaethol i gyfiawnder amgylcheddol²².
3. Canfyddir bod cynlluniau rheoli amgylcheddol ar raddfa fawr yn cael canlyniadau cadarnhaol ehangach i'r amgylchedd, megis polisiau eco-amaethyddol sy'n cael eu gweithredu dros ardaloedd mawr o dir, yn hytrach nag ar sail fferm wrth fferm²³. Mae manteision amgylcheddol yn lliniaru mathau o niwed amgylcheddol megis ansawdd aer, llifogydd a thonnau gwres^{Error! Bookmark not defined.}.
4. Po fwyaf o fynediad sydd gan bobl i'r amgylchedd, y mwyaf tebygol yw y bydd ganddynt agweddau sy'n cefnogi'r amgylchedd^{Error! Bookmark not defined.}. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i wella derbyniad cymdeithasol deddfwriaeth amgylcheddol. Felly, mae cael mynediad cyfartal i'r amgylchedd, fel y trafodwyd yn y llenyddiaeth cyfiawnder amgylcheddol^{Error! Bookmark not defined.} yn bwysig.
5. Canfuwyd bod gan fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol werth cymdeithasol cryf oherwydd eu cysylltiad â hunaniaethau diwylliannol a chymdeithasol, ymhlith pethau eraill. Gwelwyd hyn ar raddfa fyd-eang²⁴ yn ogystal â graddfeydd cenedlaethol²⁵ a lleol²⁶.
6. Canfuwyd bod yr amgylchedd (yn benodol mewn astudiaeth achos o goetiroedd Prydain) yn ffynhonnell dysgu ac addysg²⁷ ac mae ganddo hefyd oblygiadau cadarnhaol ar gyfer lles dynol.

²¹ DeVille, N. V. et al. *Time Spent in Nature Is Associated with Increased Pro-Environmental Attitudes and Behaviors* (2021): doi:10.3390/ijerph18147498.

²² Walker, G. *Environmental Justice: Concepts, evidence and politics* (2012)

²³ McKenzie, A. J. et al. *Landscape-scale conservation: collaborative agri-environment schemes could benefit both biodiversity and ecosystem services, but will farmers be willing to participate?* (2013): doi:10.1111/1365-2664.12122.

²⁴ Marden, E. et al. *Sharing and reporting benefits from biodiversity research* (2021): doi:10.1111/mec.15702.

²⁵ O'Brien, L. et al. *Cultural ecosystem benefits of urban and peri-urban green infrastructure across different European countries* (2017): doi:10.1016/j.ufug.2017.03.002.

²⁶ Pedersen, E., Weisner, S. E. B. a Johansson, M. *Wetland areas' direct contributions to residents' well-being entitle them to high cultural ecosystem values.* (2019): doi:10.1016/j.scitotenv.2018.07.236.

²⁷ O'Brien, L. a Morris, J. *Well-being for all? The social distribution of benefits gained from woodlands and forests in Britain.* (2011): Y Cyfnodolyn Rhyngwladol Cyfiawnder a Chynaliadwydd, 19 (4), tt.356–383.

7. Dadleuir bod gwella bioamrywiaeth yn cael effaith gadarnhaol ehangach ar gyflawni nodau newid hinsawdd ar raddfa fyd-eang²⁸ a chenedlaethol²⁹. Cyfeiriwyd yn benodol at allu ecosystemau coedwigoedd i fod yn sinciau carbon. Cydnabuwyd hefyd allu bioamrywiaeth i wella lles dynol³⁰.
8. Mae manteision economaidd i ddeddfwriaeth amgylcheddol, yn enwedig os dilynir atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae'r manteision economaidd hyn yn cyfeirio at gostau iechyd is pe bai gan bobl fynediad rheolaidd at fannau gwyrdd yn ogystal â manteision economaidd gwella gwydnwch i newid hinsawdd trwy ddeddfwriaeth amgylcheddol³¹.
9. Nid yw rheoliadau amgylcheddol o reidrwydd yn arwain at berfformiad economaidd busnes gwael³². Ar ben hynny, mae deddfwriaeth amgylcheddol wedi gwella gwydnwch rhai diwydiannau i newid hinsawdd³³.

Risgiau

Mae risgiau hollbwysig y mae'n rhaid i ddeddfwriaeth amgylcheddol eu hystyried, os yw am gyflawni'r manteision cymdeithasol, lles ac economaidd. Mae angen cydnabod y mater o fynediad anghyfartal at adnoddau naturiol, gan gynnwys mannau gwyrdd a glas, fel problem systemig a mynd i'r afael â hi. Fel arall, mae risg o waethygu anghydraddoldebau cymdeithasol presennol trwy ddosbarthu manteision mynediad at natur yn anghyfartal.

Mae cyfle i gyfuno manteision cymdeithasol ac amgylcheddol, gan wneud y mwyaf o fanteision canfyddedig deddfwriaeth amgylcheddol a lleihau cyfaddawdau unigol. Dylai hyn ddigwydd ynghyd â "rhwydi diogelwch" cymdeithasol wedi'u hintegreiddio o fewn deddfwriaeth amgylcheddol, gan sicrhau nad yw mynd ar drywydd nodau amgylcheddol yn effeithio'n negyddol ar unigolion a chymunedau mewn ffyrdd eraill. Mae hyn yn cyfrannu at ganfyddiadau cadarnhaol o bolisi amgylcheddol. Mae hyn yn

²⁸ Díaz, S., Hector, A. a Wardle, D. A. *Biodiversity in forest carbon sequestration initiatives: not just a side benefit*. (2009): doi:10.1016/j.cosust.2009.08.001.

²⁹ Austin, Z. et al. *The co-benefits of biodiversity conservation programmes on wider ecosystem services*. (2016): doi:10.1016/j.ecoser.2016.06.002.

³⁰ Marden, E. et al. *Sharing and reporting benefits from biodiversity research*. (2021): Ar gael yn: doi:10.1111/mec.15702.

³¹ Brotherton, P. et al. *Nature Positive 2030 – Evidence Report*. (2021)

³² OECD. *Assessing the social and economic impacts of environmental policies* (2022)

³³ Howe, C. et al. *Creating win-wins from trade-offs? Ecosystem services for human well-being: A meta-analysis of ecosystem service trade-offs and synergies in the real world*. (2014): doi:10.1016/j.gloenvcha.2014.07.005.

awgrymu cyfle mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth amgylcheddol a'i manteision trwy ymdrechion cydlynol.

Yn ogystal, er mwyn bod yn effeithiol, mae angen cefnogaeth wleidyddol lawn ar reoliadau amgylcheddol fel bod gan asiantaethau rheoleiddio'r adnoddau ariannol a dynol i fonitro a gorfodi safonau'n briodol, a fydd yn cael ei archwilio yn adran 3.

Enghreifftiau o egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth

(1) Egwyddorion amgylcheddol

Gwnaethom adolygiad cyflym o'r defnydd diamwys a dealledig o egwyddorion amgylcheddol mewn deddfwriaeth ledled y byd. Yn ystod ein dadansoddiad, daeth yn amlwg bod rhai themâu, dulliau ac arferion gorau cyson yr oedd cenhedloedd yn eu mabwysiadu, gyda cenhedloedd yn tueddu i adeiladu ar ddeddf bioamrywiaeth Costa Rica ym 1998³⁴, a rannodd eu strategaeth yn dri maes:

- cadwraeth bioamrywiaeth
- defnydd cynaliadwy o adnoddau
- rhannu manteision sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau genetig yn deg ac yn gyfartal

Mae egwyddorion amgylcheddol yr UE hefyd yn cael eu mabwysiadu'n eang, yn ddealliedig ac yn ddiamwys. Dyma nhw:

- rhagofal
- ataliad
- cywiro wrth y ffynhonnell
- y llygrwr sy'n talu

³⁴Future Policy, *Costa Rica's Biodiversity Law* (2024): <https://www.futurepolicy.org/healthy-ecosystems/biodiversity-and-soil/costa-ricas-biodiversity-law/#:~:text=Costa%20Rica's%20Biodiversity%20Law%20of,the%20utilisation%20of%20genetic%20re sources>.

Mae Beder (2013)³⁵ yn nodi chwe egwyddor allweddol fel y rhai mwyaf cyffredin: cynaliadwyedd ecolegol, egwyddor y 'llygrwr sy'n talu', egwyddor rhagofal, ecwiti, hawliau dynol, a chyfranogiad y cyhoedd. O'r rhain, mae tair yn benodol i faterion amgylcheddol – cynaliadwyedd ecolegol, egwyddor y llygrwr sy'n talu ac egwyddor rhagofal – ac mae gan dair gymhwysiad cymdeithasol ehangach – ecwiti, hawliau dynol a chyfranogiad y cyhoedd. Eglurir yr egwyddorion yn fanylach isod, ochr yn ochr ag enghreifftiau o ddeddfwriaeth o bob cwr o'r byd sy'n cynnwys eu cymhwysiad:

- Mae cynaliadwyedd ecolegol yn pwysleisio'r angen am gydbwysedd ecolegol hirdymor drwy reoli adnoddau naturiol yn ofalus. Mae'n dadlau dros integreiddio ystyriaethau ecolegol ac economaidd i sicrhau nad yw gweithgareddau dynol yn difetha'r amgylchedd mewn ffordd sy'n bygwth gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- Cyflwynwyd 'y llygrwr sy'n talu' yn y 1970au oherwydd pryderon y gallai deddfau rheoli llygredd roi diwydiannau rhai gwledydd dan anfantais. Ymgorfforwyd y cytundeb rhyngwladol cyntaf ar egwyddor y llygrwr sy'n talu mewn argymhelliad Cyngor y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ym 1972³⁶. Mae rhestrau o lygryddion wedi'u sefydlu mewn sawl gwlad, gan gynnwys UDA, Canada, y Deyrnas Unedig, yr Iseldiroedd, Norwy ac Awstralia, fel cyfraniad at gyflawni hawl y cyhoedd i wybod.
- Mae egwyddorion rhagofal yn awgrymu, os oes bygythiad o ddifrod amgylcheddol difrifol neu anadferadwy, na ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol llawn fel rheswm i ohirio mesurau cost-effeithiol i atal y difrod hwnnw. Mae'r egwyddor yn pwysleisio mesurau rhagweithiol i atal niwed yn hytrach nag aros i niwed ddigwydd. Mae'n cydnabod bod sicrwydd gwyddonol ynghylch risgiau yn aml yn anghyflawn, ond ni ddylai hyn atal cymryd camau ataliol. Y ffocws yw atal niwed posibl, hyd yn oed os nad yw union natur neu faint y niwed yn hysbys yn llawn.
- Ecwiti. Yn ystod y 1980au, priodwyd y cysyniad o gynaliadwyedd ecolegol â'r syniad o ecwiti (neu degwch), ac yn enwedig ecwiti rhyng-genhedlaeth, hynny yw, y syniad o gyfiawnder a thegwch i genedlaethau'r dyfodol. Galwodd

³⁵ Beder, Sharon. *Environmental Principles and Policies* (2006):

<https://doi.org/10.4324/9781315065908>

³⁶ OECD, *The polluter-pays principle OECD Analyses and Recommendations* (1992):

[https://one.oecd.org/document/OCDE/GD\(92\)81/En/pdf](https://one.oecd.org/document/OCDE/GD(92)81/En/pdf)

Strategaeth Cadwraeth y Byd 1980³⁷, a gynhyrchwyd gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac Adnoddau Naturiol (IUCN) mewn cydweithrediad â Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig (UNEP) a Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF, bellach y Gronfa Fyd-eang dros Natur), am bedair egwyddor a pholisi amgylcheddol ar reoli defnydd dynol o'r biosffer [gorchudd tenau'r blaned sy'n cynnal bywyd]. Gosodwyd yr egwyddorion hyn fel y gallai'r biosffer gynhyrchu'r budd cynaliadwy mwyaf i genedlaethau'r presennol wrth gynnal ei botensial i ddiwallu anghenion a dyheadau cenedlaethau'r dyfodol. Cadarnhaodd Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio ym 1992 ganologrwydd ecwiti yn ei Datganiad Rio **Error! Bookmark not defined.** Ers hynny, mae rhethreg ecwiti wedi'i hymgorffori mewn nifer o strategaethau a pholisïau datblygu cynaliadwy.

- Hawliau dynol. Mae'n amlwg o'r ystadegau hyn fod diogelu'r amgylchedd yn hanfodol i ddiogelu hawliau dynol, a bod angen i egwyddorion hawliau dynol arwain polisi amgylcheddol. Ym 1984 cytunodd yr OECD fod yr hawl i amgylchedd 'gweddus' yn hawl ddynol sylfaenol³⁸. Serch hynny, mae'r hawl i amgylchedd iach wedi'i hymgorffori yng nghyfansoddiadau gwledydd, sydd bellach wedi'i chydabod yn gyfreithiol gan fwy nag 80% o aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig³⁹.
- Cyfranogiad y cyhoedd. Ni ledaenodd yr hawl i gyfranogiad, a ddehonglir yn aml fel yr hawl i gael eich ymgynghori, ymhell y tu hwnt i EIA tan y 1990au, pan gydnabu amryw o gytundebau rhyngwladol ei bwysigrwydd i gyflawni nodau amgylcheddol. Dylid nodi bod rhwymedigaethau rhyngwladol ar hawliau gweithdrefnol amgylcheddol yn rhwymol i'r DU, fel parti i Gonfensiwn Aarhus, yn annibynnol ar gyfraith yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys cyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder mewn materion amgylcheddol⁴⁰. Canfuwyd hefyd fod mynediad cyhoeddus at gyfiawnder yn rhan hanfodol o gyflwyno Bil eu hunain gan yr Alban.

³⁷ Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac Adnoddau Naturiol, ed. *World Conservation Strategy: Living Resource Conservation for Sustainable Development* (1980):

<https://www.environmentandsociety.org/mml/iucn-ed-world-conservation-strategy-living-resource-conservation-sustainable-development>

³⁸ Lambert, Elisabeth. *The environment and human rights* (2020): <https://rm.coe.int/report-e-lambert-en/16809c827f>

³⁹ Boyd, David R. *The Right to a Healthy Environment* (2024): https://justfair.org.uk/wp-content/uploads/2024/09/The-Right-to-a-Healthy-Envnt-Users-Guide_Boyd-2024.pdf

⁴⁰ Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ewrop, *Public Participation*: <https://unece.org/environmental-policy-1/public-participation>

Yn ogystal â'r egwyddorion a gynigiwyd gan Beder, mae egwyddor integreiddio yn codi fel rhywbeth sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth amgylcheddol. Mae integreiddio gofynion diogelu'r amgylchedd i fframweithiau, deddfwriaeth a pholisïau sefydliadol traws-sectoraidd a sectoraidd yn hanfodol ar gyfer dull effeithiol a chyfannol o lywodraethu amgylcheddol. Mae integreiddio, fel egwyddor, hefyd yn unol ag ymdrechion rhyngwladol ar gyfer prif ffrydio, megis prif ffrydio hawliau amgylcheddol gweithdrefnol, y dull ecosystem fel y'i datblygwyd o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a dehongliadau sy'n esblygu o ragofal.

Mae atebolrwydd hefyd yn codi fel egwyddor bosibl, a allai ddod o gorff llywodraethu annibynnol. Mae'r Alban, er enghraifft, wedi sefydlu corff llywodraethu annibynnol i liniaru'r golled bosibl o graffu ac atebolrwydd ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae egwyddor y 'llygrwr sy'n talu' yn derm a ddefnyddir yn bennaf o fewn yr UE. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o'r egwyddor yn ymarferol y tu allan i'r UE. Mae'r ymchwiliad yn dangos y gallai fod llawer o ddarnau o ddeddfwriaeth mewn nifer o wledydd sy'n cydfynd ag egwyddor y llygrwr sy'n talu. Fodd bynnag, gan nad ydynt bob amser yn cael eu henwi'n benodol felly, maent yn anodd dod o hyd iddynt. Mae cydnabod hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd llawer mwy o ffyrdd o weithredu egwyddor y llygrwr sy'n talu y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i ddylunio eu dull eu hunain, er nad ydynt wedi'u cynnwys yma.

Yr un thema gyson i bob gwlad, wrth adolygu egwyddor y llygrwr sy'n talu, yw diffyg manylion ynghylch sut y caiff ei ariannu a rhesymeg dros gost y cyllid. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi sut mae egwyddor y llygrwr sy'n talu (PPP) yn cael ei phlismona'n effeithiol ac i ni ddadansoddi sut mae 'da' yn edrych o ran adnoddau PPP.

Canfu dadansoddiad o'r PPP yn yr UE, er bod yr egwyddor yn cael ei derbyn, y gallai ymdrechion i'w gweithredu gael eu hystyried yn dameidiog ac yn gul o ran cwmplas. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o achosion/dulliau'n targedu diwydiannau penodol yn unig. Adlewyrchir hyn mewn archwiliad gan yr UE o 2021⁴¹, a ysgogodd lawer o gwynion nad oedd y PPP wedi'i weithredu'n effeithiol. Nodwyd hefyd nad yw dull yr UE o ran y PPP yn llwyddo i benderfynu pwy yw'r llygrwr, a bod defnyddwyr yn y pen draw yn talu am PPP trwy brisiau uwch. Gallai hyn olygu y byddai dull mwy blaengar yn cynnwys labelu cynhyrchion yn well, i helpu defnyddwyr i ddewis opsiynau mwy gwyrdd ac osgoi talu PPP.

⁴¹ Llys Archwilwyr Ewrop, *The Polluter Pays Principle: Inconsistent application across EU environmental policies and actions* (2021): <https://www.eca.europa.eu/en/publications?did=58811>

Er bod tystiolaeth bod yr egwyddor hon yn cael ei rhoi ar waith o fewn gwledydd yr UE, mae eu llwyddiannau'n aneglur am ddau reswm. Y cyntaf yw mai dim ond yn ddiweddar y mae llawer o bolisiau wedi cael eu rhoi ar waith, sy'n golygu ei bod hi'n rhy gynnar i'w gwerthuso. Yn ail, ysgogodd archwiliad yr UE yn 2022 gwynion nad oedd yr egwyddor bod y llygrwr yn talu wedi'i rhoi ar waith yn effeithiol.

Astudiaeth achos: egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yn yr Alban

Yn wyneb ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cynigiodd Llywodraeth yr Alban ddull o ymdrin ag egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y genedl. Cynhaliwyd ymgynghoriad, gan gasglu tystiolaeth ar gyfer cymhwyso egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol, a chyhoeddwyd y canlyniadau yn 2019⁴².

Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at yr angen i unrhyw ddeddfwriaeth hefyd gynnwys y safon o lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol a geir mewn llawer o sylfeini cyfreithiol yr UE (e.e. Erthyglau 114 a 191 TFEU) yn ogystal â deddfwriaeth eilaidd a ddylai, fel amcan cyffredinol, wasanaethu fel meincnod y gellir asesu camau gweithredu yn ei erbyn. Galwodd yr ymgynghoriad ar yr Alban i gael dyheadau amgylcheddol beiddgar sy'n mynd y tu hwnt i gynnal safonau'r UE, er enghraifft galw am gynnwys hawliau dynol a chydaddoldeb o fewn yr egwyddorion.

Fodd bynnag, beirniadwyd yr honiad bod "dyletswydd i roi sylw dyledus yn aml yn cael ychydig iawn o effaith ar wella canlyniadau gwirioneddol" (2019, t28). Tynnodd canfyddiadau'r pwyllgor cynghori sylw hefyd at gymhwyso egwyddorion, gan alw am adeiladu cynhwysedd a "hyfforddi gwneuthurwyr penderfyniadau ar gynnwys egwyddorion amgylcheddol a'u goblygiadau ymarferol" (2019 t.3).

(2) Llywodraethu amgylcheddol

Mae llywodraethu yn elfen ganolog o ddeddfwriaeth amgylcheddol, gan bennu sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, pwy sy'n eu gwneud a sut maen nhw'n cael eu gorfodi. Mae llywodraethu effeithiol yn sicrhau bod ymdrechion i warchod bioamrywiaeth yn cael eu hintegreiddio i fframweithiau polisi ehangach, yn cynnwys nifer o randdeiliaid yn y broses o wneud penderfyniadau, ac yn cynnal atebolrwydd a thryloywder.

⁴² Llywodraeth yr Alban, *Consultation on environmental principles and governance in Scotland* (2019): <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/consultation-paper/2019/02/consultation-environmental-principles-governance-scotland-4/documents/consultation-environmental-principles-governance-scotland/consultation-environmental-principles-governance-scotland/govscot%3Adocument>

Nododd ein hadolygiad llenyddiaeth cyflym elfennau allweddol llywodraethu amgylcheddol yn seiliedig ar gyflwr arfer cyfredol yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn wedi'i syntheseiddio i bum agwedd allweddol, gan roi trosolwg o arfer cyfredol:

Fframweithiau sefydliadol. Mae llywodraethu amgylcheddol yn gofyn am fframweithiau sefydliadol cryf i sicrhau gwneud penderfyniadau, cydlynu a gorfodi polisïau bioamrywiaeth yn effeithiol. Yng Nghymru, cytunwyd ar fframwaith llywodraethu rhwng yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Natural England yn nogfen Fframwaith Natural England (2022)⁴³ sy'n cydnabod rôl Natural England fel cynghorydd statudol a chorff cyflawni'r llywodraeth, gan gyflawni ei swyddogaethau o ran amcanion strategol Defra a'r llywodraeth ehangach, ond heb ragfarn i gyflawni swyddogaethau statudol gydag arbenigedd technegol, didueddrwydd a thryloywder.

Cyfranogiad aml-randdeiliaid. Mae llywodraethu effeithiol yn gofyn am gyfranogiad ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff llywodraeth, cymunedau lleol, sefydliadau anllywodraethol, a sefydliadau academiaidd a gwyddonol. Mae hyn yn cydbwysu gwahanol fuddiannau, yn darparu cyfreithlondeb, ac yn sicrhau mewnbwn amrywiol i'r broses o wneud penderfyniadau. Mae Deddf Amrywiaeth Natur Norwy (2009)⁴⁴ yn cynrychioli dull cynhwysfawr o lywodraethu bioamrywiaeth yn Norwy, wedi'i seilio ar gyfranogiad aml-randdeiliaid, pob un â chyfrifoldebau penodol mewn cadwraeth bioamrywiaeth, sy'n sicrhau bod nodau bioamrywiaeth yn cael eu hintegreiddio ar draws gwahanol lefelau o gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys y Weinyddiaeth Hinsawdd a'r Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Norwy, bwrdeistrefi a siroedd lleol, Cymdeithas Norwy er Cadwraeth Natur, WWF Norwy, Cyfeillion y Ddaear Norwy, yn ogystal â phobloedd brodorol a chymunedau lleol. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn cydnabod arwyddocâd Senedd y Sami mewn gwneud penderfyniadau lle mae gan bobl y Sami fuddiannau diwylliannol ac economaidd. Mae hyn yn integreiddio gwybodaeth draddodiadol y Sami i ymdrechion cadwraeth gyda sensitifrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae bugeilio ceirw yn gorgyffwrdd â diogelu bywyd gwyllt. Mae Norwy hefyd yn defnyddio strategaeth o dalu am wasanaethau amgylcheddol, lle mae tîrfeddianwyr a pherchnogion eiddo o fewn parciau cenedlaethol, gwarchodfeydd natur ac ardaloedd rheoli cynefinoedd yn

⁴³ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y DU, *Natural England framework document* (2022): <https://www.gov.uk/government/publications/natural-england-framework-document/natural-england-framework-document-2022#:~:text=2.4.,Natural%20England%20will%20be%20resolved>.

⁴⁴ Gweinyddiaeth Hinsawdd ac Amgylchedd Norwy, *Nature Diversity Act* (2009): <https://www.regjeringen.no/en/dokumenter/nature-diversity-act/id570549/>

gymwys i gael iawndal ariannol pan fydd amddiffyniadau amgylcheddol yn gwneud defnyddio eu tir yn anoddach⁴⁵.

Monitro a gorfodi. Rhaid i lywodraethu amgylcheddol gynnwys systemau ar gyfer monitro'r statws. Mae Cyfansoddiad Gwleidyddol Gwladwriaethol Bolifia (2009)⁴⁶ yn amlinellu "dyletswydd y wladwriaeth a'r boblogaeth i warchod, amddiffyn a gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a bioamrywiaeth", sydd wedi'i gryfhau ers hynny mewn deddfwriaeth nodedig sy'n cydnabod Hawliau'r Fam Ddaear yn 2012⁴⁷, gan sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n blaenoriaethu cadwraeth a gwybodaeth frodorol gyda'r nod o hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu bioamrywiaeth. Mae cydnabod dyletswyddau'r wladwriaeth a'r boblogaeth wedi'u gwireddu trwy gyfranogiad y cyhoedd mewn monitro trwy wyddoniaeth dinasyddion⁴⁸. Gall galluogi cyfranogiad y cyhoedd mewn monitro bioamrywiaeth trwy apiau neu gasglu data yn y gymuned gryfhau llywodraethu, yn enwedig ar gyfer monitro poblogaethau rhywogaethau, datgoedwigo, neu newidiadau amgylcheddol ar lefel leol. Fodd bynnag, gellir dysgu gwersi gan Sweden am yr angen am hyblygrwydd wrth orfodi llywodraethu amgylcheddol. Mae Sweden wedi gwarchod ardaloedd tir a dŵr o fewn 100 metr i'r arfordir fel ardaloedd gwarchod glannau. Gellir ymestyn hyn hyd at 300 metr gan y llywodraeth neu ei hawdurdod penodedig os oes angen at ddibenion gwarchod y glannau. Gan gydnabod hyn, mae polisi newydd wedi dod i rym⁴⁹ i lacio amddiffyniadau glannau ar gyfer rhai achosion ac ardaloedd, gan ddangos yr angen am bolisiau uchelgeisiol i ymateb i heriau a brofir wrth eu gorfodi.

Mae **mecanweithiau ariannol**, megis talu am wasanaethau ecosystem, gwrthbwysio bioamrywiaeth, a chronfeydd ymddiriedolaeth cadwraeth, yn gynyddol bwysig ar gyfer sicrhau gweithredu a chynaliadwyedd llywodraethu bioamrywiaeth. Mae Strategaeth Bioamrywiaeth Seland Newydd (2020)⁵⁰ yn amlinellu'r canlyniadau dymunol, gan gynnig amddiffyniad wedi'i adfer ar draws tir, moroedd a chymunedau

⁴⁵ Policy Mix, Case study: Norway (2010): <https://policymix.nina.no/Case-studies/Norway/Case-Study-Norway-Full>

⁴⁶ Climate Change Laws, Constitution of Bolivia (2009): https://climate-laws.org/document/constitution-of-bolivia-spanish-constitucion-politica-del-estado_37f3

⁴⁷ Eco Jurisprudence Monitor, Bolivia Law No. 300 Framework Law of Mother Earth and Integral Development to Live Well (2012): <https://ecojurisprudence.org/initiatives/law-no-300-the-framework-law-of-mother-earth-and-integral-development-to-live-well/>

⁴⁸ Jansen, Martin et al. *Engaging Citizen Scientists in Biodiversity Monitoring: Insights from the WildLIVE! Project* (2024): <https://theoryandpractice.citizenscienceassociation.org/articles/10.5334/cstp.665>

⁴⁹ Sweden Herald, *The Government is Relaxing Shoreline Protection* (2025): <https://swedenherald.com/article/the-government-relaxes-shoreline-protection>

⁵⁰ Adran Cadwraeth Seland Newydd, *About New Zealand's biodiversity strategy*: <https://www.doc.govt.nz/nature/biodiversity/te-mana-o-te-taiao-aotearoa-new-zealand-biodiversity-strategy-2020/aotearoa-new-zealand-biodiversity-strategy/>

Seland Newydd. Cefnogir hyn gan gynllun gweithredu⁵¹ sy'n cynnwys 204 o gamau gweithredu, rhai wedi'u cynllunio a rhai ar y gweill, ac mae'n archwilio trwy ymgynghoriad cyhoeddus i sefydlu system gredyd bioamrywiaeth i ysgogi cydweithio a galluogi tirfeddianwyr i ennill credydau am weithredu⁵². Yng Nghosta Rica, mae arian o drethi tanwydd, trethi stamp ceir a ffioedd ynni yn cael eu sianelu i dalu am reoli gwarchodfeydd natur⁵³ a gwasanaethau amgylcheddol⁵⁴, gan weithredu egwyddor cywiro wrth y ffynhonnell. Yn y DU, sefydlodd Cronfa Her Adferiad Gwyrdd (2020)⁵⁵ gronfa gwerth £80m ar draws dwy rownd mewn ymateb i bandemig COVID-19, a gynlluniwyd i helpu adferiad a chadwraeth natur wrth greu a chynnal swyddi⁵⁶. Dylid ystyried mecanweithiau arloesol ar gyfer cymell, hau a graddio ymdrechion bioamrywiaeth gyda'r egwyddorion a archwiliwyd uchod mewn golwg, gan gydnabod mai anaml mai'r rhai sy'n profi ac yn ymateb i heriau bioamrywiaeth sy'n gyfrifol am eu creu.

Integreiddio traws-sectoraidd. Rhaid i lywodraethu amgylcheddol effeithiol integreiddio cadwraeth i sectorau eraill, fel amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a datblygu trefol. Mae ail Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Genedlaethol De Affrica (2015)⁵⁷ yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys parciau cenedlaethol, y gwasanaeth tywydd, dŵr a glanweithdra, amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd, mwynloddio a llawer o rai eraill. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBSAP) diwygiedig yn cydnabod bod cymryd golwg ehangach i integreiddio bioamrywiaeth i wahanol agweddau ar reoli adnoddau naturiol a datblygiad economaidd-gymdeithasol yn allweddol, gan geisio cyd-fynd â nhw, nid eu disodli na'u hailadrodd. Mae De Affrica wedi mabwysiadu lleddfu tlodi a chadwraeth bioamrywiaeth fel

⁵¹ Adran Cadwraeth Seland Newydd, *Implementing New Zealand's biodiversity strategy: [Implementing Te Mana o te Taiao – Aotearoa New Zealand Biodiversity Strategy 2020: Biodiversity](#)*

⁵² Gweinyddiaeth Amgylchedd Seland Newydd, *Helping nature and people thrive – Exploring a biodiversity credit system for Aotearoa New Zealand* (2023): [Helping nature and people thrive – Exploring a biodiversity credit system for Aotearoa New Zealand - Ministry for the Environment - Citizen Space](#)

⁵³ OECD, *Environmental Performance Reviews: Costa Rica* (2023): [Executive summary | OECD](#)

⁵⁴ Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, *Payments for Environmental Services Program* (2023): <https://unfccc.int/climate-action/momentum-for-change/financing-for-climate-friendly-investment/payments-for-environmental-services-program>

⁵⁵ Llywodraeth y DU, *Government's £40 million Green Recovery Challenge Fund opens for applications* (2020): <https://www.gov.uk/government/news/governments-40-million-green-recovery-challenge-fund-opens-for-applications>

⁵⁶ Cronfa Dreftadaeth, *Green Recovery Challenge Fund evaluation* (2023): <https://www.heritagefund.org.uk/about/insight/evaluation/green-recovery-challenge-fund-evaluation>

⁵⁷ Adran Materion Amgylcheddol De Affrica, *South Africa's 2nd National Biodiversity Strategy and Action Plan* (2015): <https://www.cbd.int/doc/world/za/za-nbsap-v2-en.pdf>

themâu integredig allweddol yn agenda'r llywodraeth. Un o'r prif heriau y mae'r llywodraeth wedi'u hwynebu yw nad yw bioamrywiaeth, er ei bod yn gwneud cyfraniad hanfodol at fywoliaeth cymunedau gwledig, yn cael ei hystyried mewn cyfrifiadau economaidd fel y Cynnyrch Domestig Gros (GDP), a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ar ddefnydd tir⁵⁸.

(3) Targedau a deddfwriaeth bioamrywiaeth

Profodd dod o hyd i ymchwil a dadansoddiad o wledydd â deddfwriaeth bioamrywiaeth yn anodd. Yn gyffredinol, roedd deddfwriaeth yn canolbwyntio ar weithgareddau a fyddai'n *effeithio* ar fioamrywiaeth, yn hytrach na nodau a fyddai'n gwella bioamrywiaeth yn benodol, neu'n monitro cyflwr bioamrywiaeth ei hun. Mae strategaethau gweithredu yn amlinellu sut y gellid monitro bioamrywiaeth a pham mae hyn yn bwysig, ond nid ydynt yn manylu llawer ar y nod terfynol, nac ar sut y gallai gweithredu ymarferol nodau bioamrywiaeth o'r fath edrych mewn gwirionedd.

O ystyried bod y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth bioamrywiaeth yn gymharol newydd, mae llawer ohoni heb ei gwerthuso na hyd yn oed ei gweithredu eto. Unwaith eto, dim ond ychydig o wledydd a ganfuwyd a oedd wedi gweithredu strategaeth bioamrywiaeth. Fel gydag egwyddor y 'llygrwr sy'n talu', efallai bod darnau o ddeddfwriaeth mewn gwledydd eraill sy'n mynd ar drywydd targedau bioamrywiaeth ond nad ydynt yn gwneud hynny'n benodol.

Mae cyrff anllwyodraethol fel WWF wedi datblygu eu dangosyddion eu hunain⁵⁹. Er bod y rhain yn bwysig, nid ydynt o reidrwydd yn dylanwadu ar sut mae gwledydd eu hunain yn mesur ac yn cyflawni eu targedau bioamrywiaeth.

Y gwledydd y canfuwyd bod ganddynt gyfreithiau neu ddeddfwriaeth bioamrywiaeth benodol oedd Costa Rica⁶⁰, Ffrainc⁶¹, Norwy⁶², Sweden⁶³ Yr Alban⁶⁴ Japan⁶⁵ a De

⁵⁸ Adran Coedwigaeth, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd De Affrica, *National Biodiversity Strategy and Action Plan* <https://www.dffe.gov.za/national-biodiversity-strategy-and-action-plan>

⁵⁹ Cronfa Fyd-eang ar gyfer Natur, *Living Planet Report* (2024):

<https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2024-10/living-planet-report-2024.pdf>

⁶⁰ Cyngor Dyfodol y Byd, *Costa Rica's Biodiversity Law* (2024): <https://www.futurepolicy.org/healthy-ecosystems/biodiversity-and-soil/costa-ricas-biodiversity-law/>

⁶¹ Gweinyddiaeth Ffrainc dros Ewrop a Materion Tramor, *Climate and Environment* (2020):

<https://www.diplomatie.gouv.fr/en/french-foreign-policy/climate-and-environment/>

⁶² Gweinyddiaeth Hinsawdd ac Amgylchedd, *Nature Diversity Act* (2009):

<https://www.regjeringen.no/en/dokumenter/nature-diversity-act/id570549/>

⁶³ Swyddfeydd Llywodraeth Sweden, *The Swedish Environmental Code* (2000):

<https://www.regjeringen.no/en/dokumenter/nature-diversity-act/id570549/>

⁶⁴ Llywodraeth yr Alban, *Biodiversity Policy* (n.d.): <https://www.gov.scot/policies/biodiversity/>

⁶⁵ Cyfieithiad o Gyfraith Japaneaidd, *Basic Act on Biodiversity* (2008):

<https://www.japaneselawtranslation.go.jp/en/laws/view/3892/>

Affrica⁶⁶. Amlinellodd yr UE Strategaeth Bioamrywiaeth hefyd⁶⁷. Mae'n debygol y bydd llawer mwy o wledydd â chyfreithiau neu ddeddfwriaeth bioamrywiaeth, fodd bynnag, roedd mynediad atynt yn heriol oherwydd cymhlethdodau dogfennaeth ddeddfwriaethol genedlaethol, fel y soniwyd yn flaenorol, a'r ffaith nad ydynt o reidrwydd yn cael eu henwi'n benodol fel deddfwriaeth bioamrywiaeth.

Ar ôl dadansoddi amrywiaeth o strategaethau, gallwn ddod i'r casgliad bod y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar gyflawni targedau bioamrywiaeth drwy reoleiddio a/neu fonitro gweithgareddau a allai gael effaith ar fioamrywiaeth. I roi hyn mewn persbectif, dyma'r dull a gymerwyd gan wledydd Ewropeaidd fel Sweden a Norwy, ac mae'n adlewyrchu'r ffordd y mae Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a'r Gyfraith Adfer Natur wedi nodi eu disgwyliadau. Mae'r disgwyliadau hyn yn cyfeirio'n gyfyngedig at fonitro a llawer o ffocws ar gyflawni. Gan fod y strategaethau hyn yn rhoi llai o sylw i fonitro bioamrywiaeth ynddo'i hun, bydd yn anodd dadansoddi'n fanwl yr effaith y mae gwaith o'r fath wedi'i gael, sy'n golygu y gallai'r canlyniadau disgwyliedig a'r casgliadau ar union effaith y gwaith fod yn amwys.

Ar gyfer y strategaethau cenedlaethol hynny (Japan, De Affrica, Costa Rica) sydd wedi canolbwyntio ar fonitro bioamrywiaeth, mae eu cynlluniau ar hyn o bryd yn brin o fanylion ynghylch sut mae bioamrywiaeth yn cael ei mesur a'u nod terfynol ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Gallai hyn fod yn rhannol, gan fod diffyg ymchwil, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt wneud hyn cyn y gallant nodi eu huchelgeisiau. Fodd bynnag, mae'n codi cwestiwn pryd y bydd y targedau hyn yn cael eu gosod ac a fyddant yn digwydd mewn pryd i gyrraedd targedau bioamrywiaeth y byd.

Ar ben yr heriau unigryw y mae strategaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni neu fonitro yn eu hwynebu, mae Dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at ddwy her, nad yw pob math o strategaeth wedi'u cydnabod yn glir eto, a allai beri problemau wrth gyflawni eu hamcanion:

- diffyg cefnogaeth ariannol glir i gyflawni'r cynlluniau
- diffyg eglurder ynghylch sut y gall y sefydliadau hyn gyflawni'r targedau hyn

⁶⁶ Coedwigaeth, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd, *Publication of the draft national environmental management: biodiversity bill for public comment* (2024):

https://www.dffe.gov.za/legislation/gazetted_notices/draft2024nem.biodiversitybill

⁶⁷ Ynni, Newid Hinsawdd, Amgylchedd (Y Comisiwn Ewropeaidd), *Biodiversity strategy for 2030* (2020): https://environment.ec.europa.eu/strategy/biodiversity-strategy-2030_en

Mae gan Ffrainc⁶⁸ a'r Alban⁶⁹ nifer o dargedau, y gellid eu hystyried yn optimistaidd ac nad ydynt yn cyd-fynd ag unrhyw ymrwymiad i'r gallu ariannol a sefydliadol sydd ei angen i gyflawni'r targedau hyn. Er enghraifft, mae targedau'r Alban yn cynnwys gwella ansawdd dŵr ac aer a chymryd camau rheoli dŵr i wella bioamrywiaeth a lleihau effeithiau negyddol **Error! Bookmark not defined.** - a allai fod yn dasg enfawr ac nad yw'n dod ag ymrwymiad ariannol na sefydliadol, na fframwaith atebolrwydd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi maint yr her, yn ogystal â'r costau disgwylidig. Mae cynlluniau bioamrywiaeth gwledydd eraill, fel cynlluniau Japan⁷⁰ a De Affrica **Error! Bookmark not defined.**, ill dau hefyd yn eithaf amwys.

Mae De Affrica yn cysylltu ei hamcanion bioamrywiaeth â lleddfu tlodi⁷¹, gan fod y llywodraeth yn awyddus i ddatblygu atebion integredig, yn hytrach na gweithio yn erbyn ei gilydd. Gyda'r nod o ddatblygu gwell dealltwriaeth, gallai'r dull hwn eu helpu i weithredu bioamrywiaeth a thlodi, i'r dangosydd arferol o dwf economaidd, Cynnyrch Domestig Gros (GDP). Ar hyn o bryd mae De Affrica yn profi twf economaidd, ond heb gynydd mewn swyddi, gyda thlodi'n gwaethygu, a bioamrywiaeth yn dirywio.

Yn y DU, nid yw dangosyddion bioamrywiaeth yn ddigyfnawid ac maent yn amrywio yn dibynnu ar y wyddoniaeth a'r polisi⁷². Roedd cyfres 2020 o ddangosyddion bioamrywiaeth yn y DU yn cynnwys 24 o ddangosyddion, sy'n cynnwys cyfanswm o 52 o fesurau, pob un wedi'i asesu gan ddefnyddio system 'goleuadau traffig' (gyda choch yn tynnu sylw at ddirywiad yng ngwerth mesur y dangosydd) **Error! Bookmark not defined.**

Roedd hefyd yn anodd dod o hyd i ddangosyddion bioamrywiaeth a oedd yn cael eu gweithredu'n genedlaethol, yn hytrach na chael eu cyhoeddi gan gyrff anllwydoraethol neu sefydliadau rhyngwladol **Error! Bookmark not defined.** Fel y soniwyd yn flaenorol, mae llawer o'r ddeddfwriaeth bioamrywiaeth yn newydd ac yn dal i gael ei datblygu, sy'n golygu bod llawer o'r dangosyddion yn dal i gael eu datblygu.

⁶⁸ French Government, *National biodiversity strategy 2030* (2023):

<https://www.ecologie.gouv.fr/sites/default/files/documents/National-Biodiversity-Strategy-2030.pdf>

⁶⁹ Scottish Government, *Biodiversity: delivery plan 2024 to 2030* (2024):

<https://www.gov.scot/publications/scottish-biodiversity-delivery-plan-20242030/pages/1/>

⁷⁰ Gweinyddiaeth yr Amgylchedd Llywodraeth Japan, *The National Biodiversity Strategy and Action Plan (NBSAP) of Japan 2023-2030* (2024): <https://www.env.go.jp/content/000280507.pdf>

⁷¹ Adran Coedwigaeth, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd De Affrica, *South Africa's Biodiversity* (2023):

<https://biodiversityinvestment.co.za/south-africas-biodiversity>

⁷²

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, *UK biodiversity indicators* (2020):

<https://data.jncc.gov.uk/data/048f7e78-a2c6-4982-91c3-e496f063bf2b/UKBI-2020-A.pdf>

Fodd bynnag, mae'r DU⁷³ ac Iwerddon **Error! Bookmark not defined.** wedi datblygu set o ddangosyddion bioamrywiaeth i fesur eu nodau bioamrywiaeth priodol. Mae'n werth nodi bod rhai dangosyddion yn dal i gael eu datblygu a bod data heb ei gasglu eto.

Mae Iwerddon wedi datblygu set o wyth dangosydd bioamrywiaeth cenedlaethol gydag is-ddangosyddion⁷⁴. Mae'r is-ddangosyddion hyn wedi'u codio â lliwiau goleuadau traffig i ddangos eu llwyddiant presennol, er nad yw'r holl ddangosyddion wedi'u rhoi ar waith eto.

Mae gan yr Undeb Ewropeaidd 102 o gamau gweithredu i gyflawni targedau o dan y pedwar categori canlynol: 'rhwychwaith cydlynol o ardaloedd gwarchodedig', 'cynllun adfer natur yr UE', 'galluogi newid trawsnewidiol', a 'gweithredu allanol yr UE ac agenda bioamrywiaeth fyd-eang uchelgeisiol'⁷⁵ (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2024).

Astudiaeth achos: targedau a deddfwriaeth bioamrywiaeth yn Ffrainc

Nod Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol Ffrainc **Error! Bookmark not defined.** (a adnabyddir fel SNB yn Ffrangeg) yw amddiffyn o leiaf 30% o'r diriogaeth genedlaethol, gan gynnwys tiriogaeth ddaearol a morol. Mae hyn yn cynnwys creu 400 o ardaloedd gwarchodedig newydd ar dir mawr Ffrainc a thiriogaethau tramor Ffrainc erbyn 2027.

Mae Llywodraeth Ffrainc yn edrych i gefnogi bioamrywiaeth drwy gyfres o ddeddfwriaethau a thargedau cysylltiedig. Maent yn targedu rhywogaethau a allai fod yn ymledol, gan geisio lleihau eu niferoedd 50% erbyn 2030. Bydd Llywodraeth Ffrainc yn parhau i gyflwyno "Trames vertes et bleues" (seilwaith gwyrdd a glas) gyda'r nod o adfer parhad ecolegol daearol a dyfrol i alluogi rhywogaethau i symud rhwng gwahanol amgylcheddau. Mae hyn yn cyd-fynd â chymorth i gwmnïau llai i gael gwell dealltwriaeth o'u heffeithiau a'u dibyniaethau ar fioamrywiaeth.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Ffrainc yn targedu'r defnydd o blaladdwyr a chynhyrchion amddiffyn planhigion eraill a allai fod yn achosi llygredd oherwydd lefelau nitrad gormodol. Gwaharddwyd plaladdwyr sy'n cynnwys neonicotinoidau yn

⁷³

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, UK biodiversity indicators (2024): <https://jncc.gov.uk/our-work/uk-biodiversity-indicators/>

⁷⁴ Canolfan Data Bioamrywiaeth Genedlaethol, *The National Biodiversity Indicators have been updated*: <https://biodiversityireland.ie/the-national-biodiversity-indicators-have-been-updated/>

⁷⁵ Ynni, Newid Hinsawdd, Amgylchedd (Y Comisiwn Ewropeaidd), *Biodiversity strategy for 2030* (2020): https://environment.ec.europa.eu/strategy/biodiversity-strategy-2030_en

2018, ac mae targed ar gyfer lleihau'r defnydd o gynhyrchion amddiffyn planhigion eraill wedi'i osod ar gyfer 2030.

Er mwyn lleihau llygredd morol, mae Llywodraeth Ffrainc yn cau safleoedd tirlenwi ar hyd yr arfordir sydd mewn perygl o gael eu gollwng yn ôl i'r môr, a bydd pob bwrdeistref arfordirol wedi cofrestru mewn dull dim plastig erbyn 2030.

IV. Canfyddiadau o ymgysylltu â rhanddeiliaid, modelu polisi ac asesu

Mae'r adran ganlynol yn darparu'r canfyddiadau o Gam 2: Modelu a Cham 3: Asesiad ar bob un o'r opsiynau a archwiliwyd o dan dair rhan y ddeddfwriaeth.

Mae'r canfyddiadau'n cyfateb i'r modelau a archwilir o dan bob un o'r meysydd polisi, ac fe'u cyflwynir fel barn rhanddeiliaid, dadansoddiad cost-budd, costau ariannol allweddol, rhagdybiaethau modelu a chanlyniadau modelu. Gan fod disgrifiadau o fanteision ac anfanteision darluniadol wedi'u crynhoi ar draws tair rhan y ddeddfwriaeth, disgrifir y rhain mewn adran annibynnol.

Barn gyffredinol rhanddeiliaid ar y ddeddfwriaeth

Cyn archwilio'r opsiynau o dan bob rhan o'r ddeddfwriaeth, rydym yn darparu trosolwg byr o safbwyntiau cyffredinol rhanddeiliaid ar y fenter, fel cyd-destun ar gyfer sylwadau pellach.

Barn rhanddeiliaid yw bod cynnydd tuag at ddiogelu'r amgylchedd wedi'i arafu neu'n wir, wedi'i ohirio, yng Nghymru ers tynnu deddfwriaeth yr UE yn ôl o Gymru wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Canfu'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac adolygiad tystiolaeth a data ategol ar gyfer yr Adroddiad hwn fod cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr. Mae mandad clir ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid ar gyfer cyflwyno'r Bil i ddeddfwriaeth, gan gynnwys gan awdurdodau cyhoeddus y bydd eu gweithrediadau o bosibl yn cael eu heffeithio fwyaf gan gyflwyno'r Bil.

Soniodd rhanddeiliaid am y risgiau gwleidyddol o ran amseriad cyflwyno'r ddeddfwriaeth, sef, y gallai unrhyw oedi olygu na chaiff ei chyflwyno cyn yr

etholiadau nesaf. O ystyried y cynnwrf a ragwelir yng nghyfansoddiad arweinyddiaeth wleidyddol awdurdodau lleol ac unedol Cymru, gwelodd y rhai a gyfwelwyd risg sylweddol ac yn wir – cost wastraff – pe bai'r ddeddfwriaeth yn methu'r ffenestr wleidyddol a bod y gwaith arni wedyn yn cael ei ohirio neu ei thynnu'n ôl.

Gan dybio bod y Bil yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, nododd rhanddeiliaid risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni targedau'r Bil ei hun, os oes oedi i'w weithredu. Sef, os yw'r amserlen rhwng pasio'r ddeddfwriaeth a hyfywedd ei gweithredu yn ymarferol yn hir, naill ai oherwydd cyfyngiadau adnoddau, newid yn y llywodraeth, neu oedi i roi canllawiau i Weinidogion, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid i gynnal a gweithredu'r egwyddorion. Cododd canfyddiadau bryderon hefyd ynghylch cost y newid o'r system aseswyr dros dro bresennol i system newydd, o ran yr angen i gadw gwybodaeth sefydliadol, ac i raddio'r newid yn unol â hynny er mwyn peidio â gadael diogelu'r amgylchedd yn gwbl agored a heb ei drefnu pe bai amserlenni anrhagweladwy cyflwyno'r Bil yn gadael bwlch rhwng y trefniant presennol a'r system newydd.

Mae'r angen i liniaru aneffeithlonrwydd, a allai gael ei greu drwy newid y system yn sylweddol (lle mae'n gweithio neu lle mae awdurdodau cyhoeddus, yn benodol, yn dal i arfer â dilyn prosesau tebyg i'r UE, er enghraifft), hefyd yn bwysig, oherwydd y costau cudd ac anfesuradwy y gallai hyn eu golygu hefyd. Serch hynny, cadarnhawyd pwysigrwydd mecanwaith deddfwriaethol cryfach – yn ymarferol ac yn symbolaidd – yn gyson yn yr Adroddiad hwn.

“Mewn rhai achosion, mae pobl yn dal i ddilyn y broses ar gyfer gwneud pethau, ac roedd y broses honno'n cael ei llywodraethu i raddau helaeth gan yr UE. Mae'r broses o gasglu ansawdd dŵr wedi aros yr un fath oherwydd, er gwaethaf bod y ddeddfwriaeth ychydig yn wahanol, mae'n ormod o drafferth i'w newid. Yr hyn rydych chi wedi'i golli yw'r mecanwaith herio” – Cyfwelai

Mae'n amlwg bod cyfrifiad o fanteision hirdymor cyflwyno'r Bil – yn economaidd ac yn ariannol, ond hefyd o ran y cyd-fanteision i iechyd a lles pobl, canlyniadau cymdeithasol, adfer a ffyniant ardaloedd lleol, yn ogystal ag i ganlyniadau natur a bioamrywiaeth eu hunain – yn bwysig i gyflwyno'r Bil, os yw'n anodd ei weithredu mewn modd cadarn. Mae hyn yn bwysig i'w ystyried mewn perthynas â'r dadansoddiad cost-budd o gyflwyno gwahanol gydrannau'r Bil, yn ogystal â chynnal yr achos dros ei warchod a'i fuddsoddi, a fydd angen bod yn hirdymor o ystyried y cyfnod gweithredu sydd ei angen ar yr agenda hon dros sawl degawd.

Gan edrych y tu hwnt i'r weinyddiaeth bresennol, nododd y canfyddiadau risg na fydd y lefel o fuddsoddiad sydd ei hangen ar gyfer cynnal y system newydd a'r corff cyhoeddus yn cael ei chynnal o dan y llywodraeth nesaf. Byddai setliad ariannu llai neu wedi'i ddadflaenoriaethu yn peri heriau i effeithiolrwydd y Bil wrth symud Cymru tuag at ei thargedau a'i nodau ac yn yr un modd yn cyflwyno pwysau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus pe bai'r Bil yn cael ei gynnal ond bod cyllid yn cael ei leihau o dan y llywodraeth nesaf.

"Dw i'n teimlo, beth bynnag yw'r dadansoddiad cost-budd a wnewch chi; mae'n rhaid i chi fod yn glir iawn ynglŷn â'r costau posibl i les dynol o beidio â gweithredu, o'i gymharu â chostau cyflwyno corff llywodraethu yn unig". - Cyfwelai

1) Egwyddorion amgylcheddol

Barn rhanddeiliaid

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno barn rhanddeiliaid ar opsiynau 1A-1D ar gymhwyso egwyddorion amgylcheddol, ac yna dadansoddiad cost-budd o bob un o'r opsiynau.

1A) Busnes fel arfer

Ar draws yr holl gyfweiliadau â rhanddeiliaid, ni welwyd busnes fel arfer erioed fel opsiwn hyfyw. Hyd yn oed ymhlith y lleiafrif (2) o'r rhai a gyfwelwyd a oedd yn gweld diogelu'r amgylchedd fel rhywbeth eilradd i ffyniant economaidd neu bryderon dynol ac nad oeddent o reidrwydd yn cefnogi Bil Amgylcheddol cryfach i Gymru, ni welwyd cynnal y status quo o beidio â chael dull unedig o ystyried egwyddorion amgylcheddol, gydag agweddau ohonynt wedi'u rhannu ar draws deddfwriaeth arall mewn amrywiol ffyrdd, fel opsiwn hyfyw.

Ystyriwyd bod y trefniadau busnes-fel-arfer yn anymarferol yn bennaf oherwydd dau brif reswm: yn gyntaf, y risg o beidio â chryfhau ymhellach amddiffyniad amgylcheddol tuag at nodau Cymru ar gyfer cymdeithas fwy gwyrdd, carbon-niwtral, a ystyriwyd yn anghynladwy. Yn ail, gwelodd y rhai a gyfwelwyd risg sylweddol a chost bosibl yn y dyfodol i Gymru golli ecwiti gwleidyddol ac ymreolaeth pe bai'r wlad yn unig genedl ddatganoledig y DU heb ei deddfwriaeth ei hun ynghylch egwyddorion amgylcheddol. Er bod amddiffyniad amgylcheddol wedi'i ddatganoli yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, cododd rhanddeiliaid y risg y byddai peidio â chyflwyno egwyddorion yn gadael Cymru'n agored ac yn gadael amheuaeth ynglŷn ag ymarfer y pŵer datganoledig hwn. Codwyd hefyd y gallai arwain at heriau pe bai deddfwriaeth

neu fframweithiau a osodwyd gan y llywodraeth yn San Steffan tuag at amddiffyniad amgylcheddol yn cael effaith ar strategaethau a gweithrediadau gwahanol sefydliadau a sectorau sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr.

Heriau a risgiau

Ychwanegwyd at y farn hon nad oedd modd cefnogi busnes fel arfer gan bryderon ynghylch costau cynyddol – ond yn bennaf anfesuradwy – bwlch sy'n tyfu rhwng Cymru a'r UE ar ddeddfwriaeth amgylcheddol a allai, ymhen amser, effeithio ar feysydd eraill fel masnach, cydweithredu a hyd yn oed ariannu ymchwil a datblygu. O ystyried y lefel fyd-eang, mae cadw'r trefniant Busnes a Datblygu yn yr un modd yn peri risg o gymhwyso deddfwriaeth y DU/Byd-eang yn anghyson o fewn y gwagle a adawyd gan ddeddfwriaeth yr UE (e.e. mae rhai cyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i wahanol fframweithiau rhyngwladol, gan godi ffrithiant o ganlyniad) ac yn yr un modd, y risg y byddai Cymru'n cael ei dal i fframweithiau'r DU neu San Steffan nad ydynt mor uchelgeisiol ag y gallai Cymru fod eisiau bod, pe bai bwlch yn cael ei adael yng nghwmpas cyfreithiol diogelu'r amgylchedd.

Gwnaed achos cryf gan y rhai a gyfwelwyd, er y gall y dadansoddiad cost-budd fesur yn glir (ddiffyg) costau cynnal safbwynt BFA ar ddeddfwriaeth amgylcheddol, fod costau eraill yr opsiwn BFA yn llawer mwy hirdymor ac yn anodd eu mesur, sef 'cost' gwaethygu'r argyfwng natur a'r effaith ddilynol ar ganlyniadau eraill - gan gynnwys iechyd a lles, canlyniadau cymdeithasol a dirywiad ardaloedd lleol. Roedd y 'costau' hyn o ganlyniadau gwaethygu a'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus neu bwrs y wlad yng Nghymru yn eu tro yn anodd eu mesur, a disgrifiwyd 'cost' yr argyfwng natur fel un nad oedd mor weladwy nac mor fesuradwy â chost effeithiau hinsawdd, er enghraifft.

Fodd bynnag, roedd tystiolaeth dda mewn adroddiadau ansoddol bod cost i les dynol sy'n anodd ei meintoli os gadewir yr amgylchedd naturiol i ddirywio. Mae hyn ochr yn ochr â chost ecwiti iechyd sydd wedi'i thystio'n dda mewn astudiaethau eraill, oherwydd colli mynediad at fannau gwyrdd a tharfu ar ecosystemau naturiol. Codwyd yn aml y byddai gwaith pellach i gyfrifo'r risgiau a'r niweidiau cymdeithasol, lles, economaidd, treftadaeth a chymunedol cysylltiedig, a'r costau dilynol i'r wladwriaeth les, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus ac argyfwng, a fyddai'n codi o fethu â sicrhau bod amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth Cymru yn cael eu diogelu, yn werthfawr i gyflwyno'r achos dros y Bil a chyfiawnhau'r tarfu ar ei weithrediad.

Cyfleoedd a manteision

Ni chofnodwyd unrhyw fanteision ar gyfer y dull busnes-fel-arfer; gyda rhanddeiliaid yn honni bod “angen fframwaith cryfach i sicrhau bod egwyddorion diogelu'r amgylchedd yn cael eu cryfhau wrth lunio polisi – ar gyfer polisi amgylcheddol ei hun, ac wrth gryfhau egwyddorion amgylcheddol o fewn rhannau eraill o bolisi cymdeithasol, economaidd, seiliedig ar le a democrataidd”.

Roedd hyn oherwydd bod rhanddeiliaid yn ystyried nad oedd agweddau ar y ddeddfwriaeth amgylcheddol gyfredol yn ddigon cryf i effeithio ar dargedau amgylcheddol, sero net a chynaliadwyedd Cymru; gyda chyfeiriadau at Ddeddfau cyfredol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1B) Egwyddorion yn unig

Ystyriwyd bod cyflwyno'r egwyddorion fel rhan graidd y Bil yn hanfodol bwysig i gryfhau dull Cymru o ddiogelu'r amgylchedd, yn enwedig wrth lunio polisi, a fydd yn ei dro yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Ystyriwyd yr un mor bwysig y cyfle i ddatblygu dull ymreolaethol o ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru drwy'r egwyddorion, ac i sicrhau bod gan gymunedau Cymru a llywodraeth Cymru degwch a chydaddoldeb â'r gwledydd datganoledig eraill o ran polisi amgylcheddol. Ystyriwyd hefyd fod egwyddorion amgylcheddol Cymru yn bwysig i oresgyn heriau polisi mewn perthynas â materion trawsffiniol, pe bai polisi Cymru a'r DU yn wahanol iawn o ran eu hegwyddorion ar ddiogelu'r amgylchedd.

Codwyd hefyd angen clir am aliniad rhwng y pedair gwlad ar egwyddorion a, chyn belled ag y bo modd, targedau. Roedd hyn oherwydd rhyngddibyniaeth yr ecosystem ei hun; mater cymunedau ar y ffin a allai ddisgyn rhwng dau fath gwahanol iawn o ddeddfwriaeth (er enghraifft, y cymunedau yn Nhyndyrn a Brockweir sydd eisoes yn profi dau bolisi iechyd a phrotocolau brys gwahanol pan fyddant yn profi effeithiau hinsawdd); ac effaith meysydd polisi heb eu datganoli sy'n angenrheidiol i symud ymlaen â diogelu'r amgylchedd, ond sydd angen cydweithrediad er mwyn cyflawni momentwm. Mae mater cyllid sy'n dod o Drysorlys EF ac felly'r setliad cyffredinol ar yr amgylchedd a natur yn dibynnu'n rhannol ar flaenoriaethu a thargedau Llywodraeth y DU yn San Steffan, hefyd yn bwynt allweddol i'w nodi o ran aliniad yr egwyddorion.

Heriau a risgiau

Codwyd risgiau sylweddol, megis y gallai egwyddorion gael eu cyflwyno ond nid eu cynnal – yn debygol o arwain at aneffeithiolrwydd a chostau gwastraffus yn y llys, oherwydd gwahanol amserlenni a phrosesau rhwng llunio polisiau a'r gyfraith. Er enghraifft, gellid dwyn achos yn erbyn sefydlu gorsaf bŵer newydd, ond gellid ei gymeradwyo mewn polisi cyn y gellir ystyried yr her gyfreithiol. Mewn rhai ffyrdd, gwelwyd mai cyflwyno egwyddorion yn unig heb unrhyw orfodaeth oedd yr opsiwn gwannaf, oherwydd yr aflonyddwch, y diffyg cefnogaeth a'r dryswch wrth eu cymhwyso y gallai eu hachosi, heb lawer o effaith, buddion na chydymffurfiaeth i'w dangos.

“Gyrrwr arall yw'r argyfwng natur ei hun. Rhaid gwneud yn siŵr bod gan y llywodraeth nid yn unig y gofynion, ond hefyd y pŵer i osod pethau fel targedau bioamrywiaeth i helpu llywodraethau'r dyfodol a'n hunain yn y dyfodol i ymateb i'r argyfwng hwnnw ac i fynd i'r afael ag ef. Ac yna'r trydydd (gyrrwr) yw barn y cyhoedd.” (Cyfwelai)

Mae risg yn Opsiwn 1B y gallai cyflwyno'r egwyddorion yn unig heb ddyletswyddau na gorfodi angenrheidiol gyflwyno'r hyn a ddisgrifiwyd fel swyddogaeth 'gywilyddus' y llywodraeth, lle mae sefydliadau, cyrff cyhoeddus ac yn wir Gweinidogion Cymru yn cael eu beirniadu am beidio â chynnal yr egwyddorion. Gallai hyn yn ei dro fod â risgiau gwleidyddol cysylltiedig os nad oes dyletswydd ar bob gweinidog i gynnal yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a llunio polisiau, gan y gellir defnyddio agweddau tuag at ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn hawdd i bolareiddio pleidleiswyr a ffurfio ymgyrchoedd pwerus mewn pleidiau gwrthbleidiol, gan wneud defnyddio'r Bil Amgylcheddol yn fater 'lletem' yn wleidyddol a fydd yn achosi ffrithiant ac yn peryglu'r cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau a manteision amgylcheddol o'r Bil.

“Mae'n debyg mai'r risg fwyaf i mi yw amseru'r dosbarthiad a'r risg o gyfraith aneglur.” (Cyfwelai)

Cyfleoedd a manteision

Mae cyflwyno egwyddorion amgylcheddol i gyfraith yn cynnig mantais glir, ond anfesuradwy, o ran codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd i Gymru, a budd clir o ran gwelededd. Mae hyn yn glynu wrth yr hyn a ganfuwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth; sef mai dim ond os oes achos cyhoeddus clir dros gefnogaeth a chyfathrebu y gall cyflwyno deddfwriaeth a thargedau amgylcheddol fod yn effeithiol. Awgrymwyd yn gryf y dylid cyflwyno egwyddorion ynghyd ag ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg o wybodaeth anghywir yn effeithio ar farn y cyhoedd pe bai'r egwyddorion yn cael eu 'harfogi' fel mater lletem

neu eu gweld fel camflaenoriaethu o'i gymharu â meysydd polisi eraill fel iechyd neu fynd i'r afael â thlodi.

Budd pellach na ellir ei fesur oedd y cyfle i fod yn benodol i gyd-destun Cymru o ran y broses asesu, atebolrwydd a sancsiynu. Roedd hyn yn adlewyrchu profiad o ddeddfwriaeth flaenorol yr UE, a oedd, er ei bod yn werthfawr wrth sicrhau bod mecanwaith gorfodi a diogelu ar waith ar gyfer yr amgylchedd, ar adegau ddim yn gweddu'n hawdd i raddfa, economi, diwylliant a dulliau gweithdrefnol Cymru. Gwelwyd y cyfle i deilwra'r egwyddorion, y gweithdrefnau a'r canlyniadau a fwriadwyd i gyd-destun Cymru fel cyfle i sicrhau mwy o hyfywedd ac effeithlonrwydd, yn ogystal ag arloesi.

"Mae'r system Gymreig newydd, oherwydd ei bod yn rhan o'n fframweithiau domestig, mewn gwirionedd yn fwy gweladwy i'r cyhoedd neu dylai fod yn fwy gweladwy i'r cyhoedd na system yr UE." (Cyfwelai)

Mae'r egwyddorion yn cynnig y cyfle i roi drafftio mwy manwl gywir ar warchodaethau amgylcheddol nag sydd mewn deddfwriaeth a biliau cysylltiedig presennol (fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd). Y prif fantais a welir gan randdeiliaid, a gadarnheir yn y llenyddiaeth ehangach, yw y bydd set gryfach o egwyddorion amgylcheddol a deddfwriaeth gryfach yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol cryfach drwy fod yn bŵer galluogi i sefydliadau a llunwyr polisi yng Nghymru, er ar sail wirfoddol, gan arwain at fwy o gydymffurfiaeth ac asiantaeth, a mwy o ewyllys wleidyddol gydlynol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl meintoli hyn, ac mae'n werth nodi bod y rhai a oedd mewn sefyllfa debyg yn Lloegr a'r Alban wedi nodi yn y trafodaethau nad oeddent yn yr un modd wedi gallu cynnig canlyniadau cryfach y gellir eu meintoli o gyflwyno deddfwriaeth amgylcheddol gryfach, cliriach a thynnach.

1C) Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion

Ystyriwyd Opsiwn 1C fel estyniad angenrheidiol o Opsiwn 1B. Heb y ddyletswydd, ystyriwyd bod yr egwyddorion yn 'rhetreg' i raddau helaeth ac roedd pryderon y byddai'r egwyddorion yn cael eu dadflaenoriaethu'n rheolaidd mewn achosion fel cymeradwyo polisi ynni neu bolisiau datblygu economaidd (nad oeddent yn sero net neu'n peri risgiau amgylcheddol); neu y byddent yn 'gefnder tlotach' i egwyddorion economaidd a chymdeithasol o fewn y system gynllunio. Fodd bynnag, mae pryderon yn dal i fodoli o ran a fyddai'r canlyniadau'n cael eu gwella'n ddigonol ar sail dyletswydd ar weinidogion yn unig.

Heriau a risgiau

Y brif risg a nodwyd yw a fydd y ddyletswydd ar Weinidogion yn cyflawni cynnydd digon sylweddol o ran effaith a chanlyniadau yn erbyn amcanion y Bil Llywodraethu Amgylcheddol, am y gost ychwanegol y mae'n ei chymryd i'w hymgorffori o fewn llunio polisiau a dyletswyddau gweinidogol. Cododd rhanddeiliaid hefyd y risg na fyddai nodau, cydymffurfiaeth a sancsiynau a gyflwynir o dan y Bil Amgylcheddol newydd, hyd yn oed pe baent yn cael eu cynnal gan ddyletswyddau, mor ddifrifol â system yr UE - ar adeg pan fo angen gorfodi cryfach i gyflymu cynnydd. Mae cwestiwn ynghylch a yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth a'r costau cysylltiedig yn cynhyrchu digon o effaith a gwerth am arian. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn y drafodaeth ar Opsiwn 1B, ystyriwyd bod y risgiau gwleidyddol o gyflwyno'r egwyddorion ar eu pen eu hunain heb unrhyw ddyletswyddau na gorfodi, yn opsiwn gwaeth na busnes fel arfer, felly mae'n werth nodi bod dyletswyddau'n cael eu hystyried yn hanfodol i osgoi cyfraith 'wlanog' neu 'gywilyddus' heb unrhyw botensial i'w gorfodi (i ddyfynnu'n uniongyrchol).

Er bod hyn yn cael ei ddehongli'n wahanol mewn gwledydd datganoledig ac o fewn awdurdodau maerol newydd, mae risg wleidyddol y bydd yr agenda twf bresennol gan y Trysorlys, sy'n gyffredin ar lefel uchaf Llafur, yn effeithio ar wneud penderfyniadau gwleidyddol a chynnal yr egwyddorion ar lefel y gwledydd datganoledig mewn polisi. Mae hyn yn risg yn arbennig o ran cyfaddawdau mewn polisi a gwneud penderfyniadau ynghylch adeiladu tai neu ddatblygu trefi newydd, er enghraifft (ehangu meysydd awyr yn Lloegr yw cyfaddawd amlwg arall a grybwyllir). Nid oes modd mesur y risg hon ond gallai arwain at aneffeithlonrwydd wrth lunio polisiau ar gost i adnoddau'r gwasanaeth sifil a swyddfeydd gweinidogol, trwy gynydd mewn sefyllfaoedd lle nad yw gweinidogion yn llwyddo, achosion o bleidleisiau crog, a/neu gyfaddawdau gwleidyddol rhwng yr egwyddorion amgylcheddol a meysydd polisi eraill.

Un o'r pryderon mwyaf gan randdeiliaid ynghylch Opsiwn 1C oedd y byddai'r egwyddorion yn cael eu cymhwyso ar y 'lefel uchaf' mewn llunio polisiau datganoledig, a'u cynnal gan weinidogion, ond heb unrhyw gefnogaeth gynyddol i sectorau a rhannau o'r economi i addasu i'r egwyddorion newydd yn y gyfraith. Amlygwyd rhai sectorau fel amaethyddiaeth a threftadaeth fel rhai sydd mewn perygl penodol os cymhwysir egwyddorion a dyletswyddau, ond ni ddarperir unrhyw gyllid na chefnogaeth i gefnogi cydymffurfiaeth. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn arwain at risg economaidd i rai cymunedau ffermio, sy'n gymunedau Cymraeg yn bennaf, oherwydd eu bod yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth neu bolisiau newydd, pan allai'r un llunio polisiau yn ei dro gyfyngu ar eu gallu i wneud defnydd economaidd o'u tir eu hunain.

Cododd y grŵp lleiafrifol uchel eu llais, er yn fach iawn, o randdeiliaid a oedd yn fwy gwrthwynebus i gyflwyno unrhyw opsiwn o'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol, bryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth o'r heriau o gymodi arferion amaethyddol, y system fwyd, a phwysau ar ffermio, â nodau cynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Codwyd prynu ffermydd gan fusnesau (gan gynnwys o'r tu allan i Gymru) at ddibenion ffermio annhraddodiadol, a phrofiad cynllun ffermio cynaliadwy 2024 (SFS) fel enghreifftiau o ddatgysylltiad canfyddedig rhwng Llywodraeth Cymru a phrofiad ffermwyr sy'n ceisio cynnal bywoliaeth a ffordd o fyw ddiwylliannol. Canfyddir bod yr effaith ar ffermwyr yn effeithio'n arbennig ar gymunedau Cymraeg oherwydd y gorgyffwrdd cryf rhwng siaradwyr Cymraeg a chymunedau gwledig a ffermio, sy'n ystyriaeth bwysig o ran sut i gyfathrebu a hyrwyddo'r Bil a rheoli, dilyniannu neu raddio ei weithrediad mewn ymarfer gweinidogol.

Mae cost bellach na ellir ei fesur o ran pa mor bell - ac am ba gost adnoddau - y gellid ac y byddai angen cynnal neu atgyfnerthu'r egwyddorion gan lunwyr polisi lleol, yn enwedig gweision sifil mewn llywodraeth leol. Nododd y profiad o gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a godwyd dro ar ôl tro yn ystod y cyfweiliadau, y gallai llawer o swyddogion lleol a chynghorau lleol beidio â chydymffurfio oherwydd adnoddau prin; dryswch ynghylch gweithredu'r egwyddorion; neu gyfaddawdu â materion polisi lleol eraill a oedd yn flaenoriaeth i'r etholwyr. Yn ogystal, codwyd risg y byddai cynnal y dyletswyddau'n dod i ben ar lefel leol, oherwydd cyfansoddiad gwleidyddol aelodau mewn rhai awdurdodau lleol.

"Yn sicr bu ansicrwydd a phryder oherwydd rydyn ni'n gwybod ein bod ni wedi ymrwmo i dargedau ac ymrwymadau ac eto rydych chi'n gwybod beth fyddwn ni'n ei wneud ar lefel genedlaethol i wireddu hynny. Ond dw i'n meddwl mai un o'r risgiau o oedi yw bod pobl yn mynd yn sinigaidd amdano ac yn dweud, wel, dydyn ni byth yn mynd i gyrraedd hynna, ydyn ni?" (Cyfwelai)

Cyfleoedd a manteision

Ni ellir mesur gwerth annibyniaeth ac ymreolaeth – a ystyrir yn hollbwysig yn y ffordd y gall Cymru arwain ei chynnydd ei hun ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth – ond roedd yn fantais sylfaenol a nodwyd gan randdeiliaid wrth asesu'r Bil. Cyfeiriwyd at hyn yn aml fel y gallu i fynd 'ymhellach, yn gyflymach' neu i fod yn 'nodedig' o ran arwain maes diogelu'r amgylchedd ar gyfer y DU trwy gymhwyso'r egwyddorion wrth lunio polisiau. Ystyriwyd hyn yn gynyddol bwysig o ystyried y setliadau datganoli ledled Lloegr, gyda'r ymdeimlad bod angen i Gymru fod yn defnyddio 'ei holl bwerau' ac y byddai peidio â chael modd o gymhwyso'r egwyddorion yn edrych fel cyfle a gollwyd i Gymru arfer ei phwerau datganoledig.

Felly, gwelwyd mai prif fudd anfesuradwy Opsiwn 1C oedd gwireddu'r Bil a'i egwyddorion o fewn llunio polisïau yng Nghymru, gyda'r cryfder ychwanegol a roddodd hyn i wireddu effaith wirioneddol o'r Bil. Ni ddisgrifiwyd hyn yn unig o ran effaith ar ganlyniadau amgylcheddol; gwelwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gryfhau annibyniaeth ac ymreolaeth Cymru wrth symud cyfraith amgylcheddol, a ystyriwyd yn hollbwysig o ran cydbwysedd gwleidyddol y pedair gwlad yn y DU, ac o ran sut y gallai Cymru arwain ei chynnydd ei hun ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

Nodwyd hefyd fod potensial Opsiwn 1C i gyflymu cynnydd pendant tuag at y targedau sero net, gyda chanlyniadau amgylcheddol cadarnhaol cysylltiedig yn ogystal â chanlyniadau gwleidyddol o ran momentwm, yn fantais sylweddol. Mae'r rhain yn heriol i'w mesur (effaith mynd 'ymhellach, yn gyflymach'), ond fe'u gwelwyd fel rhan annatod o gynnal gweithredu cydlynol ar yr amgylchedd ac osgoi dadflaenoriaethu cyfraith a pholisi amgylcheddol oherwydd amheuaeth. Roedd thema ailadroddus nad oedd y targedau amgylcheddol cyfredol ar gyfer Cymru, gan gynnwys y targed sero net, yn debygol o gael eu cyrraedd oherwydd arafu gweithredu ers gadael yr UE ac ymrwymiad anghyson ar ran llywodraethau, ond nid oedd rhanddeiliaid yn credu y byddai'n gefnogol i weithredu mwy, nac y byddai o werth eu gohirio.

Mantais ganfyddedig bellach na ellir ei fesur yw'r potensial a nodwyd gan rhanddeiliaid ar gyfer mwy o gydnabyddiaeth wleidyddol a/neu gefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer diogelu'r amgylchedd ac adfer natur. Nid yw'r fantais hon yn cael ei chadarnhau'n hawdd yn y llenyddiaeth bresennol, gan fod tystiolaeth arall yn dangos y gall cyflwyno deddfwriaeth nodedig gan un blaid arwain at 'rolïo'n ôl' ddeddfwriaeth gan bleidiau eraill yn andwyol, oherwydd natur gynyddol bolareiddiol materion amgylcheddol mewn etholiadau, os bydd y weinyddiaeth yn newid yn ddramatig. Fodd bynnag, gwnaed cymariaethau rhwng y Bil a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran y ffordd yr oedd y Ddeddf honno wedi codi mater datblygu cynaliadwy ymhlith ymwybyddiaeth wleidyddol a chyhoeddus yng Nghymru.

Mae cwestiynau ynghylch blaenoriaeth y Bil newydd o'i gymharu â deddfwriaeth nodedig arall sydd â rhywfaint o orgyffwrdd – fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – wedi'u trafod gyda Llywodraeth Cymru, gyda chydabyddiaeth bod angen canllawiau a sylw manwl i ffyrdd o weithio gyda meysydd cysylltiedig o ddeddfwriaeth. Nododd rhanddeiliaid yn bennaf y dylai'r Bil fod yn ddeddfwriaeth ddisodli ac 'ymbarél' y mae nodau eraill (megis y nodau cynaliadwyedd yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn dod oddi tani. Fodd bynnag, heriwyd y farn hon gan rai rhanddeiliaid a oedd yn gweld

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel un fwy 'cyfannol'; hyd yn oed os nad oedd yn cael ei gorfodi. Mae mewnwelediadau gwerthfawr o gyflwyno deddfau a deddfwriaeth flaenorol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion, os dewisir Opsiwn 3, osod dyletswydd ar weinidogion ynghylch ymgorffori egwyddorion a deddfwriaeth ym mhob briff gweinidogol; a phwysigrwydd cyd-fynd â meysydd polisi allweddol eraill i ymgorffori'r egwyddorion a'r targedau bioamrywiaeth, er enghraifft ym Mholisi Cwricwlwm / Addysg; neu mewn deddfwriaeth cyflogwyr.

Budd pellach na ellir ei fesur yw'r potensial ar gyfer cynghreiriau dwyochrog gyda gwledydd sydd hefyd yn canolbwyntio ar amddiffyniadau amgylcheddol cryfach, datblygu cynaliadwy a thwf gwyrdd, a bioamrywiaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o alinio yn y dyfodol neu hyd yn oed ailymuno â'r UE.

"Mae'n bwysig o safbwynt perchnogaeth ac arweinyddiaeth genedlaethol, yn enwedig o ran Cymru yn meddwl am les cenedlaethau'r dyfodol. Mae yna hefyd y cyfle i ganiatáu'r math yna o arloesedd, na fyddai'n digwydd pe bai pawb yn dilyn beth bynnag yr oedd Llywodraeth y DU yn ei wneud." - (Cyfwelai)

Opsiwn posibl 1C+) - Estyn y ddyletswydd i fod yn berthnasol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Posiblirwydd pellach, a archwiliwyd o fewn yr opsiwn hwn, oedd ymestyn y ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol i Gyfoeth Naturiol Cymru. Gallai hyn wireddu manteision pellach o ystyried eu cyfrifoldeb polisi sylweddol dros yr Amgylchedd yng Nghymru. Gallai hefyd helpu i hybu cysondeb wrth lunio polisiâu drwy sicrhau bod y ddau brif sefydliad yng Nghymru sy'n ymwneud â llunio polisiâu strategol amgylcheddol (Gweinidogion Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru) yn ystyried yr un egwyddorion amgylcheddol yn yr un ffordd.

1D) Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Gweinidogion ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol

Heriau a risgiau

Mae ymestyn y ddyletswydd i awdurdodau a chyrff cyhoeddus yn dod â chwe gwaith yn fwy o gostau i gyflwyno'r deddfwriaeth ond serch hynny, dyma'r opsiwn a groesawyd fwyaf gan y rhan fwyaf o randdeiliaid.

Cafodd hyn ei gymeradwyo, er gyda phryderon a gwrthdaro gwirioneddol gan randdeiliaid. Cododd rhanddeiliaid yn gyson y byddai unrhyw beth nad oedd yn cael ei ariannu yn cael ei ystyried yn 'gost' gan gyrff cyhoeddus - hyd yn oed pe byddent yn cydnabod ac yn cefnogi'r egwyddor. Nodwyd yn gyson bod cost anodd ei meintoli yn

rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, gan gynyddu effaith adnoddau, amser, a gweithredu egwyddorion y Bil. Nid yn unig y gwelwyd hyn fel cost adrodd a chydymffurfiaeth, ond hefyd fel cwestiwn o wella effeithiolrwydd y Bil; pe bai'r Bil yn brin o adnoddau o ran y gofyniad ar gyrff cyhoeddus, byddai'n cyfyngu'n sylweddol ar effeithiolrwydd yr hyn y byddent yn gallu ei wneud ar lawr gwlad. Ystyriwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn benodol gan randdeiliaid fel rhai sydd 'yn ei chanol hi' o ran cyflawni effaith wirioneddol ar ddiogelu'r amgylchedd trwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth fel y Bil.

Er gwaethaf y pryderon ynghylch adnoddau, cydymffurfiaeth ychwanegol a chyfrifoldebau, croesawodd mwyafrif y rhanddeiliaid y neges gref a'r strwythur gorfodadwy ar gyfer cyrff cyhoeddus a phartneriaid cyflawni lleol o fewn Opsiwn 1D. Roedd pwysigrwydd cydnabod cyrff cyhoeddus fel rhai hanfodol i gyflawni cyfraith amgylcheddol a diogelu ac adfer bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o pam y gwelwyd Opsiwn 1D fel un a ffefrir gan y mwyafrif helaeth o randdeiliaid; os nad oedd y ddyletswydd yn berthnasol i gyrff cyhoeddus, roedd yn awgrymu diffyg cydnabyddiaeth neu ymleiddio eu rôl a'u harbenigedd a ystyriwyd yn ddirymuso.

Roedd y manteision na ellir eu mesur a nodwyd yn cynnwys bod y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus yn golygu neges gref a strwythur gorfodadwy i awdurdodau cyhoeddus a phartneriaid cyflawni lleol. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch rhannu cyfrifoldeb dros ddiogelu'r amgylchedd, tra'n ofalus ynghylch eu lefelau adnoddau. Nodwyd cyfle sylweddol ar gyfer arloesi (a ariennir) gan gyrff cyhoeddus a'r corff llywodraethu - ac roedd rhanddeiliaid o'r farn, pe bai'n cael ei gefnogi a'i adnoddau'n dda, y gallai gyflwyno enillion economaidd pendant o ran ymchwil a datblygu, a buddsoddiad cyhoeddus-preifat. Fodd bynnag, mae'r rhain yn anodd iawn i'w mesur, a dim ond barn gymharol y gellir ei gweld o astudiaethau achos datganoledig ynysig eraill o ran sut y gall deddfwriaeth gryfach roi mandad ar gyfer partneriaethau uchelgeisiol a sicrhau cyllid gan gyllidwyr Ymchwil a Datblygu fel Cynghorau Ymchwil y DU a'r gymuned ariannu ryngwladol.

Gwelodd cyfran fach o randdeiliaid gyfleoedd hefyd i gydweithio ar draws y gwledydd datganoledig, yn enwedig yr Alban, gan fod eisiau mynd 'ymhellach, yn gyflymach' hefyd, wrth fynd ar drywydd arloesedd, rhagoriaeth a chynnydd tuag at nodau amgylcheddol. Honnwyd bod hyn â photensial ar gyfer manteision ehangach o ran cydweithredu a chyd-ddibyniaeth mewn meysydd polisi eraill a rhannau o'r economi (megis ynni glân, sgiliau, neu dechnoleg) sy'n anodd eu mesur ond serch hynny, gallent ddod â manteision anuniongyrchol.

Dadansoddiad cost o egwyddorion amgylcheddol

Tabl un: opsiwn deddfwriaethol, disgrifiad o gostau a dull meintoli – egwyddorion amgylcheddol

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
Opsiwn 1A - Dim ymyrraeth ddeddfwriaethol, er noder bod rhai o'r egwyddorion eisoes yn rhan o ddeddfwriaeth Gymreig bresennol	Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn	D/B
Opsiwn 1B - Egwyddorion wedi'u hailgyflwyno i lyfr statudau Cymru, ond dim dyletswydd ar Weinidogion Cymru na chyrff cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r egwyddorion	Angen amser gwas sifil i ddatblygu a gweithredu'r polisi egwyddorion amgylcheddol Bydd angen amser hefyd i rai gweision sifil ymgylfarwyddo â'r egwyddorion, e.e. drwy ddarllen y deunydd addysgol	Meintoli datblygu a gweithredu deddfwriaethol yn seiliedig ar asesiad Llywodraeth Cymru y byddai angen tri aelod o staff Gradd 7 FTE (gyda chyflog blyneddol o £97,317⁷⁶) dros gyfnod o ddwy flynedd Ni wnaed unrhyw ymgais i fesur costau ymgylfarwyddo ar y sail bod nifer y gweision sifil sy'n gorfod ymgymryd â'r broses ymgylfarwyddo a'r amser y byddai'n ei gymryd i wneud hynny yn anhysbys
Opsiwn 1C - Yn gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i roi	Angen amser gwas sifil i ddatblygu a gweithredu polisi egwyddorion	Gweler y cyfrifiad uchod ar gyfer Opsiwn C

⁷⁶ Llywodraeth Cymru (2025) 'Costau Cyflog Cyfartalog 2023-24'

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
sylw dyledus i'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth	amgylcheddol, fel gydag Opsiwn 2 Mae angen amser hefyd i ymgylfarwyddo â'r egwyddorion, fel gydag Opsiwn B	
	Adnoddau addysgol wedi'u datblygu i sicrhau y gall adrannau'r llywodraeth ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd	Rydym wedi defnyddio amcangyfrif o'r amser cyfartalog ar gyfer datblygu e-adnoddau ac offer e-ddysgu fel cyfanswm o 73 awr ⁷⁷ , ac rydym yn cymhwyso cyflog gwas sifil Gradd 7 iddo Byddai angen i staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â llunio a datblygu polisïau fod yn gyfarwydd â'r adnoddau i sicrhau bod gweinidogion yn rhoi'r egwyddorion ar waith. Fodd bynnag, nid oes cynllun manwl ar gyfer gweithredu eto, sy'n golygu nad oes ffigur ar gyfer nifer y staff y byddai hyn yn ei olygu, na faint o'u hamser y byddai ei angen. Felly, mae wedi'i ystyried yn gost na ellir ei fesur

⁷⁷ Cymdeithas Datblygu Talent (2021) *How Long Does It Take to Develop Training? New Question, New Answers.*

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintiol
		Rydym hefyd yn cymryd yn ganiataol y bydd angen cyfieithu'r adnoddau. Rydym wedi amcangyfrif y costau cyfieithu sy'n berthnasol i'r adnoddau addysgol gan ddefnyddio canllawiau cost a ddarparwyd gan yr Uned Gyfieithu. Rydym yn cymryd yn ganiataol na fyddai'r adnoddau'n ddeddfwriaethol, ac y byddent tua 8,500 o eiriau o hyd (yn seiliedig ar rai canllawiau drafft a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru). Mae hyn yn rhoi'r amcangyfrif cost ar £1,150, wrth ystyried amser staff y Prif Swyddog Gweithredol o 5 diwrnod sydd eu hangen i gyfieithu un adroddiad o'r hyd hwn. Rydym yn cymryd yn ganiataol y byddai pum adroddiad ar wahân yn cael eu cyhoeddi
	Gweinidogion (a'u hadrannau) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.	Er ei bod hi'n anodd mesur y costau hyn, rydym wedi defnyddio costau dirprwyol o adroddiad llywodraeth blaenorol sy'n amcangyfrif bod costau blynyddol y sector cyhoeddus o gydymffurfio â chynllun effeithlonrwydd ynni yn

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintiol
		£12,704 (ym mhrisiau 2025)⁷⁸ Mae'r gost hon yn cael ei lluosu i gwmpasu'r wyth Prif Grŵp Gwariant gwahanol yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau Gweinidogol, ac mae'n digwydd bob blwyddyn ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei deddfu Dewiswyd y dirprwy hwn oherwydd ei fod yn costio gweithgaredd a allai gyd-fynd â chymhwyso'r egwyddorion. Sef, casglu data amgylcheddol, dadansoddi gwybodaeth amgylcheddol a gweithio gyda rheoleiddiwr amgylcheddol. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y dirprwy yn y pen draw yn ymwneud â chynllun penodol a gall gweithgareddau penodol fod yn wahanol iawn i gymhwyso'r egwyddorion i ddeddfwriaeth benodol Noder bod diwygio'r Senedd yn cynyddu nifer y Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi o 12 i 17 o 2026 (er o bosibl hyd at 19 gyda chymeradwyaeth

⁷⁸ Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2017) 'Assessment of costs to UK participants of compliance with Phase 2 of the CRC Energy Efficiency Scheme'

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintiol
		y Senedd) ⁷⁹ . Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd mwy o weinidogion yn cael eu penodi - felly, mae'r dybiaeth CBA yn amcangyfrif costau ar sail cyfluniad y Senedd heddiw
Opsiwn 1C+ - Yn gosod dyletswydd ar weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisiau a'u deddfwriaeth. Hefyd yn gosod dyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru	Yn golygu'r un gost ag Opsiwn C. Hefyd yn cynnwys cost ychwanegol o un corff cyhoeddus yn ofynnol gyda'r ddeddfwriaeth (gweler isod yn Opsiwn D)	Gweler y cyfrifiad uchod ar gyfer Opsiwn C, a'r cyfrifiad isod ar gyfer Opsiwn D, fodd bynnag gydag un awdurdod cyhoeddus yn unig yn wynebu costau cydymffurfio (yn hytrach na 67
Opsiwn 1D - Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i roi ystyriaeth i'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisiau a'u deddfwriaeth	Yn golygu'r un costau ag Opsiwn C Fodd bynnag, mae cost ychwanegol yn gysylltiedig â'r gofyniad i gyrff cyhoeddus eraill gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn	Rydym wedi tybio bod costau cydymffurfio o £12,704 yn berthnasol i 67 o sefydliadau⁸⁰ i amcangyfrif yn fras y cyfanswm cost ychwanegol y flwyddyn Fel gydag Opsiwn C, byddai angen i staff llunio polisiau fod yn gyfarwydd ag adnoddau addysgol er mwyn sicrhau bod

⁷⁹ Llywodraeth Cymru (2024) *Diwygio'r Senedd*, <https://www.llyw.cymru/diwygior-senedd>

⁸⁰ Yn seiliedig ar Adran 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Defnyddiwyd y ffigur 67 yn hytrach na'r 69 sefydliad a restrir er mwyn peidio â chyfrif Gweinidogion Cymru ddwywaith.

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
	awgrymu bod 67 o sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi'u cynnwys yn estyniad y dyletswyddau yn Opsiwn D	egwyddorion yn cael eu cymhwyso. Ac yn yr un modd, nid oes sail i ddeall nifer y staff y byddai hyn yn ei olygu, na faint o'u hamser y byddai ei angen. Felly, fe'i hystyriwyd yn gost na ellir ei fesur

Tabl dau: Crynodeb o opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost - egwyddorion

	Opsiwn 1A (BFA)	Opsiwn 1B	Opsiwn 1C	Opsiwn 1C+	Opsiwn 1D
Disgrifiad	Dim deddfwriaeth wedi'i datblygu	Deddfwriaeth egwyddorion	Deddfwriaeth + Dyletswydd ar Weinidogion Cymru	Deddfwriaeth + Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC	Deddfwriaeth + Dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus
Costau meintiol / ariannol	D/B	Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth	Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth Adnoddau addysgol ar gyfer hyfforddiant a chyfieithu	Amser gweision sifil i datblygu deddfwriaeth Adnoddau addysgol ar gyfer hyfforddiant a chyfieithu	Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth Adnoddau addysgol ar gyfer hyfforddiant a chyfieithu

	Opsiwn 1A (BFA)	Opsiwn 1B	Opsiwn1C	Opsiwn 1C+	Opsiwn 1D
			Costau cydymffurfio gweinidogol	Costau cydymffurfio gweinidogol Costau cydymffurfio awdurdodau cyhoeddus	Costau cydymffurfio gweinidogol Costau cydymffurfio awdurdodau cyhoeddus
Ffigur cost (o'i gymharu â BFA) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)⁸¹ ⁸²	-	£0.574m	£1.36m	£1.45m	£7.83m
Ffigur cost (absoliwt) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)	-	£0.574m	£1.36m	£1.45m	£7.83m

2) Corff llywodraethu

Barn rhanddeiliaid

Barn y rhan fwyaf o randdeiliaid oedd na allai'r Bil lwyddo heb gyflwyno corff llywodraethu pwrpasol. Gwelwyd pwysigrwydd hyn yn bennaf fel mecanwaith i ddwyn cyrff cyhoeddus, gweinidogion a'r llywodraeth i gyfrif ac i greu proses o orfodi'r Bil, ei egwyddorion priodol a'r nodau a'r fframwaith bioamrywiaeth. Cyflwynir

⁸¹ Defnyddir cyfradd ddisgownt i addasu gwerthoedd ariannol y dyfodol i werth presennol. Pwrpas y gyfradd ddisgownt yw adlewyrchu sut mae pobl yn gweld gwerth arian dros amser, lle'n gyffredinol mae'n well ganddyn nhw dderbyn arian heddiw yn hytrach na'r un swm rywbryd yn y dyfodol.

⁸² Mynegir y ffigurau cost (1) o ran pa mor bell y maent yn mynd y tu hwnt i'r costau a achosir yn yr Opsiwn Busnes Fel Arfer ('Ffigur cost (o'i gymharu â Busnes Fel Arfer)') a (2) y costau sy'n sefyll heb dynnu'r hyn a achosir yn y Busnes Fel Arfer ('Ffigur cost (absoliwt)'). Mae'r cofnodion cost ar gyfer y rhesi hyn yr un fath, os nad oes unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Busnes Fel Arfer.

isod y dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid ar yr opsiynau ar gyfer llywodraethu diogelu'r amgylchedd yng Nghymru.

2A) Busnes fel arfer

Ni welwyd bod yr opsiwn o fusnes fel arfer a chynnal trefniadau'r Asesydd Dros Dro yn hyfyw ar gyfer gorfodi unrhyw un o'r pedwar opsiwn (A-D) o'r Bil Amgylcheddol a Llywodraethu newydd. Yn gyntaf, roedd llawer yn ystyried bod y trefniant presennol gyda'r Asesydd Dros Dro yn dal pwerau ymchwilio yn unig heb atebolrwydd a phwerau gorfodi, yn fwy aneffeithiol nag yn ddefnyddiol, trwy greu baich 'adolygu' heb y gallu i orfodi cydymffurfiaeth. Cafodd gwaith yr Asesydd Dros Dro ganmoliaeth uchel (gweler isod), ond teimlai rhanddeiliaid ei fod yn creu gwaith heb orfodi cydymffurfiaeth.

Yn ail, codwyd costau na ellir eu mesur o ran niferoedd cynyddol o achosion llys unigol neu heriau i gyrff cyhoeddus, tirfeddianwyr neu'r llywodraeth, os gadewir y trefniant Asesydd Dros Dro yn ei le yn unig. Ystyriwyd y risg hon yn real pe na bai rheoleiddio cryfach ond hefyd yn amhosibl ei rhagweld o ran pa mor begynol neu dameidiog y gallai system y cwynwyr neu'r heriau ddod.

Codwyd rhai pryderon gan draean o'r rhanddeiliaid ynghylch yr angen am gorff arall, o ran gwelededd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn corff cyhoeddus arall yn ystod y cyfnod anodd hwn o ran cyllid ariannol, ac, yn yr un modd, y risg o ddryswch ynghylch sut y bydd cyfrifoldebau'r corff yn gorgyffwrdd â chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus presennol, yn fwyaf cyffredin Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n amlwg bod angen gwahaniaeth clir rhwng swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff presennol a swyddogaethau'r corff newydd.

Dylid nodi bod rôl a gwaith yr Asesydd Dros Dro wedi'i ganmol serch hynny (roedd rhai yn gweld hyn fel 'BFA', er nad oes unrhyw warant y byddai hyn yn cael ei gynnal o dan weinyddiaethau neu drefniadau yn y dyfodol pe na bai unrhyw gorff na chyfraith arall yn cael ei sefydlu). Fodd bynnag, roedd yr holl gyfweleion yn cydnabod bod y trefniadau presennol a rôl yr Asesydd Dros Dro yn ddi-rym i raddau helaeth i effeithio ar dargedau diogelu'r amgylchedd, sero net a chynaliadwyedd Cymru o dan Ddeddfau cyfredol fel Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2B) Darparu swyddogaethau i gyrff presennol

Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod yn rhaid i unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol fod yn un corff cyhoeddus, nid yn swyddogaethau wedi'u

dosbarthu ar draws cyrff cyhoeddus presennol. Roedd hyn oherwydd yr angen i swyddogaethau gorfodi'r corff fod yn ddiduedd ac yn annibynnol, gyda phwerau dosbarthu yn cael eu gweld fel rhywbeth sy'n cymhlethu'r syniad o annibyniaeth a'r siawns y byddai awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyflawni ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn rheoleiddio eu hunain ar rai materion, a fyddai'n gwneud yr agwedd orfodi yn wan ac yn agored i graffu.

Er gwaethaf y farn unfrydol gan un corff cyhoeddus, mae'r asesiad hwn yn cydnabod y gallai meysydd sylweddol o orgyffwrdd neu hyd yn oed wrthbwysu fodoli rhwng y Bil newydd a Deddfau a deddfwriaeth eraill – ac felly mae risgiau o ddyblygu yn bodoli yn swyddogaeth gwahanol gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni, er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, neu'r Cynlluniau Ffermio Cynaliadwy. Byddai Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, o leiaf, yn cefnogi lleihau dyblygu a sicrhau cyfatebolrwydd rôl a dosbarthiad pwerau ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus. Dadleuwyd yn gryf fod gwahaniaethau sylweddol rhwng blaenoriaeth a phenodoldeb diogelu'r amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth a fyddai'n cael ei orfodi o dan y Bil hwn, a gwaith ehangach Deddfau cysylltiedig – ac y byddai dosbarthu'r pwerau rhwng gwahanol gyrff yn gwanhau'r penodolrwydd hwn a gorfodi'r Bil o'i gymharu â deddfwriaeth neu Ddeddfau eraill.

“Cwestiynwyd a oedd Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rôl a allai ymgymryd â diogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Ac fe wnes i ddadlau'n gryf yn erbyn hynny ar y pryd oherwydd rydw i'n credu... ei fod yn disodli rôl bwysig iawn [a oedd] gan Gomisiwn yr UE o ran dwyn y llywodraeth i gyfrif.”

Nid yw diogelu'r amgylchedd yr un peth â lles cenedlaethau'r dyfodol, sydd, yn fy marn i, yn ymwneud â chynaliadwyedd. Yna, gwnaed y ddadl dros gorff llywodraethu amgylcheddol ar wahân, ond mae'n rhaid i chi gydbwysu budd hynny yn erbyn y gost economaidd, sy'n anodd iawn.” - Cyfwelai

Fodd bynnag, gwelodd rhanddeiliaid werth ym mhotensial swyddogaeth gynghori i'r corff cyhoeddus (sut i gyflawni egwyddorion amgylcheddol a bioamrywiaeth), nad oedd yn cael ei ystyried yn rôl addas i'r corff. Teimlai'r holl randdeiliaid y dylid cryfhau hyn yn ecosystem cyflawni'r Bil Amgylcheddol yn gyffredinol (gan gynnwys egwyddorion, llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth) ond y dylid dosbarthu'r swyddogaeth gynghori ar draws cyrff eraill gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.

2C) Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol pwrpasol

Mae asesiad yn dangos bod y manteision canfyddedig ac anfesuradwy o un corff llywodraethu amgylcheddol pwrpasol yn gorbwysu'r risgiau a'r costau anfesuradwy;

fodd bynnag, mae cyfyngiadau blaenoriaethau'r corff a sut y dylid ei strwythuro hefyd yn ystyriaethau pwysig.

Heriau a risgiau

Y brif risg, heblaw am sut y byddai cost sefydlu un corff cyhoeddus yn cael ei chraffu yn yr hinsawdd ariannol hon, oedd y risg o sicrhau annibyniaeth glir i'r corff. Y brif gost anfesuradwy o gyflwyno un corff cyhoeddus oedd pa mor hir y byddai'n ei gymryd i'r corff sefydlu a gweithredu o'i gymharu â'r amserlen effaith. I ba raddau y byddai'r corff cyhoeddus sengl yn adeiladu ar waddol gwaith Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (IEPAW), a pha mor gyflym y gallai ddechrau gorfodi'r egwyddorion a'r nodau o dan y Bil newydd, oedd y ddau bryder cryfaf o ran costau anodd eu meintoli.

Mae cost bellach bosib, nad oes modd ei mesur, yn deillio o'r risg o fiwrocratiaeth ychwanegol a baich amser, os yw swyddogaethau'r corff llywodraethu amgylcheddol yn ymestyn neu'n ychwanegu ffrithiant at brosesau sydd eisoes yn araf. Er enghraifft, y risg y bydd ymchwiliadau a gorfodi gan y corff llywodraethu amgylcheddol yn dod yn fodd arall o herio'r system gynllunio sydd eisoes yn heriol iawn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bwriad penodol i'r corff beidio â herio na diystyru penderfyniadau cynllunio presennol.

Mae risg hefyd na ellir bodloni'r gofynion ychwanegol ar gyrff cyhoeddus (megis Cyfoeth Naturiol Cymru) o'r un corff cyhoeddus newydd yn hawdd oherwydd adnoddau gwael - gan eu gwneud yn agored i graffu ar beidio â chydymffurfio, pan allai hyn fod oherwydd cynhwysedd a chyfyngiadau ariannol, nid ymrwymiad i'r egwyddorion neu'r nodau.

Ar ben hynny, mae'r corff yn naturiol yn canolbwyntio ar oruchwylio cydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus eraill â chyfraith amgylcheddol ac effeithiolrwydd y gyfraith honno. Fodd bynnag, gallai'r annigonolrwydd canfyddedig o ddeddfwriaeth a rheoleiddio cysylltiedig neu wedi'u halinio yn y sector preifat (rheoleiddio ynni a gwastraff, er enghraifft), beri risg i effeithiolrwydd y corff a'r Bil. Felly, nodwyd manteision canlyniadol yn deillio o gyflwyno'r corff, os caiff ei strwythuro'n ofalus i weithio'n dda gyda'r rhai sy'n rheoleiddio'r sector preifat. Cydnabu rhanddeiliaid y budd posibl o gorff llywodraethu pwrpasol ar effeithiolrwydd sefydliadau.

"Byddem yn sicr o fod yn agored i ymchwiliad gan gorff llywodraethu amgylcheddol ynghylch a oedd yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n briodol, ac unwaith eto, mae hynny'n risg i'r sefydliad. Ar yr un pryd, rydw i'n credu ei fod yn gwneud cyfrifoldeb sefydliad fel ni i

wneud gwaith yn llawer mwy effeithiol. A chyda llawer mwy o effaith nag sydd ganddo ar hyn o bryd.” - Cyfwelai

Cyfleoedd a manteision

Y brif fantais o gyflwyno'r un corff cyhoeddus yw'r cyfle i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, oherwydd dod â'r broses yn 'agosach at adref', yn fwy gweladwy, ac yn cael ei deimlo'n fwy gan gyrff a Gweinidogion. Mantis sylweddol arall allai fod lleihau'r amser i ddatrys o'i gymharu â'r hyn a oedd o dan fodel yr UE, a ddisgrifiwyd fel un a oedd wedi bod yn 'bell' ac yn 'ymgynghorol' iawn ac, o ganlyniad, yn aneffeithlon ac yn gostus iawn, yn enwedig ar gyfer achosion hirhoedlog a'r galw am amser cydymffurfio. Gwelwyd bod gan gorff cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru y cyfle i weithio gyda mwy o ystywythder a chyflymder, gan leihau amser fesul achos neu gŵyn yn ei dro. Mae'n anodd amcangyfrif yr arbediad cost-amser hwn ond mae'n werth ei ystyried ar gyfer y cost-budd hirdymor, y gellir ei fesur yn well ar gyfer cyflwyno'r corff (gweler yr adran ar 'Ddadansoddiad Cost-Budd', isod).

“Byddai'r corff llywodraethu yn eistedd mewn lle eithaf unig, uwchlaw pob corff cyhoeddus arall, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Llywodraeth Cymru. A dyna lle y dylai fod. Mae fel gwarchodwr y gwarchodwyr.” -Cyfwelai

Budd pellach na ellir ei fesur a nodwyd drwy gyfweiliadau yw'r cyfle i 'ddyblu' ymdrechion tuag at ganlyniadau amgylcheddol cryfach, lle mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau eisoes i fonitro neu arwain cynnydd. Er enghraifft, lle mae cyrff cyhoeddus â chylch gwaith presennol i adfer neu amddiffyn bioamrywiaeth o fewn eu strategaeth a'u llywodraethu, gallai cyflwyno nodau bioamrywiaeth cenedlaethol ddarparu mandad pellach i gefnogi neu atgyfnerthu. Gall corff cyhoeddus cenedlaethol hefyd wella effeithiolrwydd cydymffurfiaeth gan awdurdodau lleol a chyrff lleol, oherwydd ei fod yn fwy gweladwy a diriaethol na phroses yr UE.

Un o fanteision hollbwysig un corff cyhoeddus yw ei fod yn rhoi'r un hawliau i ddinasyddion Cymru â dinasyddion eraill yn y DU i roi gwybod am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, neu bryderon ynghylch effeithiolrwydd y gyfraith. Mae hyn yn gwbl anfesuradwy fel budd gwleidyddol a hawliau dynol, ond serch hynny mae'n arwyddocaol i gyflawni telerau datganoli Cymru, ac i gydraddoldeb hawliau amgylcheddol ar draws dinasyddion sy'n rhannu dinasyddiaeth hunaniaeth y DU. Er mwyn i'r un corff cyhoeddus fod yn effeithiol, argymhellir y byddai angen yr un lefel o ddylanwad ac annibyniaeth ar y Corff â Chorff Goruwchgenedlaethol i wireddu'r manteision a amlinellir yn llawn.

Mae cyflwyno'r corff cyhoeddus sengl yn dod â'r gost fwyaf sylweddol o ran termau meintiol, ac rydym wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer swyddogaeth y corff (yn nhrefn blaenoriaeth):

- gorfodi: sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael ei chynnal drwy'r broses gydymffurfio/llysoedd, a goruchwyllo adferiad os nodir a phrofir bod torri rheolau'n digwydd
- y gallu i gyfeirio at y llys
- craffu ar y llywodraeth
- cynnal y gyfraith yn ffurfiol a gwneud argymhellion ar gyfer diweddarau cyfreithiau
- cynnal y targed bioamrywiaeth a goruchwyllo sancsiynau os na chaiff targedau bioamrywiaeth eu datblygu, eu cadw atynt neu eu cyrraedd

"Y pryder sydd gen i yw y bydd gan y corff cyhoeddus gyfrifoldebau arno na fydd yn gallu eu cyflawni, ac felly byddwn yn y pen draw yn cael pethau mewn statud sydd heb unrhyw swyddogaeth o gwbl, ac yna bydd rhywun yn rhywle yn dweud, "O, dydych chi ddim yn gwneud hyn". - Cyfwelai

Mae costau pellach, na ellir eu mesur, os nad yw'r un corff cyhoeddus yn gwireddu model gweithredu tynn ac yn blaenoriaethu ei swyddogaethau. Mae angen model gweithredu targed main, gydag argymhelliad (a gefnogir gan farn y rhan fwyaf o randdeiliaid) i gael bwrdd llai a gweithrediaeth fwy, gan fod y weithrediaeth yn gwneud y gwaith trymaf. Gwelir recriwtio staff arbenigol ar gyfer y Corff yn risg i'w effeithiolrwydd, oherwydd y gweithlu cymharol fach yn y maes arbenigol hwn yng Nghymru, ac argymhellir swyddogaeth swyddfa gefn a rennir i gadw'r Corff yn effeithlon.

"Daliwch ati gyda Chorff Rheoleiddio bach sy'n dwyn cyrff cyhoeddus eraill i gyfrif, ac yna rhowch y gweddill ohono yn rhywle arall." (Cyfwelai)

2D) Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ymestyn swyddogaethau'r OEP i Gymru

Ni ystyriwyd bod y dull a gymerwyd yn Neddf yr Amgylchedd 2021 i ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) a'r mecanwaith adolygu amgylcheddol i Gymru yn ddigonol gan randdeiliaid, er gwaethaf y ffaith bod yr OEP yn cael ei

ystyried yn safon uchel o ran ei ddull o ddiogelu'r amgylchedd a chamau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd y rhesymeg nad hwn oedd yr opsiwn dewisol yn gysylltiedig â datganoli ac ymreolaeth wrth lunio polisiau; gyda'r angen i Gymru arfer ei phwerau datganoledig dros ddiogelu'r amgylchedd, yn hytrach na threfniant a oedd yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ran Cymru mewn mater o gymhwysedd datganoledig. Roedd pryderon ynghylch yr amrywiad yn yr ymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth o dan Lywodraethau olynol y DU, a'r diffyg cyflymder wrth weithredu ar faterion a ystyriwyd fel rhai o'r pwys mwyaf i Gymru.

Ar y cyfan, ni welodd rhanddeiliaid unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn, ar wahân i'r cyfle i ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu Addysg fel arfer gorau i lywio corff llywodraethu penodol ar gyfer Cymru. Roedd y pryderon ynghylch rhoi rheolaeth i Lywodraeth y DU dros faes polisi blaenoriaeth uchel yn drech na'r manteision posibl a'r arbedion cost yn y dadansoddiad o farn rhanddeiliaid.

Oherwydd diffyg blaenoriaeth i'r opsiwn hwn, nid oes unrhyw archwiliad pellach o'r costau a'r risgiau posibl. Yn ogystal, oherwydd diffyg manteision a nodwyd gan rhanddeiliaid, nid oes unrhyw gyfleoedd a manteision posibl wedi'u cynnwys ar gyfer yr opsiwn polisi hwn.

Dadansoddiad costau corff llywodraethu

Tabl tri: Opsiwn deddfwriaethol, disgrifiad o gostau a dull meintoli – corff llywodraethu

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
Opsiwn 2A - Mae'r trefniadau llywodraethu presennol yn parhau, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â chymryd camau i ddisodli rôl Comisiwn yr UE mewn Llywodraethu	Costau rhedeg parhaus yr IEPAW , er mwyn parhau â'i rôl	Defnyddiwyd cyllideb gyfredol IEPAW o £675,000 y flwyddyn ⁸³ . Nid ydym wedi rhoi unrhyw godiad i hyn, gyda'r un peth yn berthnasol i'r opsiynau corff llywodraethu

⁸³ Llywodraeth Cymru (2024) 'Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Werddach: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft'; Llywodraeth Cymru (2023) 'Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith o'r enw 'Adroddiad ar weithrediad mesurau diogelu amgylcheddol dros dro 2022-23'.

Opsw'n deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
Amgylcheddol, gan ddibynnu yn lle hynny ar ddeddfwriaeth, cyrff goruchwyllo a rheoleiddio presennol Cymru i sicrhau bod Cymru'n cadw lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys cynnal yr Asesydd Diogelu Amgylcheddol Dros Dro presennol ar gyfer Cymru (IEPAW)	Y costau a achosir gan gyrff cyhoeddus eraill os cânt eu hadrodd i'r IEPAW i'w hymchwilio	Mae costau uned ar gyfer y broses ymchwilio wedi'u deillio o Asesiad Effaith tebyg a gynhaliwyd ar gyfer Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)⁸⁴. Defnyddir hwn fel dirprwy oherwydd bod amcangyfrifon cost yn seiliedig ar amser staff i ymateb i'r Ombwdsmon ynghylch cwynion a wnaed ac a ymchwiliwyd iddynt, sef math penodol o gost anuniongyrchol a godwyd mewn cyfweiliadau i lywio'r Asesiad Effaith a Buddsoddi Yn seiliedig ar Adroddiad Blynyddol diweddaraf yr IEPAW⁸⁵, tybir y byddai'r corff llywodraethu yn derbyn naw cwyn y flwyddyn, ac y byddai wyth ohonynt yn cael eu symud ymlaen i'w hymchwilio

⁸⁴ Llywodraeth Cymru (2019) 'Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Memorandwm Esboniadol'

⁸⁵ Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (2024) Adroddiad Blynyddol 2023 - 2024

Opsiw'n deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintiol
Opsiw'n 2B - Integreiddio i'r Corff Cymreig presennol; darparu'r adnoddau i Gorff Goruchwylio Cymreig presennol i gyflawni cylch gwaith Llywodraethu Amgylcheddol	Costau rhedeg ychwanegol ar gyfer sefydliad presennol	Rydym wedi cyfuno segmentau o'r costau staffio presennol a adroddwyd gan Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS), gan gyfuno costau staffio a chynghor a chymorth allanol⁸⁶. Noder y tybir bod y costau rhedeg yn gyson mewn termau real dros y cyfnod (yn gyson â methodoleg y Llyfr Gwyrdd). Mae'n bosibl y bydd costau'n cynyddu mewn termau real. Er enghraifft, cyhoeddwyd cynnydd gwariant blyneddol o 4.3% mewn termau real yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2024⁸⁷.
	Costau IEPAW Trosiannol	Mae cyfnod pontio yn 2025 a 2026, pan fydd yr IEPAW yn dal i fod ar waith cyn trosglwyddo cyfrifoldebau'n llawn i gorff arall. Felly, mae cost o £675,000 yn cael ei hysgwyllyddo ym mhob un o'r blyneddoddd hyn
	Y costau ar gyfer y cyrff cyhoeddus eraill a ymchwiliwyd iddynt o dan	Mae costau cyrff cyhoeddus eraill wedi'u hamcangyfrif yn yr un modd ag Opsiw'n A, ond

⁸⁶ Safonau Amgylcheddol yr Alban (2023) *Business Plan 2022/23 - 2023/24*

⁸⁷ Trysorlys EF (2024) *Autumn Budget 2024*

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
	y trefniadau llywodraethu newydd	gyda bwlch amser o flwyddyn i'r ymchwiliadau ddechrau tra bod y trefniadau newydd yn cael eu sefydlu
Opsiwn 2C - Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol ar gyfer Cymru	Costau sefydlu untro ar gyfer corff llywodraethu newydd	Adroddir bod y sefydlu yn £480,000 mewn dogfen gyllideb Llywodraeth Cymru ⁸⁸ . ¹ Mae'r gost gylchol ar ôl sefydlu'r corff llywodraethu (yn seiliedig ar amlen ariannu ehangach yr ESS) yn dechrau ar £2.79 miliwn yn 2026
	Costau rhedeg ar gyfer corff newydd	Tybir y bydd y corff llywodraethu yn costio £2.79m i'w redeg y flwyddyn, ar ôl ei sefydlu. Mae hyn yn seiliedig ar etifeddiaeth yr ESS
	Costau IEPAW Trosiannol	Fel gydag Opsiwn B, fodd bynnag, byddai £337,500 hefyd yn cael ei wario yn 2027
	Y costau ar gyfer y cyrff cyhoeddus eraill a ymchwilir iddynt o dan y trefniadau llywodraethu newydd	Amcangyfrifir yn yr un modd ag Opsiwn B
Opsiwn 2D - Byddai'r opsiwn hwn yn golygu ymestyn cylch gwaith y Swyddfa Diogelu'r	Costau rhedeg ychwanegol sy'n gysylltiedig ag estyniad yr OEP	Y cyflog canolrifol a adroddwyd yn y RIA ar gyfer OEP FTE (£120,000) wedi'i gymhwyso i

⁸⁸ Senedd Cymru (2024) *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25*

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
Amgylchedd (OEP) a'r mecanwaith adolygu amgylcheddol i Gymru		oddeutu 15 FTE ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru
	Costau IEPAW Trosiannol	Fel gydag Opsiwn B
	Y costau ar gyfer y cyrff cyhoeddus eraill a ymchwilir iddynt o dan y trefniadau llywodraethu newydd	Amcangyfrifir yn yr un modd ag Opsiynau 2 a 3

Tabl pedwar: Crynodeb o opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – corff llywodraethu

	Opsiwn 2A (BFA)	Opsiwn 2B	Opsiwn 2C	Opsiwn 2D
Disgrifiad	IEPAW yn parhau	Integreiddioi Gorff Cymreig presennol	Sefydlu corff annibynnol	Ymestyn yr OEP i Gymru
Costau meintiol / ariannol	Costau rhedeg IEPAW Costau anuniongyrcho l cyrff	Costau rhedeg ychwanegol Corff Presennol	Costau sefydlu ar gyfer sefydliad newydd	Costau rhedeg ychwanegol OEP Costau anuniongyrcho

	Opsiwn 2A (BFA)	Opsiwn 2B	Opsiwn 2C	Opsiwn 2D
	cyhoeddus eraill	Costau anuniongyrcho l cyrff cyhoeddus Eraill	Costau rhedeg ar gyfer sefydliad newydd Costau anuniongyrcho l cyrff cyhoeddus Eraill	l cyrff cyhoeddus Eraill
Ffigur cost (o'i gymharu â BFA) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)	-	£12.0m	£16.1m	£10.3m
Ffigur cost (absoliwt) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)	£.5.56m	£17.5m	£21.6m	£15.8m

3) Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth

Barn rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r fframwaith bioamrywiaeth chwarae rhan hanfodol a strategol wrth ddiogelu ac adfer natur a darparu mwy o atebolrwydd a thryloywder. Gyda'r nod o ysgogi uchelgais a chamau gweithredu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, gan gryfhau atebolrwydd Llywodraeth Cymru am gyflawni, drwy ymgorffori'r dystiolaeth a'r egwyddorion diweddaraf.

Er mwyn profi'r fframwaith yn ei fformat presennol, rydym wedi ymgymryd ag amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Roedd hyn yn cydnabod

dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r fframwaith, sut y gallai edrych yn ymarferol, ac yn dadansoddi unrhyw bryderon, newidiadau ac ystyriaethau a allai ei wneud yn fwy effeithiol.

Roedd trafodaethau'r rhanddeiliaid wedi'u strwythuro o amgylch rhai o'r prif gydrannau a'r cyfleoedd ar gyfer y Fframwaith gan gynnwys mesurau anstatudol, diweddarau Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru a thargedau bioamrywiaeth statudol.

3A) Busnes fel arfer

Roedd rhanddeiliaid yn eithaf angerddol gan nad oeddent yn gweld unrhyw opsiwn i barhau â'r status quo o ddim deddfwriaeth gref na phenodol ynghylch adfer bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd hyn yn seiliedig ar gred gref, fwyafrifol, fod diffyg cynnydd sylweddol wedi bod ar wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru, yn enwedig ers gadael yr UE. Fodd bynnag, cyn Brexit, gellir dod o hyd i lawer o enghreifftiau o sut roedd deddfwriaeth yr UE, er ei bod yn werthfawr, wedi bod yn rhy araf i'w gweithredu a'i gorfodi i wneud y newid cyflym sydd ei angen yn y maes polisi hwn.

3B) Mesurau anstatudol: diweddarau Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Cytunodd rhanddeiliaid y byddai ymgorffori Strategaeth Adfer Natur Cymru yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) ochr yn ochr â chydannau eraill o'r NNRP presennol, yn fecanwaith addas ar gyfer sicrhau bod polisi bioamrywiaeth yn cael mwy o ystyriaeth, os nad yr opsiwn a ffefrir yn gyffredinol (gweler Opsiwn 3C).

Ystyriwyd bod cydweithio â rhanddeiliaid yn hanfodol wrth gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r strategaeth, oherwydd y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad y gall rhanddeiliaid eu cynnig i'r broses, gan sicrhau bod y llwybr strategol ar gyfer cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol yn realistig ac yn gyraeddadwy, tra hefyd yn uchelgeisiol. Mae'n bwysig cydnabod mai dyma oedd yr adran a oedd yn peri'r pryder mwyaf i rhanddeiliaid. Amlinellasant ystod o bryderon polisi yr oeddent yn teimlo y gallent atal targedau'r Fframwaith rhag cael eu cyflawni, gyda ffocws penodol ar yr her y mae llunwyr polisi yn ei hwynebu wrth sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar amser ac ar gyflymder.

Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gan rhanddeiliaid oedd y gallai ymdrechion i 'fynd i'r afael â gormod ar unwaith' fod yn risg, o ystyried maint yr her. Awgrymasant strategaeth amgen: gwerthuso'r hyn y mae sefydliadau yng Nghymru eisoes wedi'i

ddatblygu a sut maen nhw'n gosod eu targedau eu hunain, ac ystyried sut y gellid cefnogi, neu adeiladu ar, waith presennol yng ngham cyntaf yr amcanion cyflawni. Er enghraifft, mae sefydliadau yng Nghymru eisoes yn cynnal archwiliadau manwl o sut i hyrwyddo adnewyddu bioamrywiaeth, gyda'r nod o geisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn yn effeithiol, a allai gefnogi Llywodraeth Cymru gyda meysydd sy'n weddol rhwydd i'w cyflawni neu arfer da presennol y gellir adeiladu arnynt yn ystod cam cyntaf cyflawni'r Fframwaith. Mae'n werth nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull 'popeth, ym mhobman, i gyd ar unwaith', ond ei bod wedi ymrwymo i flaenoriaethu targedau ar gyfer y gyfran gyntaf, er mwyn helpu i ddarparu'r ffocws ychwanegol ar y meysydd allweddol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at feysydd allweddol yr oeddent yn teimlo bod angen mwy o fanylion arnynt i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael effaith. Y meysydd a nodwyd ganddynt fel rhai yr oedd angen mwy o fanylion arnynt oedd:

- gweledigaeth glir sy'n rhoi eglurder ynghylch yr hyn y mae'r fframwaith yn mynd i'w gyflawni
- yr angen i'r weledigaeth adlewyrchu'n glir sut y bydd yn galluogi'r fframwaith i gael ei gyflawni ar y cyflymder sydd ei angen
- cydnabyddiaeth o'r ystod o ddulliau a fydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith
- ymrwymïadau ariannu clir

"Rhan o'r broblem ynghylch y targedau 30 erbyn 30 yw'r diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth byd-eang yn ceisio'i nodi" – Cyfwelai

Roedd cyllid hefyd yn bryder, yn enwedig os nad yw'r Fframwaith yn statudol, gyda rhanddeiliaid yn ansicr faint o gyllid fyddai ar gael i gyflawni yn erbyn unrhyw dargedau newydd a pha mor ddiogel fyddai'r cyllid hwn, yn enwedig gyda'r argyfwng costau byw presennol. Cwestiynwyd hefyd sut i ddiogelu cynnydd a pholisi yn y Fframwaith Adfer Natur, gan ei bod yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch ble mae bioamrywiaeth yn yr hierarchaeth wleidyddol, fel y gallai rhanddeiliaid ddeall penderfyniadau cyllidol.

3C) Pwerau i greu targedau bioamrywiaeth statudol

Yn dilyn asesiad o'r tri opsiwn, gwelsom fod rhanddeiliaid yn fwyaf cefnogol o'r syniad bod gan Weinidogion Cymru y pwerau a'r mecanweithiau i greu targedau bioamrywiaeth statudol, gyda'r prif resymeg dros hyn yn golygu y byddai bodolaeth

targedau yn creu mesur gweladwy ac atebol i sicrhau bod gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yn cael ei ystyried mewn polisiau a phenderfyniadau.

Cafodd creu cyfres benodol i Gymru o dargedau bioamrywiaeth seiliedig ar dystiolaeth mewn deddfwriaeth eilaidd ei gymeradwyo am resymau tebyg i fabwysiadu egwyddorion amgylcheddol penodol i Gymru; sef ymreolaeth ac annibyniaeth ddatganoledig dros adnewyddu bioamrywiaeth. Nododd rhanddeiliaid dro ar ôl tro y byddai'r pwerau i greu targedau yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i'r hyn sydd ei angen ar Gymru, a phe bai'r broses yn cael ei gwneud ar y cyd, gellid ei defnyddio i adeiladu momentwm, fel ffordd o gael pobl a busnesau i gefnogi.

Wrth ddadansoddi beth oedd hyn yn ei olygu mewn egwyddor, roedd rhanddeiliaid yn hapus gyda'r nodau, gan ganolbwyntio ar wrthdroi colli bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch, mynd i'r afael â phwysau a gwella dealltwriaeth. Roeddent hefyd yn falch o weld y byddai'r Fframwaith yn adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac yn teimlo bod hwn yn fan cychwyn da i sicrhau ei fod yn cyflawni anghenion byd-eang ac yng Nghymru, gyda phwyslais ar yr angen i'r Fframwaith gydnabod unrhyw anghenion sy'n unigryw i Gymru a sut y gallai'r rhain gefnogi partneriaid byd-eang.

Cytunwyd yn gyffredinol gan randdeiliaid ar bwysigrwydd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu targedau bioamrywiaeth statudol a chymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac ecosystemau iach; gan gydnabod bod gan Weinidogion Cymru rôl hanfodol i'w chwarae i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y fframwaith a'r weledigaeth hirdymor o Gymru sy'n gadarnhaol o ran natur. Ystyriwyd bod ymestyn dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau gweithrediad a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'u pwerau yn cyd-fynd yn hanfodol â'r opsiwn o bwerau i greu targedau statudol; hebddynt ystyriwyd y pwerau yn gam ymlaen, ond gyda'r risg o fod yn aneffeithiol neu'n cael eu dadflaenoriaethu'n hawdd mewn polisi a gwneud penderfyniadau.

Heriau a risgiau

Roedd pryderon ynghylch y pwerau i greu targedau statudol yn bodoli mewn perthynas â'r broses y gellid creu a gweithredu'r targedau drwyddi. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno bod map ffordd clir yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer a gwarchod natur yn hanfodol, gan y byddant yn arwydd o fwriad y llywodraeth ac yn caniatáu i randdeiliaid ddeall cyfeiriad y daith, sut y gallant fod yn rhan o'r broses ac yn bwysicaf oll, beth y dylid ei gyflawni er mwyn iddynt allu dwyn y llywodraeth i gyfrif.

Rhaid nodi na fydd y Bil yn cyflwyno amserlenni ar gyfer y targedau, ond yn hytrach byddant yn cael eu gosod drwy is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, yn gysylltiedig â phryderon ynghylch y broses y gellid creu'r targedau drwyddi o'r pwerau, roedd cwestiynau ynghylch hyfywedd, cyflawni, a derbyniad y cyhoedd a rhanddeiliaid o'r targedau. Er enghraifft, gallai unrhyw dargedau a oedd yn brif ffocws Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn anodd iawn eu cyflawni, oherwydd eu cyllideb lai a'r gostyngiad canlyniadol mewn rhai gwasanaethau yn Cyfoeth Naturiol Cymru¹²⁰, gan ei gwneud hi'n hanfodol bod targedau newydd yn ystyried galluoedd Cyrff i'w cyflawni.

Roedd pryder hefyd y gallai rhai targedau gael eu hystyried yn anghyraeddadwy cyn gynted ag y cânt eu gosod, a fyddai'n niweidio cred pobl yn y targedau ac yn lleihau ymrwymiad iddynt. Er enghraifft, ardaloedd morol gwarchodedig, lle mae'r data ar amodau yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Fel enghraifft ymarferol o rai o'r heriau o gytuno ar dargedau realistig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellid eu derbyn, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i nodi bod cynlluniau ar waith i ddeall maint a chyflwr nodweddion morol ond rhagwelasant na fydd y rhain yn agos at y 30% a nodwyd ar hyn o bryd fel sy'n ofynnol erbyn 2030, gan greu pryderon ynghylch realaeth os yw targedau morol i'w cynnwys yn y targedau a'r pwerau newydd sydd bron yn sicr o fod yn amhosibl eu cyflawni. Roedd hyn yn adlewyrchu pa mor hanfodol yw ystyried data a chyd-gynhyrchu gyda'r broses o arfer y pwerau ar gyfer gosod targedau, a lle mae'r sail dystiolaeth yn fwy cymhleth, bod mwy o amser yn cael ei roi i ddatblygu'r data sydd ei angen neu osod trothwyon rhesymol o ba dystiolaeth sy'n dderbyniol, cyn gosod targedau.

"Byddai'n well gen i gael rhywbeth sy'n gyraeddadwy, yn ystyrlon ac yn ein harwain i'r cyfeiriad cywir." -Cyfwelai

Cyfeiriwyd at atebolrwydd fel rhywbeth hanfodol gan y rhan fwyaf o rhanddeiliaid, yn rhannol oherwydd targedau byd-eang a fethwyd yn flaenorol. Teimlai rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol bod rhywun yn Llywodraeth Cymru yn atebol am dargedau a, phan fo angen, yn adrodd am y methiannau hyn i'r Senedd. Teimlwyd hefyd y dylai'r rhai sy'n atebol sefydlu beth aeth o'i le, fel bod mecanwaith cryf yn cael ei greu, i alluogi'r newid gofynnol a grymuso'r rhai sy'n atebol i symud targedau i'r cyfeiriad cywir.

Er enghraifft, roedd rhanddeiliaid yn pryderu y gallai Llywodraeth Cymru ganfod y byddai rhoi'r fframwaith a'r targedau mewn deddfwriaeth yn golygu na fyddai'n rhaid iddynt fuddsoddi cymaint mewn bioamrywiaeth, oherwydd y cyfrifoldeb sy'n disgyn ar bartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni targedau. Pe bai'n digwydd, teimlai rhanddeiliaid na fyddai'r dull hwn yn effeithiol, oherwydd cyflwr presennol yr economi

a'r angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth i sicrhau bod partneriaid yn ymrwymo, gan ei gwneud yn hanfodol

"Mae llywodraethau ar y cyfan yn tueddu i feddwl bod deddfwriaeth yn ateb cwestiynau ac yn rhatach na chyllido'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd." - Cyfwelai

Mae bioamrywiaeth yn amlochrog, sy'n ei gwneud hi'n anodd cyfleu maint yr her, yr amser y bydd yn ei gymryd, a lefel yr ymgysylltiad sydd ei angen, gan ei gwneud hi'n hanfodol bod cefnogaeth ac ymrwymiad gwleidyddol hirdymor a welir yn glir gan bobl Cymru ac sy'n eu galluogi i ddeall pwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni.

"Mae bioamrywiaeth yn gymhleth, ac nid oes gan bobl ddealltwriaeth ohono. Felly, mae'n rhaid i ni feddwl am y pwyntiau mynediad hynny er mwyn i bobl ddeall bod hyn yn gyraeddadwy". - Cyfwelai

Ffactor hanfodol i sicrhau llwyddiant y gweithrediad a'r hyrwyddo a wneir gan weinidogion, yw sicrhau bod y negeseuon yn gywir. Pan ofynnwyd beth oedd hyn yn ei olygu, mynegwyd dwy thema gyffredin gan randdeiliaid:

- Dylai gweinidogion fod yn glir iawn ynghylch y prif gamau sydd eu hangen a'r rhesymau drostynt
- mae angen i unrhyw gyngor a roddir i gymunedau a busnesau fod yn glir a rhaid i hyn gynnwys bod yn onest, hyd yn oed os bydd yr hyn a ofynnir yn anodd

Lle bynnag y bo modd, dylai Gweinidogion Cymru fod yn optimistaidd a chyfeirio at y ffaith bod yr hyn sy'n cael ei nodi yn gyraeddadwy, gan gynnwys y manteision y bydd pobl yn eu hennill. Dylai Gweinidogion Cymru hefyd weithio i wella dealltwriaeth pobl o beth yw bioamrywiaeth a pham ei fod yn bwysig. Mae hyn oherwydd ymchwil sy'n dangos bod dealltwriaeth sylfaenol y person cyffredin o linellau sylfaen bioamrywiaeth yn isel iawn. Er enghraifft, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r effaith y mae bioamrywiaeth yn ei chael ar ddiogelwch bwyd a dŵr, a rheoli llygredd, sy'n golygu nad ydynt yn ymwybodol o'r rôl bwysig y mae bioamrywiaeth Cymru yn ei chwarae wrth gynnal ansawdd bywyd presennol pobl. Yn ogystal, mae data'n dangos yr her a'r cyfle posibl y gallai'r Bil fod yn fath o addysg gadarnhaol ynghylch realiti gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth; mae mwyafrif y cyhoedd yn tybio bod ardaloedd gwarchodedig yn cynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru yn eu cyfanrwydd; fodd bynnag, nid yw hyn yn wir, gan fod ardaloedd mawr yn eiddo preifat, ac yn cael eu ffermio, sy'n adlewyrchu'r her o sicrhau ymgysylltiad eang â'r ddeddfwriaeth. Mae'r ddwy enghraifft hyn wedi'u cynnwys fel ystyriaeth ar gyfer sut

mae angen mynd ati i drafod y negeseuon a'r naratif am y Fframwaith Bioamrywiaeth a'r targedau statudol, sef y man cychwyn y bydd Cymru'n gweithio ohono; a'r angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o faint yr her.

Nodwyd prif ffrydio bioamrywiaeth ac effeithiolrwydd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd ym mhopeth a wnawn', ac arweiniodd at drafodaethau ynghylch sut i sicrhau bod y Fframwaith yn gwneud y mwyaf o botensial trawsbynciol ac yn dod o hyd i ffyrdd cost-effeithiol a graddadwy o gyflawni'r gwaith, lle bo modd trwy brosiectau bioamrywiaeth sydd eu hunain yn cwmpasu sawl maes o lywodraeth a strategaeth cyrff cyhoeddus. Y gwrthwyneb i'r cyfle hwn yw'r risg allweddol, a welir gan rhanddeiliaid, o'r potensial i bolisi bioamrywiaeth gael ei wahanu oherwydd cyfyngiadau amser, gan arwain at ddiffyg amser i'r Fframwaith gael cefnogaeth ac ymroddiad gan adrannau eraill. Yn gysylltiedig â hyn, amlygwyd hefyd y gallu i Lywodraeth Cymru fedru cyflawni ei hagenda polisi ar gyflymder, oherwydd diffyg adnoddau, fel pryder. Teimlai rhanddeiliaid fod cyfnodau o oedi yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n atal cynnydd tuag at dargedau allweddol, y bydd angen eu datrys os yw'r ddeddfwriaeth yn mynd i ddod i rym mewn pryd cyn yr etholiad nesaf, ac os byddai'r targedau o fewn unrhyw fframwaith yn cael eu cyflawni pan fyddai'n dechrau ar y cyfnod gweithredol a chyflawni.

Ystyriwyd bod ymgysylltiad llunwyr polisi â rhanddeiliaid ar fanteision traws-sector bioamrywiaeth wrth lunio'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd yn hanfodol, ac mae'n ystyriaeth bwysig ar gyfer datblygu'r ddeddfwriaeth eilaidd ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, gyda rhanddeiliaid yn crybwyll gwaith pwysig a gwerthfawr a allai gyfrannu at y broses o osod targedau penodol mewn deddfwriaeth eilaidd ac sydd heb ei archwilio'n ddigonol ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae'r ymchwil a wnaed gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru yn amlinellu'r wyth budd traws-sector y gall bioamrywiaeth eu darparu, gan gynnwys iechyd a lles, cadwyni cyflenwi ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

Cyfleoedd a manteision

O ran dadansoddi beth mae'r targedau'n ei olygu o ran datblygu a chyflawni, roedd rhanddeiliaid yn glir iawn bod rhai camau hanfodol y mae'n rhaid eu cymryd. Y farn fwyafrifol oedd bod angen creu'r targedau trwy ddull sy'n cael ei arwain gan theori newid, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid allweddol, fel rhan o'r hyn a elwid yn 'ymchwiliad manwl i fioamrywiaeth', er mwyn deall beth sydd ei angen yn y ddeddfwriaeth eilaidd. Cynigir y gellid cyflawni hyn trwy brofi senarios gan ddefnyddwyr a modelu gwahanol opsiynau targed gyda rhwydweithiau a phrosiectau

cyfredol, gan alluogi rhwydweithiau i gael trafodaethau llawer mwy cymhleth am Fesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill sy'n Seiliedig ar Ardaloedd (OECMS), a allai wedyn fwydo i'r targedau.

Tynnwyd sylw hefyd at flaenoriaethau â ffocws fel rhai hanfodol, a chododd llawer o randdeiliaid y cyfle – a'r risg – o ran amserlenni i fabwysiadu dull targed statudol. Unwaith eto, rhaid nodi na fydd y Bil ei hun yn cyflwyno amserlenni ar gyfer y targedau; fodd bynnag, gwelodd rhanddeiliaid y gosod targedau fel cyfle i alluogi Llywodraeth Cymru i roi mesurau clir a digonol ar waith i sicrhau bod targedau sero net yn y pen draw yn cael eu cyrraedd. Gwelwyd manteision hefyd yn y ffordd y gallai partneriaid cyflawni a chyrrff cyhoeddus weithio gyda'r targedau o ran eu strategaeth a'u perfformiad sefydliadol eu hunain. Er enghraifft, galluogi targedau rheoli teg ac effeithiol yn fewnol, sy'n grymuso'r rhai sy'n arwain y gwaith i osod amcanion cyraeddadwy ac amserol ar gyfer eu staff, gan adlewyrchu eu rôl wrth ddatblygu a chyflawni llwybr a fydd yn sicrhau adferiad natur.

"...mae ei ddadelfennu i'r hyn a fydd yn dreiddiol yn bwysig iawn, gyda ffocws go iawn ar yr hyn a fydd yn dreuliadwy ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf mewn gwirionedd". - Cyfwelai

Ystyriaeth arall oedd yr angen am fonitro, adrodd a chraffu effeithiol o amgylch fframwaith a thargedau. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynghylch y posibilrwydd y byddai targedau'n ategu ac yn gwella Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Teimlwyd bod hyn yn sicrhau y byddai'r Fframwaith yn cael ei gymryd o ddifrif, trwy seilio'r gwaith o fewn meysydd polisi craidd eraill a chreu'r cyfle ar gyfer gwaith polisi trawsbynciol.

Mynegodd rhai ymatebwyr rybudd na fyddai systemau monitro o bosibl yn ddigon i gyflawni amcanion y Fframwaith a'r targedau. Byddai angen cefnogi'r systemau hyn drwy ddatblygu offer a dulliau rheoli perthnasol, sy'n galluogi'r rhai sy'n cyflawni'r targedau i weithio mewn ffordd gyson a chyflawni'n gyflym, gyda'r nod o rymuso partneriaid cyflawni i gael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i droi'r gromlin bioamrywiaeth. Bydd meithrin hyder yn y dulliau hyn yn hanfodol, yn enwedig gan y gallai adrodd cychwynnol fod yn eithaf negyddol, oherwydd bod Cymru'n dechrau'r broses hon ar ôl gwledydd eraill. Gallai hyn gael effaith ar y gefnogaeth i'r fframwaith a'r targedau. Gyda'r her uchod mewn golwg, teimlwyd bod angen i Lywodraeth Cymru adeiladu cyfleoedd adrodd i gydnabod y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd, gyda'r nod o feithrin hyder yn y Fframwaith.

Ystyriaeth bwysig yw'r broblem y bydd llawer o risgiau/costau a manteision cyflwyno Fframwaith a nodau Bioamrywiaeth penodol yn anfesuradwy. Mae'n anodd iawn

cyfrifo, er enghraifft, beth mae colli bioamrywiaeth yn ei olygu o ran effeithio ar les dynol; iechyd; cynaliadwyedd amaethyddol; neu ffyniant economaidd (pedair enghraifft lle mae perthnasoedd wedi'u nodi rhwng natur a'r ffactorau hyn yn y llenyddiaeth). Mae hyn yn wahanol i'r gallu i feintoli a chymhwyso costau effeithiau hinsawdd fel llifogydd, sy'n dod yn fwyfwy cyffredin, gan gynnwys yng Nghymru. Mae hyn yn gwneud cyfrifo costau argyfwng a cholled natur yn fwy heriol ac felly, mae'r broses o osod y naratif o amgylch creu pwerau ar gyfer y targedau, yn gymhleth. Serch hynny, cytunodd rhanddeiliaid yn gyffredinol fod angen ffordd arnom o roi gwerth ar (mewn termau ariannol ac ansoddol) golled ac enillion/buddion bioamrywiaeth, er mwyn gallu 'rhoi gwerth' i'r un graddau ar wneud penderfyniadau gwleidyddol, llunio polisiau, a chyfraith.

Dadansoddiad costau o dargedau bioamrywiaeth

Tabl pump: Opsiwn deddfwriaethol, disgrifiad o gostau a dull meintoli – targedau bioamrywiaeth

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
Opsiwn 3A - Dim targedau / deddfwriaeth newydd wedi'u datblygu	Costau cydymffurfio cylchol gofynion staffio ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau Adran 6 presennol a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang	Mae data wedi'u cyflenwi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u haddasu i werthoedd ariannol gan ddefnyddio graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru (fel gyda'r llinyn egwyddorion), gan addasu'r graddau cyflog yn ôl y gwahanol lefelau staffio sydd eu hangen
Opsiwn 3B – Mesurau anstatudol a diweddariadau i bolisi Adnoddau Naturiol presennol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur	Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu costau gweithredu cylchol gofynion staffio i ddatblygu targedau dangosyddion bioamrywiaeth newydd o	Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gofynion staffio. Mae costau untro hefyd wedi'u hymgorffori sy'n ymwneud â cheisio cyngor i ymgynghori â'r

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
	dan yr opsiwn hwn, wedi'u moneteiddio yn yr un modd ag Opsiwn 3A Ar ôl neilltuo amser i ddatblygu'r targedau newydd (costau untro), rydym wedi tybio y bydd gofynion staffio Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chynnal gwerthuso wedi'i ddiweddarau yn dechrau ar unwaith Gofynion ar gyrff cyhoeddus. Mae'n debyg y byddai rhai gofynion adrodd ar gyrff cyhoeddus i gefnogi monitro a gweithredu targedau os cânt eu gosod. Bydd hyn yn cymryd amser ac adnoddau yn ychwanegol i BFA. Fodd bynnag, mae faint o adnoddau sydd eu hangen – a'u cost – yn parhau i fod yn anhysbys ac felly'n anfesuradwy ac yn anfonetadwy ar hyn o bryd. Byddai hyn yn dibynnu ar nifer a chymhlethdod unrhyw dargedau a osodir.	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
Opsiwn 3C - Mae'r opsiwn hwn yn mynd y tu hwnt i Opsiwn 3B drwy osod targedau bioamrywiaeth	Fel gydag opsiynau eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ei gofynion staffio disgwylidig i	Mae'r broses hon yn cymryd mwy o amser nag Opsiwn 3B, felly nid yw'r costau gweithredu a

Opsiwn deddfwriaethol	Disgrifiad o gostau	Dull meintoli
statudol i gryfhau monitro ac adrodd yn ogystal â chyflwyno dyletswydd i weithredu, monitro ac adrodd yn erbyn y targedau hyn	ddatblygu targedau a deddfwriaeth newydd, sydd wedi'u moneteiddio gan ddefnyddio graddfeydd cyflog a adroddwyd. Mae adnoddau staffio cryfach wedi'u hymgorffori ar gyfer y monitro sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn Fel gydag Opsiwn B, bydd gofyniad adrodd ar gyrff cyhoeddus na ellir ei fesur na'i ariannu. Byddai hyn yn dibynnu ar nifer a chymhlethdod unrhyw dargedau a osodir.	gwerthuso uwch yn dod i rym tan yn ddiweddarach o dan Opsiwn 3C

Tabl chwech: Crynodeb o opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – targedau bioamrywiaeth

	Opsiwn 3A (BFA)	Opsiwn 3B	Opsiwn 3C
Disgrifiad	Dim targedau / deddfwriaeth	Mesurau anstatudol gan gynnwys	Targedau newydd wedi'u datblygu + deddfwriaeth

	Opsiwn 3A (BFA)	Opsiwn 3B	Opsiwn 3C
	newydd wedi'u datblygu	diweddariad i'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur	statudol wedi'i rhoi ar waith
Costau meintiol / ariannol	Costau presennol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a'r Fframwaith Bioamrywiaet h Byd-eang	Datblygu polisi Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 Costau sy'n gysylltiedig â mecanweithiau gwerthuso targedau yn y dyfodol	Datblygu targedau a deddfwriaeth Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 Costau sy'n gysylltiedig â mecanweithiau gwerthuso a monitro targedau yn y dyfodol (gan gynnwys monitro, adrodd a gwerthuso cryfach)
Ffigur cost (o'i gymharu â BFA) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)	-	£4.76m	£9.72m
Ffigur cost (absoliwt) (prisiau 2024, wedi'u disgowntio)	£0.824m	£5.59m	£10.5m

V. Casgliadau

Myfyrdodau ar fesur a moneteiddio manteision ac anfanteision

Amcan terfynol y ddeddfwriaeth yw cyflawni canlyniadau amgylcheddol gwell. Mae adrannau blaenorol yr adroddiad hwn wedi disgrifio'n ansoddol sut y gallai'r canlyniadau buddiol hyn ddeillio o bob rhan o'r ddeddfwriaeth. Eto i gyd, mae heriau sylweddol o ran meintoli a moneteiddio'r manteision hyn ar gyfer pob rhan o'r ddeddfwriaeth:

Egwyddorion amgylcheddol. Nid yw'r polisiau a'r ddeddfwriaeth a fydd yn cael eu heffeithio gan yr egwyddorion yn hysbys. Ond disgwylir y byddant yn berthnasol i ystod eang o bolisiau (a gallent fod yn berthnasol i ystod ehangach pe bai Llywodraeth Cymru yn cael mwy o bwerau datganoledig). Hyd yn oed pe bai union natur y polisiau a'r ddeddfwriaeth y byddai'r egwyddorion yn berthnasol iddynt yn hysbys, nid oes dull o gymhwyso barn wrthrychol a fyddai'n newid eu dyluniad. Er enghraifft, sut y byddai'r egwyddor ragofalus neu integreiddio yn cael ei hystyried a'i chymhwyso mewn perthynas â darn newydd o ddeddfwriaeth gynllunio? Ar ben hynny, mae rhai agweddau ar yr egwyddorion eisoes wedi'u deddfu i wahanol raddau, fel yn Neddf Amgylchedd Cymru (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ei gwneud hi'n anoddach gwahaniaethu rhwng y manteision ariannol y byddai'r egwyddorion newydd yn eu cael y tu hwnt i fusnes fel arfer (BFA)⁸⁹.

Corff llywodraethu. Mae'r meysydd o gyfraith amgylcheddol y bydd y corff llywodraethu yn ymchwilio i gydymffurfiaeth â nhw yn eang, heb eu cynnwys, nac yn rhai y gellir eu cynnwys, o fewn rhestr ddiffiniedig. Er enghraifft - ar adeg ysgrifennu (Chwefror 2025) - roedd y tri ymchwiliad OEP diwethaf yn ymdrin â chael gwared ar gynefinoedd morfeydd heli, statws amgylcheddol dyfroedd morol, a llygredd dŵr o amaethyddiaeth⁹⁰. Y pwynt yw y bydd y casgliadau a gyrhaeddwyd, y camau a gymerwyd (os o gwbl), a'r manteision sy'n deillio o ymyriadau'r corff llywodraethu yn amrywio o achos i achos ac o flwyddyn i flwyddyn.

⁸⁹ Mae disgrifiad llawn i'w gael yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy*: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-01/papur-gwyn-egwyddorion-amgylcheddol-llywodraethiant-a-thargedau-bioamrywiaeth.pdf>

⁹⁰ Gwefan OEP, cyrchwyd Chwefror 2025, <https://www.theoep.org.uk/investigation/investigation-defras-duty-achieve-good-environmental-status-marine-environment>

Targedau bioamrywiaeth. Bydd pedwar maes blaenoriaeth yn cael eu rhestru yn y ddeddfwriaeth: lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau brodorol; rheoli ecosystemau'n effeithiol; lleihau llygredd; ac ansawdd gwybodaeth am fioamrywiaeth, mynediad at y wybodaeth honno a'i defnydd a'i chymhwyso. Fodd bynnag, nid yw'r union dargedau, sut maen nhw'n wahanol i dargedau presennol a'r polisïau a fydd eu hangen i'w cyflawni yn hysbys eto.

Yn y cyd-destun hwn, daethpwyd i'r casgliad bod ceisio mesur a moneteiddio'r manteision ar gyfer pob agwedd ar y ddeddfwriaeth yn cynnig mewnwelediad cyfyngedig iawn. Yn bennaf oherwydd nad oes digon o wybodaeth, neu hyd yn oed sail ar gyfer rhagdybiaethau, ar y mathau penodol o ganlyniadau amgylcheddol a fyddai'n newid o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth. Byddai unrhyw gyfrifiad, felly, wedi'i ddyfalu'n helaeth, wedi'i rag-restru'n drwm, ac o ddefnydd cyfyngedig. Felly, y manteision a ddisgrifiwyd yn ansoddol yw'r hyn y dylai'r rhai sy'n adolygu costau a manteision y ddeddfwriaeth ganolbwyntio arnynt wrth benderfynu ar rinweddau'r ddeddfwriaeth.

Cyfeiriwyd at yr heriau hyn yn yr Asesiad Effaith a oedd ynghlwm wrth Ddeddf Amgylchedd Lloegr 2021. Gwnaeth y ddeddfwriaeth hon ddarpariaethau hefyd ar gyfer gweithredu targedau bioamrywiaeth ac ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol. Hefyd, nid oedd yn moneteiddio canlyniadau'r ddeddfwriaeth, gan ddefnyddio'r rhesymeg yn lle hynny y byddai'r ddeddfwriaeth yn gwella canlyniadau amgylcheddol ac – yn gyffredinol – y byddai canlyniadau amgylcheddol gwell yn dod â manteision mawr⁹¹:

“Ni chafodd y rhan fwyaf o'r manteision a ddeilliodd o'r mesurau newydd eu moneteiddio. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod manteision mawr i'r amgylchedd, iechyd a chymdeithas o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynyddu effeithlonrwydd adnoddau a chynaliadwyedd drwy helpu i gyflawni economi gylchol, lleihau pwysau ar yr amgylchedd dŵr a gwella gwydnwch rhag llifogydd, a lliniaru llygredd cemegol i gyrff dŵr” (DEFRA, 2019)

Mae'r heriau o ran meintioli a moneteiddio manteision yn berthnasol i feintioli a moneteiddio anfanteision (effeithiau negyddol gweithredu'r ddeddfwriaeth). Serch hynny, mae dau gategori o anfantais y dylai llunwyr polisi eu hystyried wrth ddeddfu'r ddeddfwriaeth wedi'u hamlygu o'r ymchwil ansoddol:

⁹¹ DEFRA (2019), *Environment Bill IA*, <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0009/Environment%20Bill%20Impact%20Assessment.pdf>

- **Effeithiau negyddol i fusnesau.** Nid yw'r ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaethau ar gyfer mesurau penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar endidau preifat. Er enghraifft, mae'r egwyddorion amgylcheddol yn berthnasol i lunio polisiau o fewn Llywodraeth Cymru, mae'r corff llywodraethu yn berthnasol i gymhwyso cyfraith amgylcheddol gan gyrff cyhoeddus, ac mae gyrff cyhoeddus yn deddfu dylunio a gweithredu targedau bioamrywiaeth. Serch hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn creu a/neu'n cryfhau strwythurau polisi a allai effeithio ar fusnesau yn y pen draw. Un enghraifft yw'r egwyddorion amgylcheddol a allai leihau proffidioldeb datblygu yn yr amgylchedd adeiledig. Enghraifft arall yw targedau bioamrywiaeth sy'n gofyn am reoleiddio ychwanegol sy'n gosod costau ar fusnesau (rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol i fusnesau amaethyddol a thirfeddianwyr a allai fod yn ffocws rheoleiddio ychwanegol)⁹².
- **Effeithiau negyddol o beidio â gweithredu.** Yn gysylltiedig â'r pwynt blaenorol, byddai llawer yn dadlau – wedi'u hategu gan ffynonellau tystiolaeth credadwy – bod canlyniadau cymdeithasol ac economaidd i beidio â gweithredu. Gwneir y pwynt hwn ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru wrth drafod targedau bioamrywiaeth. Mae'n tynnu sylw at ymchwil ar effaith rhywogaethau estron ymledol (INNS) i ddadlau y byddai peidio â gweithredu yn achosi niwed i gynydau ac adeiladau, gyda goblygiadau negyddol i'r economi.

Wrth gwrs, gellid cyflwyno dadleuon gwrthgyferbyniol i'r ddau gategori uchod. Er enghraifft, nododd Asesiad Effaith Deddf Amgylchedd Lloegr 2021 y byddai busnesau'n elwa o sicrwydd rheoleiddiol, ac y byddai cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi, yn ogystal â photensial ar gyfer arloesi wedi'i yrru trwy gymhwyso egwyddorion amgylcheddol.

Ond unwaith eto, bydd y mathau o sicrwydd rheoleiddiol, cyfleoedd buddsoddi a chymhellion arloesi yn benodol i'r meysydd polisi yr effeithir arnynt gan gymhwyso'r ddeddfwriaeth ac nid gan y ddeddfwriaeth ei hun. Unwaith eto, fel y mae Asesiad Effaith Lloegr yn ei ddatgan am dargedau bioamrywiaeth:

“Bydd cymhareb beichiau cost y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn dibynnu ar y polisiau a'r camau gweithredu penodol a roddir ar waith. Mae'r targedau eu hunain yn rhoi dyletswydd ar y llywodraeth, nid ar fusnes, a disgwylir y bydd cyfraniad y sector

⁹² DEFRA (2022), *Asesiad Effaith Cyffredinol ar gyfer targedau Deddf yr Amgylchedd arfaethedig (2021) (Cam Ymgynghori)*, https://consult.defra.gov.uk/natural-environment-policy/consultation-on-environmental-targets/supporting_documents/Environment%20Act%20targets%20%20Overarching%20Impact%20Assessment.pdf

preifat yn bennaf yn wirfoddol neu'n cael ei gofnodi mewn asesiadau effaith rheoleiddiol eraill" (DEFRA, 2022)

Manteision esboniadol o dargedau bioamrywiaeth

Ceisiodd Asesiad Effaith Deddf Amgylchedd 2021 Lloegr fesur manteision gweithredu targedau bioamrywiaeth yn ddarluniadol. Defnyddiodd y RIA drafft ar gyfer y Papur Gwyn y darlun hwn i gyflwyno manteision posibl targedau bioamrywiaeth.

Er nad yw Cymru a Lloegr yn gymharol yn uniongyrchol – oherwydd nad yw'r union dargedau bioamrywiaeth yn hysbys eto yng Nghymru – mae'r Asesiad Effaith o Loegr yn cynnig dirprwy defnyddiol oherwydd ei fod yn edrych ar dargedau bioamrywiaeth mewn ardaloedd tebyg i'r rhai sy'n cael eu hystyried yng Nghymru, e.e. adfer rhywogaethau a chynefinoedd.

Mae'r dull dau gam a gymerwyd i ddangos manteision y ddeddfwriaeth wedi cynnwys:

1. nodi'r manteision meintifol o Asesiad Effaith Deddf Amgylchedd Lloegr
2. pwysoli'r manteision i gynrychioli cymhareb poblogaeth a thir Cymru

Disgrifir pob un o'r camau hyn yn eu tro yn fanylach yn awr.

Manteision fel y'u disgrifir yn Neddf Amgylchedd Lloegr 2021 IA

Edrychodd yr Asesiad Effaith ar fanteision pob targed amgylcheddol gan ddefnyddio'r Dull Galluogi Cyfalaf Naturiol - dull o werthfawrogi'r amgylchedd naturiol ar gyfer y bobl a'r economi⁹³. Ffocws mwyaf y dull hwn yw y bydd cymdeithas gyfan yn teimlo'r manteision. Cafodd y manteision a gwmpaswyd fel rhan o Asesiad Effaith Deddf Amgylchedd Lloegr eu categoreiddio yn ôl pedwar maes (gweler tabl saith).

⁹³ Gwefan DEFRA (2023), cyrchwyd Chwefror 2025, <https://www.gov.uk/guidance/enabling-a-natural-capital-approach-enca>

Tabl saith: Manteision o dargedau amgylcheddol a'u disgrifiad

Math o fantais	Disgrifiad
Atafaelu carbon	Cyfrifir manteision drwy luosi gwerth cyfwerth carbon deuocsid â'r swm amcangyfrifedig o gyfwerth carbon deuocsid a gedwir drwy gynefinoedd gwlyptir a glaswelltir
Rheoleiddio ansawdd aer	Cyfrifir manteision drwy fesur manteision iechyd dynol o gael gwared ar ronynnau o'r awyr, gan ganolbwyntio ar y costau gofal iechyd is o ganlyniad i amlygiad.
Hamdden	Cyfrifir manteision drwy luosi nifer yr ymweliadau â mannau gwyrdd hygyrch a'r gwerth lles a'r manteision iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â'r ymweliadau
Iechyd corfforol	Cyfrifir manteision drwy amcangyfrif sut mae pobl yn cael manteision iechyd corfforol o fod yn egniol drwy ymweld â chynefinoedd a grëwyd neu a adferwyd ac ymgymryd â gweithgareddau hamdden

Rhannwyd y manteision yn ddau gategori. Yn gyntaf, y rhai sy'n cymhwyso'r targedau cynefinoedd ehangach. Yn ail, y rhai sy'n berthnasol i gamau gweithredu safleoedd gwarchodedig. Nodir gwerth y manteision hyn yn nhabl wyth:

Tabl wyth: Manteision amcangyfrifedig, £m, prisiau 2024

	Targedau Cynefinoedd Ehangach (£m)	Camau Gweithredu Safleoedd Gwarchodedig (£m)
Atafaelu carbon	3,599	2,984
Ansawdd aer	D/B	919
Hamdden	4,690	3,887
Iechyd corfforol	1,454	1,241
Total	9,743	9,032

Pwysleisiodd yr Asesiad Effaith, o ystyried cyfyngiadau data a bylchau yn y dystiolaeth, mai dim ond asesiad rhannol o'r manteision a wnaed, sy'n golygu, ar y cyfan, bod manteision ariannol y targedau wedi'u tanamcangyfrif. Yn benodol, ni chafodd manteision sy'n ymwneud â meysydd fel iechyd meddwl, gwirfoddoli a diogelwch bwyd eu cofnodi.

Manteision wedi'u haddasu i fod yn berthnasol i Gymru

Defnyddiodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a gymhwyswyd i Bapur Gwyn Llywodraethu Amgylcheddol Llywodraeth Cymru gymhareb poblogaeth a chymhareb tir i drosi'r manteision a nodwyd yn Lloegr i gyd-destun Cymreig. Nid yw'r naill na'r llall o'r dulliau hyn yn berffaith. Er enghraifft, mae daearyddiaeth Cymru a'i defnydd tir yn wahanol i ddaearyddiaeth Lloegr ac ni fydd yn cyd-fynd yn union o ran sut mae manteision ymyrraeth amgylcheddol yn digwydd. Serch hynny, mae manteision canlyniadau amgylcheddol - yn gyffredinol - yn aml yn cael eu cyfrifo mewn perthynas â'r boblogaeth a defnydd tir ac felly maent yn gwneud dirprwyon defnyddiol.

Yn y cyd-destun hwn, defnyddiodd y RIA ddau bwysoliad pennawd a gymhwyswyd i fuddion a nodir yn Asesiad Effaith Deddf yr Amgylchedd 2021 fel a ganlyn:

1. **pwysoli poblogaeth.** Mae gan Gymru boblogaeth sydd 5.5% o boblogaeth Lloegr⁹⁴
2. **cymhareb arwynebedd.** Mae gan Gymru arwynebedd tir sydd 15.9% o faint Lloegr⁹⁵

Canfu adolygiad o ddull yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ddwy elfen a gafodd eu diwygio wedi hynny yn y ffyrdd canlynol:

1. **Dileu 'canran gymhariaeth' Fformiwla Barnett o'r cyfrifiad.** Mae hyn yn adlewyrchu faint o wasanaethau adran o'r DU sydd wedi'u datganoli, h.y. mae wedi'i osod ar 0% os nad oes dim o wariant adran wedi'i ddatganoli. Fe'i defnyddiwyd yng nghyfrifiadau manteision RIA gwreiddiol Llywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn rhan o Fformiwla Barnett, a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer pwysoli'r boblogaeth. Ond nid oes gan y ganran gymhariaeth hon unrhyw effaith uniongyrchol ar y manteision sy'n cael eu deillio, h.y. nid yw graddfa'r datganoli yn effeithio ar yr arbedion cost iechyd o lygredd aer llai. Felly ni chafodd ei ystyried yn y cyfrifiadau ar gyfer hyn.
2. **Pwysoli pob mantais yn ôl y gymhareb sydd fwyaf perthnasol iddo.** Er enghraifft, mae'r manteision sy'n deillio o well ansawdd aer, mwy o hamdden ac iechyd corfforol yn berthnasol i bobl, ac felly pwysoli'r boblogaeth yw'r mwyaf priodol. Mae manteision dal a storio carbon yn fwy perthnasol i dir ac felly mae'r gymhareb arwynebedd wedi'i chymhwyso.

Gyda'r addasiadau hyn, cyfrifwyd y manteision darluniadol ar y sail ganlynol:

- **senario isel.** Cymhwyso cymhareb poblogaeth Cymru i Loegr yn unig
- **senario ganolog.** Cymhwyso'r gymhareb boblogaeth a thir mwyaf perthnasol i bob un o'r categorïau o fudd a allai ddeillio o dargedau bioamrywiaeth

⁹⁴ Yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2021 yr ONS, gyda phoblogaeth o tua 3.1m yng Nghymru a phoblogaeth o tua 56.0m yn Lloegr

⁹⁵ Defra (2002), Tir yn ôl defnydd amaethyddol a defnyddiau eraill, 2002. Amcangyfrifir bod gan Gymru 2,064 hectar o dir ac amcangyfrifir bod gan Loegr 12,972 hectar

- **senario uchel.** Cymhwysio cymhareb tir Cymru-i-Loegr yn unig

Mae Tabl naw yn dangos cyfanswm y manteision a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull hwn. Mae'r manteision yn cronni dros 78 mlynedd – yr amserlen y cyfrifodd yr Asesiad Effaith gwreiddiol y manteision ynddi – ac yn gyfanswm o tua £1.7bn. Mae cyfanswm yr ystod o fanteision tua £1.0bn-£3.0bn.

Tabl naw: Cyfrifiadau o fanteision ar senarios isel, canolog ac uchel

	Targedau Cynefinoedd Ehangach (£m)	Camau Gweithredu Safleoedd Gwarchodedig (£m)	Cyfanswm (£m)
Isel (pwysoli poblogaeth)	536	497	1,033
Canolog(pwysoli poblogaeth a thir yn gymysg)	910	807	1,717
Uchel (pwysoli arwynebedd tir)	1,549	1,436	2,985

Mae ystyried costau dangosol i gyflawni polisïau i gyrraedd y targedau yn cynhyrchu ffigur mantais net. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn £664m ac yn creu gwerth presennol net ar gyfer manteision o tua £1bn ar yr amcangyfrif canolog. Nodir y ffigurau gwerth presennol net hyn yn nhabl deg, ochr yn ochr â chyfrifiadau o senarios isel ac uchel o fanteision net (lle cyflwynir yr amcangyfrif isel gan ddefnyddio pwysoli poblogaeth a chyflwynir yr amcangyfrif uchel gan ddefnyddio pwysoli arwynebedd tir).

Tabl 10: Cyfrifiadau o fanteision net ar senarios isel, canolog ac uchel

	Gwerth Presennol Net (£m)
Isel (pwysoli poblogaeth)	369
Canolog(pwysoli poblogaeth a thir yn gymysg)	1,053
Uchel (pwysoli arwynebedd tir)	2,321

Casgliadau o ddadansoddiad cost-budd

- Y casgliad allweddol o'r ymarfer cost-budd yw, ar draws tair rhan y ddeddfwriaeth, **bod costau gweithredu'r ddeddfwriaeth yn fach o'u cymharu â manteision posibl canlyniadau amgylcheddol gwell**. Er enghraifft, mae cyfanswm y costau ar gyfer yr opsiynau a ffefrir o fewn y ddeddfwriaeth yn £27.2m dros 10 mlynedd. Mae hyn yn golygu mai dim ond 2.6% o fanteision canlyniadau bioamrywiaeth gwell y byddai'n rhaid i'r cyfuniad o'r egwyddorion, y corff llywodraethu a'r targedau bioamrywiaeth gyfrannu atynt er mwyn gwrthbwyso cost y ddeddfwriaeth. Er y dylid nodi mai dim ond cost y ddeddfwriaeth yw hon, ac nad yw'n cynnwys costau unrhyw fesurau polisi a allai gael eu gweithredu i gyfrannu ymhellach at fanteision amgylcheddol, h.y. y £664m y cyfeiriwyd ato yn yr adran flaenorol.

Mae canfyddiadau allweddol eraill yn cynnwys:

- **Mae cyfiawnhad dros gostau uwch yn fater o farn.** Er enghraifft, mae cost cymhwyso egwyddorion i bob corff cyhoeddus chwe gwaith yn uwch na chymhwyso egwyddorion i Lywodraeth Cymru yn unig. Y farn yma yw a yw'r cymhwyso i bob corff cyhoeddus yn cynhyrchu digon o ganlyniadau amgylcheddol gwell i gyfiawnhau'r gost uwch.
- **Mae cyfyngiadau sylweddol yn y dadansoddiad.** Er bod costau a manteision y ddeddfwriaeth wedi'u datblygu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael a'r technegau arfer gorau, nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch y ffigurau a gyflwynir. Os bydd mwy o wybodaeth a thechnegau gwerthuso ar gael, byddem yn cynghori cynnal dadansoddiadau a diwygiadau pellach, a fyddai'n arbennig o briodol pan fydd y polisiâu y mae'r ddeddfwriaeth yn eu galluogi yn cael eu cynllunio.

Costau a manteision na ellir eu mesur yn deillio o gyflwyno'r Bil

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau a'r manteision na ellir eu mesur sy'n deillio o gyflwyno'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol yn ei gyfanrwydd, o ddadansoddiad o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a phan gânt eu cadarnhau â thystiolaeth sydd ar gael.

Costau na ellir eu mesur (o gyflwyno'r Bil)			
Cymdeithasol	Economaidd	Diwylliannol	Gweithdrefnol
Effaith ar hawliau a chynhyrchiant amaethyddol oherwydd egwyddorion amgylcheddol yn erbyn cynhyrchiant/goruc h-afiaeth amaethyddol dros dir	Risg o brinder sgiliau a chynhwysedd i sefydliadau wrth gydymffurfio â'r Bil ac egwyddorion a phrosesau gorfodi newydd	Ymyleiddio neu risg i gymunedau Cymraeg oherwydd gorgyffwrdd cryf rhwng cymunedau Cymraeg a chymunedau ffermio	Effaith ar effeithlonrwydd y system gynllunio/angen adolygu prosesau os bydd y Bil Amgylcheddol yn cryfhau'r gallu i herio defnydd tir a datblygiad drwy gynllunio Aneffeithlonrwydd oherwydd dryswch ynghylch blaenoriaeth deddfwriaeth rhwng deddfwriaethau neu gyfarwydddebau sy'n gorgyffwrdd neu'n wrthgyferbyniol yng Nghymru, gan gynyddu'r baich ar lunwyr polisi cenedlaethol a lleol a chyrrff cyhoeddus
Manteision na ellir eu mesur (o gyflwyno'r Bil)			
Cymdeithasol	Economaidd	Diwylliannol	Gweithdrefnol
Gwella lles dynol ar lefel unigol a chyfunol trwy ymgysylltu â natur Ailboblogi rhai ardaloedd oherwydd yr amgylchedd	Gwelliannau ac arallgyfeirio defnydd tir gyda manteision dynol, cymdeithasol a busnes/eco-dwristiaeth cysylltiedig	Mwy o gynhwysiant a chydabyddiaeth wleidyddol i rai cymunedau sydd wedi'u 'gadael ar ôl' ar hyn o bryd, trwy ymgorffori	Gwell ymreolaeth wleidyddol a gwelededd rhyngwladol Cymru (sy'n effeithio ar gysylltiadau dwyochrog a

Costau na ellir eu mesur (o gyflwyno'r Bil)			
naturiol wedi'i adfer a'r manteision economaidd a lles a grëir gan yr amgylchedd naturiol wedi'i adfer Mwy o fudd mewn ecwiti cymdeithasol gan fod cymunedau sydd wedi'u hymylu a chymunedau sydd wedi'u heffeithio gan yr hinsawdd yn debygol o elwa fwyaf o liniaru colledion amgylcheddol a/neu adfer (gan eu bod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddirywiad yr amgylchedd naturiol ac ansicrwydd y status quo carbon uchel)		pwysigrwydd yr amgylchedd yn y gyfraith a chynnydd y cymunedau hyn ar adfer yr amgylchedd naturiol. (Mae llawer yn gymunedau iaith Gymraeg) Adfer cysylltiad diwylliannol rhwng cymunedau Cymreig penodol (yn enwedig cymunedau Cymraeg eu hiaith) ac amgylchedd naturiol wedi'i adfer. Cryfhau balchder a hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru a welir fel rhywbeth sy'n gysylltiedig yn ddwfn â'r amgylchedd naturiol	chytundebau masnach) oherwydd gweithredu deddfwriaeth ddatganoledig uchelgeisiol Effeithlonrwydd drwy safoni prosesau gorfodi a 'llunio polisïau ataliol' sy'n lliniaru risgiau i'r amgylchedd yn hytrach na'u caniatáu fel canlyniadau anfwriadol sydd wedyn yn gofyn am gyfaddawdau neu 'lanhau' Enillion economaidd, lles a chymdeithasol na ellir eu mesur o bosibl o gyflymu cynnydd tuag at sero net a diogelu'r amgylchedd drwy gyflwyno'r Bil
Mantais penodolrwydd ac addasrwydd canlyniadau i gyd-destun Cymru, ar draws pob maes, er mwyn sicrhau gwelliannau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar le; ac effeithlonrwydd y broses asesu, atebolrwydd a sancsiynu leol			

Casgliadau o safbwyntiau rhanddeiliaid

Mae'r asesiad hwn yn canfod y canlynol o ran barn rhanddeiliaid, gan gyfeirio at y canfyddiadau o'r dadansoddiad cost a budd:

- **Egwyddorion amgylcheddol:** Y dewis a ffefrid ar gyfer cyflwyno egwyddorion o safbwynt rhanddeiliaid oedd Opsiwn 1D) Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru. Ystyriwyd mai dyma'r unig lwybr a fyddai'n gwarantu gorfodadwyedd ac a oedd â'r manteision cliraf na ellir eu mesur. Fodd bynnag, mae costau Opsiwn 1D chwe gwaith yn uwch na chostau Opsiwn 1A (busnes fel arfer) oherwydd cydymffurfiaeth 50+ o gyrff cyhoeddus. Rydym yn dod o hyd i dystiolaeth dda o safbwynt damcaniaeth a rhesymeg o fanteision y buddsoddiad hwn, ond rhaid i ni godi nad oes modd mesur y manteision (fel y canfu Asesiad Effaith Lloegr hefyd). O ganlyniad, mae'n benderfyniad ynghylch a yw'r gost ychwanegol honno'n dod â chanlyniadau amgylcheddol llawer gwell, gan na ellir profi a mesur hyn yn benodol yng nghyd-destun Cymru.
- **Llywodraethu amgylcheddol:** Roedd cefnogaeth unfrydol gan rhanddeiliaid i Opsiwn 2C) Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol pwrpasol, er gwaethaf cydnabod y costau cynyddol y gallai hyn eu golygu. Y brif fantais a welwyd ar gyfer yr opsiwn hwn oedd y potensial gorfodi y mae'r un corff cyhoeddus yn ei gynnig wrth gynnal y ddeddfwriaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â hi, er mwyn cyflawni effeithiau gwirioneddol o ran diogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth yng Nghymru.
- **Fframwaith Bioamrywiaeth:** Y dewis a ffefrid oedd 3C) Sefydlu Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth statudol, gyda chefnogaeth i orfodi drwy Weinidogion Cymru.